Estyn



# Caffael yr iaith Gymraeg

Sut mae lleoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr

Mawrth 2021

estyn.llyw.cymru

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- ysgolion pob oed
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

**Mae Estyn hefyd:**

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

**Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:**

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at **cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru**

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: **www.estyn.llyw.cymru**

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.

# Cynnwys

**Rhagair** 8

**Crynodeb Gweithredol** 10

**Cyflwyniad** 20

**Cefndir** 22

**Prif ganfyddiadau** 28
Dysgu a darpariaeth ar gyfer medrau 29
Arweinyddiaeth 34

**Argymhellion** 35

**Dysgu, agweddau at ddysgu a chefnogi dysgwyr** 37
Gwrando a siarad 38
Darllen 42
Ysgrifennu 45
Cymhwyso medrau ar draws y cwricwlwm 48
Agweddau at ddysgu 50
Cefnogi dysgwyr 53

**Darpariaeth** **56**
Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu 57
Trochi 63
Cynllunio i ddatblygu medrau dysgwyr 67
Addysgu ac asesu 72
Gwrando a siarad 81
Darllen 90
Meithrin diwylliant o ddarllen 94
Ysgrifennu 100

**Arweinyddiaeth** **107**
Arweinyddiaeth a gweledigaeth 108
Gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant 111
Dysgu proffesiynol i ddatblygu arbenigedd ac adeiladsu capasiti 113

## Deunydd atodol

**Enghreifftiau o ddarpariaeth effeithiol** **118**

Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu 119

Trochi 127

Cynllunio i ddatblygu medrau dysgwyr 130

Addysgu ac asesu 133

Gwrando a siarad 145

Darllen a meithrin diwylliant o ddarllen 154

Ysgrifennu 160

Arweinyddiaeth a gweledigaeth 163

Gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant 166

**Cymorth dysgu proffesiynol** **169**

Meddwl am eich arfer eich hun wrth gynllunio ar gyfer dysgu 170

Meddwl am eich arfer eich hun o ran datblygu medrau iaith dysgwyr trwy drochi 175

Meddwl am eich arfer eich hun mewn darllen a meithrin diwylliant darllen 178

Meddwl am eich arfer eich hun o ran datblygu ysgrifennu dysgwyr 181

**Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** 184

**Atodiad 2: Gwybodaeth gefndir am leoliadau ac ysgolion** 187

**Geirfa** 193

**Cyfeiriadau** 200

# Rhagair

**Mae'r compendiwm hwn o adroddiadau thematig a deunyddiau ategol yn disgrifio arfer sy'n cefnogi datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr yn llwyddiannus yn iaith y lleoliad neu'r ysgol.**

Mae'r adroddiad **'Caffael yr iaith Gymraeg'** yn rhoi trosolwg o ba mor effeithiol y mae lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn addysgu a chefnogi caffael a datblygiad medrau Cymraeg dysgwyr rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae'r adroddiad **'Iaith a llythrennedd Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd'** yn nodi pa mor effeithiol y mae lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru yn cefnogi ac yn addysgu iaith a llythrennedd Saesneg i ddysgwyr tair i un ar ddeg oed.

**Gobeithiwn y bydd yr adroddiadau hyn yn cyfrannu at drafodaethau proffesiynol mewn lleoliadau ac ysgolion ynglŷn â sut i wella addysgu iaith a llythrennedd, a chefnogi ysgolion i baratoi ar gyfer y maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Llywodraeth Cymru, 2019).**

Maent yn annog ymarferwyr i ystyried ystod y profiadau dysgu y maent yn eu cynnig i ddysgwyr a sut maent yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau. Mae cydweithio o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion ar gynllunio'r cwricwlwm wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn aml daw â buddion sylweddol i athrawon a dysgwyr. Er enghraifft, mae athrawon cynradd yn aml yn rhannu arbenigedd a gwaith ar draws grwpiau blwyddyn a chyfnodau i gynllunio prosiectau penodol, datblygu'u meddwl neu roi cynnig ar ymagweddau newydd at addysgu iaith a llythrennedd ar draws yr ysgol.



Mae'r crynodeb hwn yn crynhoi themâu lefel uchel cyffredin a chanfyddiadau o'r adroddiadau, ac yn amlygu ffactorau pwysig sy'n dylanwadu ar ddysgu iaith mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, ac mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg. Rydym yn eich annog i ddarllen ac ystyried yr enghreifftiau o arfer effeithiol yn y ddau adroddiad. Mae'r ymagwedd hon yn gam cyntaf tuag at gynorthwyo arweinwyr ac ymarferwyr i ystyried dysgu ac addysgu iaith yng nghyd-destun datblygu'r *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru 2020b) a'n huchelgais cenedlaethol i alluogi pob dysgwr i ennill gwybodaeth a medrau yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol.

Er i'r gwaith maes ar gyfer yr adroddiadau gael ei wneud cyn i'r pandemig ddatblygu, gobeithiwn y bydd y negeseuon allweddol, cameos ac astudiaethau achos yn yr adroddiadau yn cynorthwyo ysgolion i wella eu haddysgu, ac i weithio mewn partneriaeth â theuluoedd a chymunedau, i sicrhau bod dysgwyr i gyd yn gwneud cynnydd cryf mewn iaith a llythrennedd.

# Crynodeb Gweithredol

## Dysgu ac agweddau at ddysgu

**Mewn lleoliadau a dosbarthiadau meithrin, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf ac yn datblygu'u medrau iaith a llythrennedd yn effeithiol.**

Wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol gynradd, mae'r rhan fwyaf yn parhau i wneud cynnydd cadarn neu well yn eu datblygiad iaith o'u mannau cychwyn gwahanol, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog yn datblygu'u medrau yn llwyddiannus ac mae ganddynt afael cadarn ar y Gymraeg erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw dysgwyr sy'n fwy abl yn cyflawni gystal ag y gallent. Yn gyffredinol, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw bechgyn yn cyflawni gystal â merched, ac nid yw dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn gwneud cynnydd digonol wrth ddatblygu'u medrau iaith a llythrennedd. Er gwaethaf gwelliannau mewn agweddau ar siarad, darllen ac ysgrifennu, mae safonau iaith a llythrennedd mewn ysgolion cynradd yn ddigon tebyg i'r rheini yr adroddom amdanynt bum mlynedd yn ôl.

Lle ceir safonau gwrando a siarad cryf, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn rhyngweithio yn dda gydag ymarferwyr a'i gilydd. Maent yn mewnoli, yn siarad ac yn cymhwyso iaith yn gynyddol hyderus i gyfathrebu'n effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw lleiafrif o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yn datblygu'u medrau gwrando a siarad yn ddigon da.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn cyflawni rhuglder a mynegiant addas yn eu darllen. Er bod llawer o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio ystod gynyddol o strategaethau i ddatblygu'u dealltwriaeth wrth ddarllen yn annibynnol, nid ydynt bob amser yn datblygu ystod ddigon eang o fedrau darllen datblygedig. Mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg, nid yw mwyafrif o ddysgwyr yn trafod llyfrau a blodeugerddi a ysgrifennwyd yn Gymraeg yn wreiddiol yn ddigon hyderus. Yn gyffredinol, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mae mwynhad dysgwyr wrth ddarllen yn lleihau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

Yn yr ysgolion lle mae safonau gwrando, siarad a darllen yn gryf, mae dysgwyr yn defnyddio'r medrau hyn i ddylanwadu ar eu hysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Maent yn datblygu'r medrau hyn mewn gweithgareddau cyfoethog o ran llythrennedd ac yn eu cymhwyso yn yr holl feysydd dysgu. Mewn llawer o ysgolion, medrau ysgrifennu dysgwyr yw'r gwannaf o'r pedair medr iaith o hyd. Yn rhyw hanner yr ysgolion cynradd, mae medrau dysgu annibynnol dysgwyr, yn enwedig mewn ysgrifennu, yn parhau yn feysydd i'w datblygu.

Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, mae agweddau cadarnhaol gan ddysgwyr at ddatblygu medrau iaith a llythrennedd. Mae dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mewn ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog yn gwerthfawrogi manteision bod yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg.



**Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn cyflawni rhuglder a mynegiant addas yn eu darllen.**

## Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu

**Mae llawer o ymarferwyr yn modelu iaith yn dda i gefnogi datblygu lleferydd a chyfathrebu dysgwyr yn llwyddiannus.**

Mae lleoliadau ac ysgolion yn aml yn creu amgylcheddau dysgu sy'n gyfoethog o ran iaith a llythrennedd. Mae medrau iaith a llythrennedd dysgwyr yn cael eu datblygu orau yn aml yn yr ysgolion a'r lleoliadau hynny sy'n mabwysiadu ymagwedd thematig integredig neu ymagwedd a ystyriwyd yn ofalus. Wrth baratoi ar gyfer *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b), mae llawer o ysgolion cynradd yn defnyddio ystod eang o gyd-destunau go iawn a dychmygus i ddatblygu neu ehangu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Lle mae addysgu iaith yn llwyddiannus iawn, mae athrawon yn cynllunio'n benodol ar gyfer gwybodaeth dysgwyr am eirfa, fel agwedd nodedig ar ddysgu iaith.

**Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw cynllunio ar gyfer dysgu wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Er enghraifft, mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg, ni chaiff hyn ei lywio'n ddigon da gan dystiolaeth ac ymchwil. Mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, nid yw cynllunio yn cefnogi dysgwyr yn ddigon da wrth iddynt symud rhwng dosbarthiadau a chyfnodau.**

Lle ceir diffygion mewn addysgu iaith mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, nid yw staff yn adnabod pwysigrwydd dysgwyr yn datblygu'u gwybodaeth am eirfa wrth gynllunio ar gyfer dysgu, nac yn darparu cyfleoedd penodol iddynt wneud hynny. Mae hyn yn cyfyngu'r cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud, fel gwella ansawdd eu hysgrifennu mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a datblygu'u dealltwriaeth darllen mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

## Addysgu ac asesu

**Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn sicrhau bod dealltwriaeth briodol gan ddysgwyr o’r hyn y byddant yn ei ddysgu yn eu gwersi iaith. Mae llawer o ysgolion yn darparu adborth clir, defnyddiol i gefnogi dysgwyr i wella’u gwaith iaith a llythrennedd.**

Mae llawer o ymarferwyr yn fodelau iaith cryf sy’n trochi dysgwyr yn llafar ac ysgrifenedig. Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, mae ymarferwyr yn cefnogi dysgwyr yn llwyddiannus i fod yn ddysgwyr dwyieithog hyderus a hyfedr.

Mewn ychydig o leoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw athrawon yn holi dysgwyr yn ddigon gofalus i sgaffaldu a hyrwyddo’u medrau iaith a llythrennedd gystal ag y gallent.

Mewn ychydig o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, nid yw ymarferwyr bob amser yn deall sut mae arferion trochi yn cefnogi dysgwyr i gaffael iaith. Mewn lleiafrif o ddarparwyr, nid yw ymarferwyr yn darparu digon o her i ddysgwyr â lefel uchel o Gymraeg.





## Gwrando a siarad

**Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion yn datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen.**

Lle bo'n briodol, mae ymarferwyr yn cynorthwyo dealltwriaeth gynnar dysgwyr o iaith trwy fodelu a dangos ystumiau neu symudiadau sy'n cyfleu ystyr geiriau.

- Mae llawer o ysgolion yn darparu cyfleoedd allgyrsiol buddiol, gan gynnwys yn y gymuned leol, i ddysgwyr ddatblygu'u medrau iaith.
- Mae'r ysgolion cynradd mwyaf effeithiol yn defnyddio cyd-destunau cyfoethog ac amrywiol, fel cyfranogi yn yr Urdd, i addysgu dysgwyr sut i wrando a siarad yn benodol.
- Mae darpariaeth fel arfer yn llai effeithiol pan fydd gwrando a siarad yn cael eu hystyried yn fedrau sy'n cefnogi dysgu ac ysgrifennu, yn hytrach nag fel medrau i'w datblygu ynddynt eu hunain.

## Darllen

**Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynllunio'n briodol ar gyfer dilyniant mewn datblygiad darllen dysgwyr ac maent yn addysgu darllen yn ddyddiol.**

- Ceir ffocws cryf yn aml ar ddatblygu medrau cyn-ddarllen dysgwyr mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir a dosbarthiadau meithrin, er enghraifft trwy ganeuon, rhigymau a cherddoriaeth.
- Mae meithrin hoffter am ddarllen a llenyddiaeth yn flaenoriaeth mewn ysgolion sy'n datblygu iaith a llythrennedd dysgwyr yn effeithiol. Maent yn datblygu strategaethau ysgol gyfan ar gyfer hyrwyddo darllen er pleser: darllen i ddysgwyr, darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddarllen ar goedd, rhannu nofelau cyflawn gyda dysgwyr, a darparu amser ar gyfer darllen annibynnol yn ddyddiol. Mae eu hathrawon yn eiriolwyr dros ddarllen.
- Mae llawer o ymarferwyr mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn datblygu medrau trawsieithu dysgwyr yn effeithiol i gefnogi'u darllen ar draws y cwricwlwm.
- Yn y darparwyr hynny lle nad yw dysgwyr yn datblygu'u medrau darllen yn ddigon da, mae hynny'n aml oherwydd bod ymarferwyr yn cadw'n rhy haearnaidd at gynllun darllen sy'n llesteirio mwynhad dysgwyr, neu nid oes strategaeth ysgol gyfan i wella medrau datgodio, adeiladu gwybodaeth am eirfa, na datblygu ymatebion dysgwyr i'r hyn y maent yn ei ddarllen.
- Mewn ychydig o ysgolion cyfrwng Saesneg, nid yw staff yn rhoi digon o ystyriaeth i gamau datblygiadol dysgwyr ac maent yn cyflwyno addysgu ffoneg yn rhy gynnar. Nid ydynt yn annog dysgwyr difreintiedig a'u teuluoedd i fwynhau darllen yn ddigon da.
- Mae diffygion mewn cefnogi darllen dysgwyr yn cynnwys diffyg cyfleoedd i oedolion feithrin arferion modelu darllen yng nghyfnod allweddol 2, gan gynnwys llenyddiaeth Gymraeg mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.



## Ysgrifennu

**Mae llawer o ysgolion cynradd wedi gwella addysgu ysgrifennu drwy ymagweddau cyson at ddatblygu medrau a mwy o ffocws ar ddeall diben a chynulleidfa.**

- Lle caiff ysgrifennu ei addysgu orau, mae dysgwyr yn deall confensiynau ffurf a genre, ac ysgrifennu fel proses. Yn gynyddol, wrth iddynt ystyried y cwricwlwm newydd, mae athrawon yn darparu rheswm go iawn i ddysgwyr ysgrifennu a chynulleidfa i ysgrifennu ar ei chyfer.
- Mewn ychydig o ysgolion, mae diffygion yn y cynllunio a'r defnydd anghyson o strategaethau addysgu a dysgu yn rhwystro datblygiad ysgrifennu dysgwyr, er enghraifft, mewn cystrawen, atalnodi a sillafu.
- Mewn ychydig o ysgolion, mae'r disgwyliad i ddysgwyr, gan gynnwys y rhai mwy abl, i ysgrifennu'n dda mewn ffurfiau gwahanol a heriol, yn rhy isel.
- Yn rhy aml, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr ysgrifennu'n rhydd gan ddefnyddio'r ystod o fedrau ysgrifennu sydd ganddynt yn barod. Yn gyffredinol, mae ansawdd cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig, a'r disgwyliad i ddysgwyr wirio, cywiro ac ailddrafftio'u gwaith, yn parhau'n llawer rhy amrywiol o hyd.

## Cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr a'u teuluoedd

**Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, mae gweithio cadarn mewn partneriaeth yn helpu llawer o ddysgwyr i wneud cynnydd da yn eu medrau iaith a llythrennedd.**

Fel arfer, mae'r berthynas â rhieni a gofalwyr yn gadarnhaol. Mae cymorth llawer o ysgolion ar gyfer dysgwyr ag anghenion iaith, llythrennedd a chyfathrebu penodol yn cael ei gynllunio'n ofalus a'i gyflwyno'n gyson, fel bod dysgwyr yn elwa yn briodol.

Serch hynny, nid yw ychydig o ysgolion bob amser yn cynllunio ac yn adolygu rhaglenni cymorth iaith ar gyfer dysgwyr â medrau iaith gwan neu anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon gofalus.

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i gael cymorth neu arweiniad i wella medrau iaith dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig. Mewn ychydig iawn o leoliadau ac ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardaloedd sydd dan yr anfantais gymdeithasol fwyaf, mae'r cymorth ac arweiniad ar gyfer datblygiad iaith a llythrennedd dysgwyr yn rhagorol. Eto, dim ond lleiafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n canolbwyntio'n ddigon da ar yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad iaith plant. Er gwaetha'r cyllid sydd wedi bod ar gael i fynd i'r afael â hyn, mewn mwyafrif o ysgolion, mae tlodi ac anfantais yn parhau'n rhwystrau i ddysgwyr rhag datblygu medrau iaith a llythrennedd sicr.

Mewn lleiafrif o ysgolion, mae ymarferwyr arbenigol mewn canolfannau trochi iaith yn cefnogi hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus drwy rannu dulliau trochi ac adnoddau perthnasol. Yn yr arfer orau, mae arweinwyr yn gweithio gyda mentrau iaith Gymraeg lleol a sefydliadau cenedlaethol eraill i annog a darparu cyfleoedd i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith. Mewn lleiafrif o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau bob amser bod dysgwyr mwy abl a'r rheini o gartrefi Cymraeg eu hiaith yn gwneud cynnydd digonol yn eu defnydd o'r Gymraeg.

## Arweinyddiaeth

**Mewn lleoliadau ac ysgolion lle mae safonau iaith a llythrennedd yn gryf, mae arweinwyr yn sefydlu gweledigaeth glir ac ymagwedd strategol at ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol.**

Mae strwythurau arwain priodol ar waith gan y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion i gefnogi cydlynu a datblygu'u darpariaeth ar gyfer iaith a llythrennedd. Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cryf o gydweithio lle mae gan yr holl ymarferwyr fynediad at wybodaeth gyfunol yr ysgol am strategaethau addysgu a dysgu effeithiol i ddiwallu anghenion iaith ac ieithyddol dysgwyr unigol, ac yn gallu elwa arni. Yn yr arfer orau, mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn hyderus yn eu strategaethau addysgu, fel y fethodoleg drochi o gaffael iaith mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae arweinwyr yn datblygu prosesau cadarn ar gyfer adolygu effaith addysgu a phrofiadau dysgu ar gynnydd dysgwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio gweithgareddau monitro a gwerthuso yn bwrpasol i ymateb i agweddau ar addysgu iaith sy'n benodol i bwnc. Mae arweinwyr yn buddsoddi ym medrau a galluoedd eu staff trwy ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n datblygu dealltwriaeth ymarferwyr yn llwyddiannus o'r ffordd orau i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Mewn ysgolion gwannach, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod staff yn cael cefnogaeth ddigon da i fod yn fodelau iaith da i ddysgwyr.

Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn darparu cymorth priodol i leoliadau ac ysgolion i feithrin eu gallu a'u harbenigedd mewn iaith a llythrennedd. Lle ceir diffygion, mae'r hyfforddiant a'r cymorth yn generig yn aml, ac nid ydynt bob amser wedi'u personoli digon nac wedi'u cydweddu ag anghenion ysgolion unigol.



# Cyflwyniad

**Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Addysg at Estyn ar gyfer 2019-2020. Nod yr adroddiad yw rhoi trosolwg i Lywodraeth Cymru o ba mor effeithiol y mae lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn addysgu a chefnogi caffael a datblygu medrau Cymraeg ymhlith dysgwyr rhwng tair ac un ar ddeg oed.**

Bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i ymarferwyr ac arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir, ymarferwyr ac arweinwyr mewn ysgolion cynradd, a swyddogion mewn awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Bydd hefyd o ddiddordeb i'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg gychwynnol i athrawon. Bydd canfyddiadau'r adroddiad yn helpu lleoliadau ac ysgolion i gynllunio ar gyfer maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020a). Mae'r adroddiad yn cynnwys disgrifiadau o nodweddion cyffredin mewn darpariaeth ragorol a disgrifiadau byr o arfer lwyddiannus. Ymhelaethir ar y disgrifiadau byr hyn mewn cameos a gyhoeddwyd i gyd-fynd â'r adroddiad er mwyn ymhelaethu ar sut mae darparwyr llwyddiannus yn datblygu medrau a gwybodaeth dysgwyr mewn gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae'r arweiniad atodol hefyd yn cynnig deunyddiau i gefnogi gweithgareddau dysgu proffesiynol.

**Bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i ymarferwyr ac arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir, ymarferwyr ac arweinwyr mewn ysgolion cynradd, a swyddogion mewn awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.**

At ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir caffael iaith fel dysgu sy'n digwydd pan fydd iaith yn cael ei phrofi yn ei chyd-destun. Yn gyffredinol, rydym yn caffael ein hiaith gyntaf drwy ryngweithio cymdeithasol, heb ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei ddysgu. Trwy ddod i gysylltiad â'r iaith, rydym yn dod yn gyfarwydd â strwythurau ac elfennau iaith, fel geirfa a phatrymau cystrawennol.

Nid yw'r adroddiad yn ystyried caffael yr iaith Gymraeg mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg.



# Cefndir

**Yn 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017-21', dywed y Gweinidog Addysg, 'Cenhadaeth ein cenedl yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol' (Llywodraeth Cymru, 2017a, t.3).**

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gyflwyno'r cwricwlwm gweddnewidiol newydd, sydd â nod cenedlaethol y bydd gan ddysgwyr yng Nghymru fedrau llythrennedd 'lefel uchel perthnasol', wedi'u datblygu drwy broffesiwn addysgu sy'n ymgymryd â gwaith ymchwil, yn hyddysg ac yn dysgu o ragoriaeth ar lefelau 'lleol, cenedlaethol a rhyngwladol' (Llywodraeth Cymru, 2017a, t.11). Yn y diweddariad i 'Cenhadaeth ein cenedl', mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau sut y bydd y diwygiadau addysg parhaus a'r cwricwlwm newydd, gyda'i gilydd, yn cefnogi pobl ifanc i ddatblygu safonau llythrennedd uwch (Llywodraeth Cymru, 2020b, t.15).

Mae canllawiau'r *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020a) ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn amlinellu sut mae'r maes dysgu a phrofiad yn cefnogi pedwar diben y cwricwlwm. Fel eu prif nod, maent yn nodi cefnogi dysgu ar draws yr holl gwricwlwm a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol, yn ogystal â llenyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2020a, t.126).



Mae dysgu iaith yn cyfeirio at yr addysgu a dysgu bwriadol sy'n digwydd i ddatblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae ystyried hyn yn greiddiol i gyd-destun ieithyddol ac addysgol Cymru. Mae tua 60% o ddysgwyr pump oed sy'n derbyn eu haddysg amser llawn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog yn byw mewn cartrefi sy'n siarad Saesneg fel prif iaith yr aelwyd (Llywodraeth Cymru, 2020c). Mae'r dulliau o drochi dysgwyr yn y Gymraeg, sy'n golygu defnyddio'r Gymraeg fel yr unig gyfrwng addysgu a dysgu, yn nodweddu darpariaeth mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, ynghyd â ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu dysgwyr sy'n hyfedr ac yn hyderus yn eu medrau Cymraeg a Saesneg.

Mae cysylltiad agos rhwng iaith a llythrennedd. Yng Nghymru, mae llythrennedd yn cyfeirio at y medrau sy'n ein galluogi i ddeall iaith ysgrifenedig a llafar, dehongli'r hyn sy'n cael ei ysgrifennu neu ei ddweud, a dod i gasgliadau. Mae llythrennedd hefyd yn cyfeirio at y gallu i gyfathrebu'n rhugl, yn effeithiol ac yn ddarbwyllol. Yn y Cwricwlwm i Gymru, bydd datblygu llythrennedd dysgwyr o bob cefndir ieithyddol yn parhau i fod yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd i bob ymarferydd (Llywodraeth Cymru, 2020a).

Bu ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn rhan greiddiol o'r addysg sy'n cael ei darparu yng Nghymru ers canol y ganrif ddiwethaf. Mae tua 17% o ddysgwyr yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac mewn ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog (Llywodraeth Cymru, 2020c). Mae'r dull o drochi dysgwyr yn yr iaith mewn amgylchedd dysgu Cymraeg yn rhan allweddol o'r addysgeg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae ymarferwyr yn parhau i addysgu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, ochr yn ochr â ffocws cynyddol ar iaith a llythrennedd Saesneg. Rhoddir cyfleoedd bwriadus i ddysgwyr gymhwyso eu medrau yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm i'w cefnogi i fod yn ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

Wrth drochi dysgwyr mewn iaith, rhoddir pwyslais ar ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr o oedran cynnar. Mae'r ffocws hwn ar gyfathrebu llafar yn cynorthwyo i ddatblygu hyder dysgwyr i ddechrau. Mae hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg ac, yn ddiweddarach, yn Saesneg.

Mae ymchwilwyr fel Rhys a Thomas (2013) a Thomas, Apolloni a Lewis (2014), yn nodi nad yw'n ymddangos bod dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg dan anfantais ieithyddol wrth gael eu haddysgu drwy gyfrwng eu hail iaith. Mae ymchwilwyr fel Young *et al.* (2017) a Gathercole *et al.* (2010; 2016) yn nodi nad ydynt dan anfantais wybyddol ychwaith. Dywed astudiaethau eraill, fel Thomas *et al.* (2014) a Gathercole, Mueller a Thomas (2009), ei bod yn ymddangos bod dysgwyr dwyieithog yn aml yn dangos oediad wrth gaffael yr ail iaith o gymharu â'u cyfoedion, sy'n hyderus mewn un iaith yn unig, yn enwedig o ran eu dealltwriaeth o eirfa. Mae'r oedi hwn yn diflannu wrth iddynt ddod yn fwy hyderus yn y ddwy iaith (Bharick *et al.*, 1994; Binks a Thomas, 2019). Mae astudiaethau blaenorol sy'n cymharu plant dwyieithog â phlant uniaith o ran eu patrymau caffael iaith (Cenoz a Genesee, 2001; Genesee, 1989, 2001; Voltera a Taeschner, 1978) yn cydnabod nodweddion cyffredin a'r gwahaniaethau a ddisgwylir yn eu cyfraddau caffael iaith (Genesee a Nicoladis, 2009; Pearson, Fernandez a Oller, 1993), fel rhan naturiol o broffil datblygu iaith plentyn dwyieithog. Mae'r dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol o addysgeg trochi yn werthfawr yng nghyd-destun addysg Gymraeg, gan ei bod yn ystyried dulliau effeithiol i ddatblygu iaith fel proses ddatblygiadol barhaus, er nad oes ymchwil estynedig ar effeithiolrwydd dulliau trochi mewn caffaeliad iaith Gymraeg dysgwyr wrth ystyried eu cefndiroedd ieithyddol amrywiol.

Un fantais o fod yn hyfedr mewn mwy nag un iaith yw bod y plentyn yn gallu ymdrin â gwybodaeth mewn unrhyw un o'r ieithoedd hynny. Mewn cyd-destun addysgol, mae hyn yn fuddiol oherwydd ehangder y deunyddiau sydd ar gael i'r plentyn eu defnyddio. Yng nghyd-destun trochi, mae defnyddio adnoddau Saesneg i gefnogi gwers drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at yr hyn y mae Baker (2000) a Williams (2003) yn cyfeirio ato fel y medr o 'drawsieithu', sef mewnoli gwybodaeth mewn un iaith (drwy wrando ar, neu ddarllen, deunydd yn yr iaith honno) a'i hesbonio mewn dull gwahanol yn yr iaith arall – yn Gymraeg, fel arfer (Thomas, Apolloni a Parry, 2018). Mae'r broses o fewnoli a chyflwyno gwybodaeth, mewn arddull wahanol yn yr iaith arall er mwyn osgoi ei chyfieithu, yn cyfoethogi dealltwriaeth y plentyn o'r wybodaeth gan barhau, ar yr un pryd, i ddatblygu medrau ieithyddol y plentyn, ochr yn ochr, yn y ddwy iaith.

At ei gilydd, mae lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog yn defnyddio'r dull trochi fel modd hanfodol i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr a'u defnydd o eirfa a phatrymau cystrawennol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr nad ydynt yn siarad llawer o Gymraeg gartref, os o gwbl, yn datblygu eu medrau Cymraeg yn effeithiol, wedi'u cefnogi gan weithgareddau sy'n gyfoethog o ran iaith a llythrennedd.



## Blaenoriaethau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru

Un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw sicrhau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015, t.4). Yn dilyn egwyddorion Cymwys am Oes (Llywodraeth Cymru, 2015), mae Dyfodol Llwyddiannus yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn natblygiad Cymru 'fel cenedl ddwyieithog sydd â'r cryfder a'r hunanhyder i feithrin y ddwy iaith' (Donaldson, 2015, t.26). Ar ben hynny, dywed y dylai ysgolion ganolbwyntio o'r newydd ar 'ddysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu a deall yr iaith lafar' (Donaldson, 2015, t.115).

Mae Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21 yn nodi'r nod i ddatblygu 'darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwella addysgu a dysgu Cymraeg i bob dysgwr' a rhoi'r rhain 'wrth wraidd' diwygiadau addysg (Llywodraeth Cymru, 2017b). Dywed y Gweinidog Addysg, 'Cenhadaeth ein cenedl yw codi safonau, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol' (Llywodraeth Cymru, 2017a, t.3).

Mae Canllawiau Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020a) ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn nodi sut mae'r maes dysgu a phrofiad yn cefnogi pedwar diben y cwricwlwm. Fel eu prif nod, maent yn nodi cefnogi dysgu ar draws yr holl gwricwlwm a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a medrau yn y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol, yn ogystal â llenyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2020a, t.126). Mae pwysigrwydd 'cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus a gwerthfawrogi pa mor ddefnyddiol ydyw er mwyn cyfathrebu mewn Cymru ddwyieithog' (Llywodraeth Cymru, 2020a, t.30) yn cael ei amlygu hefyd. O ganlyniad, mae datblygu dysgwyr sy'n ymfalchïo yn y Gymraeg ac yn ei defnyddio'n fwyfwy hyderus wrth wraidd y weledigaeth genedlaethol.

Dywed Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2018-2019, 'Mae bron yr holl leoliadau ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn datblygu medrau iaith eu disgyblion yn effeithiol trwy drochi mewn Cymraeg ar draws yr holl feysydd dysgu yn ystod y cyfnod sylfaen, beth bynnag yw iaith gartref y disgyblion' (Estyn, 2020, t.15). Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lle nad y Gymraeg yw iaith y cartref i'r

rhan fwyaf o blant, mae llawer yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau llafar cryf. Er gwaethaf eu cefndiroedd ieithyddol amrywiol, mae dysgwyr yn llwyddo i gyrraedd yr un safon yn eu medrau Cymraeg a Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn gyffredinol (Estyn, 2020, t.69).

Er bod cyrhaeddiad dysgwyr wedi cynyddu'n gyffredinol mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog, prin fu'r cynnydd o ran lleihau'r bwlch cyflawniad i ddysgwyr dan anfantais yng Nghymru. Yn fwy diweddar, dywed Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2018-2019 er y bu gwelliannau mewn agweddau ar fedrau llythrennedd (Estyn, 2020), mae safonau llythrennedd wedi parhau'n weddol debyg dros y tair blynedd diwethaf. Ar draws lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog, mae darparu digon o her wrth addysgu llythrennedd i fodloni anghenion dysgwyr mwy abl yn parhau i fod yn flaenoriaeth i lawer o ysgolion yng Nghymru (Estyn, 2020).



Yn Ebrill 2020, cyhoeddodd y Cenhedloedd Unedig adroddiad yn nodi effeithiau'r pandemig ar blant ledled y byd, gan gynnwys plant a phobl ifanc yn colli dysgu, oherwydd bod ysgolion wedi'u cau yn genedlaethol (Y Cenhedloedd Unedig, 2020). Mae'r risgiau i ddatblygiad dysgwyr o ran medrau mor bwysig ag iaith a llythrennedd yn ddigynsail. Er gwaetha'r mesurau a gymerodd lleoliadau ac ysgolion yng Nghymru i gynorthwyo dysgwyr i ymgysylltu â dysgu iaith a llythrennedd yn ystod yr argyfwng, bydd gan lawer o ddysgwyr fylchau yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi cynorthwyo dysgwyr o bob cefndir ieithyddol i ymgysylltu, cynnal a datblygu eu medrau iaith a llythrennedd Cymraeg yn ystod yr argyfwng.

# Prif ganfyddiadau

# Dysgu a darpariaeth ar gyfer medrau

1 Mewn lleoliadau, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn ac yn caffael y Gymraeg yn effeithiol.

2 Mae llawer o ddysgwyr yn y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd yn datblygu eu medrau gwrando yn effeithiol. Gwnânt hynny drwy wrando'n astud ar ymarferwyr sy'n cyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol iddynt mewn gweithgareddau llafar pwrpasol. Mae hyn yn cyfrannu at y broses o gaffael a chyfoethogi iaith wrth iddynt efelychu'r iaith yn fwyfwy hyderus ar draws yr ystod oedran.

3 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol yn rhyngweithio'n dda ag ymarferwyr a'u cyfoedion wrth iddynt ddatblygu'r hyder i gyfathrebu yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio'r iaith yn gyson drwy ei mewnoli, siarad a'i chymhwyso'n gynyddol hyderus i gyfathrebu'n ddigymell yn y Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau ffurfiol a llai ffurfiol.

4 Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth ffonolegol yn fwyfwy hyderus mewn ystod o weithgareddau difyr ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ymarferwyr yn arwain dysgwyr i glywed, adnabod ac ynganu seiniau llythrennau'r wyddor yn gywir. Trwy weithgareddau darllen ar y cyd gydag oedolion a'u cyfoedion, mae dysgwyr yn ailedrych ar, ac yn ymarfer, eu medrau o ran segmentu a chyfuno geiriau sy'n fwy cymhleth. O ganlyniad, gwna'r rhan fwyaf ohonynt gynnydd cadarn yn eu medrau darllen dros amser.



5 Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dechrau deall ac adnabod y cysylltiad rhwng iaith lafar a seiniau ffonolegol, ac maent yn dod yn gyfarwydd â geiriau aml eu defnydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddysgwyr yn darllen geiriau anghyfarwydd ac yn

ffurfio brawddegau mwyfwy cymhleth. Wrth i ddysgwyr fagu hyder a gwneud cynnydd yn eu medrau darllen, maent yn trafod amrywiaeth ehangach o destunau.

6 Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn llwyddiannus. Maent hefyd yn darllen testun ac yn cywain gwybodaeth mewn un iaith, ac yn coladu, trafod a chofnodi'r wybodaeth mewn iaith arall, naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg fel arfer. Mae hyn yn datblygu medrau trawsieithu dysgwyr ac yn cefnogi datblygiad eu medrau darllen Cymraeg.

7 Mae llawer o leoliadau ac ysgolion yn meithrin diwylliant o ddarllen drwy strategaeth darllen ysgol-gyfan sydd wedi'i datblygu'n dda. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn darparu ystod ddifyr a symbylol o destunau i ddysgwyr. Yn y darparwyr hyn, gall dysgwyr fanteisio ar ardal ddarllen benodol yn yr ystafell ddosbarth neu lyfrgell yr ysgol, lle maent yn datblygu eu medrau darllen yn annibynnol. Mewn ysgolion llai effeithiol, nid yw lleiafrif o ymarferwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig cyfleoedd digon cyson i ddysgwyr wrando ar bobl eraill yn darllen llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg. O ganlyniad, mae gwybodaeth ychydig o ddysgwyr am destunau ac awduron Cymreig yn gyfyngedig, ac nid ydynt yn ddigon hyderus i'w trafod.

8 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn hybu medrau ysgrifennu dysgwyr drwy greu cysylltiad amlwg rhwng gwrando a siarad, ac ysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ymhellach drwy ysgrifennu brawddegau mwyfwy cymhleth. Maent yn cyfoethogi eu gwaith â geirfa gyfoethog ac yn defnyddio ystod eang o atalnodau yn gywir wrth ysgrifennu gwahanol fathau o destunau. Wrth i fedrau llafar y rhan fwyaf o ddysgwyr ddatblygu, caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau ysgrifennu. Ar hyn o bryd, nid yw'r lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu i'r un safon â'u medrau siarad a darllen. Nid yw ychydig o ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i ddysgwyr ysgrifennu'n rhydd ac yn annibynnol, nac yn cynllunio'n ddigon bwriadus i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth



bresennol i ymestyn eu medrau ysgrifennu ymhellach.

9 Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn gyson ar draws y cwricwlwm. Pan roddir cyfle iddynt wneud hynny, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau llafar yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac yn defnyddio'r Gymraeg yn gywir. Maent yn datblygu eu medrau darllen yn gynyddol drwy ddarllen testunau ffuglen a ffeithiol ar ystod ddiddorol o themâu, er enghraifft wrth ddysgu am arwyr o Gymru. Mae llawer o ddysgwyr ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft drwy ddefnyddio ffurf orchmynnol y ferf wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau syml i wneud cebabau ffrwythau yn y cyfnod sylfaen.

10 Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn falch o gyfathrebu yn y Gymraeg, ac yn deall gwerth a budd datblygu eu medrau Cymraeg. Yn yr arfer orau, mae llawer o ddarparwyr yn achub ar bob cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith mewn modd rhyngweithiol ac ymarferol yn yr ysgol a'r gymuned leol. Trwy wneud hynny, mae dysgwyr o bob cefndir ieithyddol yn defnyddio

ac yn cymhwyso'r iaith yn fedrus mewn amrywiaeth o weithgareddau bwriadus, er enghraifft wrth helpu preswylwyr oedrannus mewn cartref preswyl lleol i ddatblygu eu gallu i gyfathrebu â'u teuluoedd a'u ffrindiau gan ddefnyddio dyfeisiau digidol.

**11** Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, mae dysgwyr y nodir eu bod yn ddifreintiedig neu fod ganddynt anghenion addysgol arbennig (AAA) yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn wrth gaffael y Gymraeg. Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, cânt gymorth priodol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyflawni eu targedau iaith personol. Mae ymarferwyr yn cynllunio rhaglenni cymorth manwl sy'n bodloni anghenion dysgu cyffredinol bron pob dysgwr yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes cefnogaeth gyson i grwpiau o ddysgwyr sydd ag anghenion iaith penodol, fel oedi cyffredinol mewn datblygu iaith a dyslecsia, drwy gyfrwng y Gymraeg, nac adnoddau addas ar gael i ymarferwyr eu defnyddio wrth gefnogi pob grŵp o ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr AAA.

**12** Mae llawer o ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau ieithyddol cyfoethog sy'n ennyn ac yn cynnal diddordeb dysgwyr yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae'r mwyafrif ohonynt yn datblygu medrau iaith dysgwyr yn gynyddol wrth iddynt symud drwy'r lleoliad a'r ysgol. Nid yw ychydig o ymarferwyr yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ystod lawn y medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu mewn cyd-destunau ystyrlon a diddorol ar draws y cwricwlwm.

**13** Mewn llawer o ddarparwyr, mae ymarferwyr yn trochi dysgwyr yn y Gymraeg drwy fodelu iaith yn dda a darparu amgylchedd dysgu sydd â chyfoeth o eirfa a chystrawen Gymraeg. Mae'r lleoliadau a'r ysgolion hyn yn ymfalchïo mewn bod yn gymunedau sydd ag ethos Cymraeg. Dros amser, mae mwyafrif yr ymarferwyr yn ehangu ystod yr eirfa a'r

**Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, mae dysgwyr y nodir eu bod yn ddifreintiedig neu fod ganddynt anghenion addysgol arbennig (AAA) yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn wrth gaffael y Gymraeg.**

patrymau cystrawennol y mae dysgwyr yn eu defnyddio. Mewn lleiafrif o ddarparwyr, nid yw ymarferwyr yn trochi dysgwyr yn ddigon effeithiol yn y Gymraeg nac yn sicrhau bod datblygiadau mewn un medr, er enghraifft siarad, yn cefnogi ac yn ategu datblygiad mewn un arall, fel ysgrifennu.

**14** Mae darparwyr sy'n rhagori mewn datblygu caffaeliad iaith dysgwyr yn cynnig cefnogaeth ddefnyddiol i grwpiau o ddysgwyr. Maent yn trefnu gweithgareddau sy'n gyfoeth o iaith i fodloni anghenion ieithyddol dysgwyr o bob cefndir ieithyddol. Yn gyffredinol, ychydig iawn o ysgolion sy'n targedu datblygu medrau dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd neu'r rhai y nodwyd eu bod yn fwy abl.

**15** Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion lle mae'r addysgu yn effeithiol, mae ymarferwyr yn datblygu geirfa dysgwyr yn fedrus. Mae hyn yn gryfder yn y ddarpariaeth ac yn fodd cyson o sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio ac yn cymhwyso iaith lafar ac ysgrifenedig fwyfwy aeddfed ac estynedig mewn gwersi Cymraeg ac ar draws y cwricwlwm wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

**16** Mae medrau'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn addysgu iaith a llythrennedd yn gryfder. Maent yn cyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol newydd yn gelfydd mewn gweithgareddau cyfoethog sydd wedi'u cynllunio'n dda. Nid yw medrau cyfathrebu ychydig o ymarferwyr yn ddigon cadarn i gefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn gywir.

**17** Yn gyffredinol, mae llawer o ymarferwyr yn holi, monitro ac olrhain cynnydd dysgwyr yn effeithiol, ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n bodloni anghenion datblygiadol y rhan fwyaf o ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau olrhain lleiafrif o ysgolion yn sicrhau bod pob grŵp o ddysgwyr yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg dros amser.

# Arweinyddiaeth

18 Ym mwyafrif y lleoliadau a'r ysgolion lle mae safonau iaith a llythrennedd yn uchel i bob dysgwr, mae arweinwyr yn sefydlu gweledigaeth glir a dull strategol o ddatblygu medrau iaith a llythrennedd Cymraeg dysgwyr mewn amgylchedd dysgu cynhwysol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn cynllunio ystod eang o gyfleoedd i ddwysau a chefnogi dysgwyr o bob cefndir ieithyddol i ymfalchïo yn y Gymraeg a'i defnyddio'n naturiol ac yn ddigymell fel rhan o'u haddysg a'u bywydau bob dydd.

19 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn datblygu diwylliant cryf o gydweithio lle gall pob aelod o staff fanteisio ac elwa ar fethodoleg drochi gyfunol yr ysgol o gaffael iaith. Maent yn buddsoddi ym medrau ac arbenigedd ymarferwyr drwy ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel, sy'n datblygu eu dealltwriaeth o'r ffordd orau i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr.

20 Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn datblygu gweithdrefnau cadarn i werthuso effaith addysgu a phrofiadau dysgu ar gynnydd dysgwyr. Yn yr ysgolion lle mae datblygiad proffesiynol ar gyfer addysgu iaith yn llai datblygedig, er bod arweinwyr yn monitro agweddau cyffredinol ar addysgu, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar agweddau ar addysgu iaith mewn meysydd a phynciau penodol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr nodi anghenion dysgu proffesiynol ymarferwyr yn fanwl gywir er mwyn gallu mynd i'r afael â'r rhain i sicrhau bod staff yn fwy abl i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Mewn ychydig o ysgolion, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn fodelau iaith da i ddysgwyr bob tro.



# Argymhellion

## Dylai lleoliadau nas cynhelir, ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd:

**A1** gynllunio'n ofalus ar gyfer dilyniant a pharhad mewn datblygu medrau dysgwyr o bob cefndir ieithyddol wrth iddynt gaffael y Gymraeg

**A2** darparu gweithgareddau gwrando a siarad rheolaidd i ddatblygu geirfa a phatrymau cystrawennol dysgwyr, a'u hannog i gymhwyso'r medrau newydd hyn mewn gweithgareddau ffurfiol a llai ffurfiol

**A3** olrhain cynnydd, datblygiad geirfa a chaffaeliad iaith grwpiau penodol o ddysgwyr yn drylwyr, gan gynnwys y rhai sy'n fwy abl

## Dylai ysgolion cynradd:

**A4** gynnig cyfleoedd i ddysgwyr wrando ar, darllen a gwerthfawrogi llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg gan awduron o Gymru, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2

**A5** sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr ysgrifennu'n rhydd ac yn annibynnol

## Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:


**A6** ddarparu hyfforddiant i ddwysau dealltwriaeth ymarferwyr o'r modd y mae dysgwyr yn caffael y Gymraeg, ac o fethodoleg effeithiol o ran trochi iaith

## Dylai Llywodraeth Cymru:

**A7** ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar drochi iaith er mwyn cefnogi addysgu a dysgu wrth gaffael y Gymraeg



# Dysgu, agweddau at ddysgu a chefnogi dysgwyr



# Gwrando a siarad

21 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn dod o gartrefi Cymraeg, yn caffael yr iaith yn llwyddiannus drwy wrando ar ymarferwyr yn cyfathrebu â nhw yn y Gymraeg yn gyson. Trwy wneud hynny, maent yn clywed llif yr iaith ac yn dod i ddeall a mewnoli geiriau a phatrymau cystrawennol yn effeithiol. Dros amser, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn magu hyder wrth ddatblygu eu medrau siarad Cymraeg.

22 Mewn darpariaeth meithrin a derbyn, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando ar eiriau aml eu defnydd a phatrymau cystrawennol syml drwy weithgareddau 'sy'n gyfoeth o eiriau', er enghraifft drwy wrando ar, a dilyn, cyfarwyddiadau syml wrth fynegi eu hoff a chas lysiau wrth baratoi cawl. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn dod yn gyfarwydd â geirfa a phatrymau syml yn gyflym, ac yn eu galluogi i fewnoli'r iaith cyn magu'r hyder i siarad Cymraeg eu hunain.

23 Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau siarad yn dda. Maent yn ynganu geirfa'n gynyddol gywir wrth iddynt glywed a chanu amrywiaeth o ganeuon a rhigymau cyfarwydd. Yn aml, mae dysgwyr yn ailadrodd geirfa a phatrymau cystrawennol fel modd effeithiol o fewnoli seiniau a geiriau syml. Maent yn clywed mydr, odl a strwythur yr iaith, ac mae hyn yn eu helpu i ddefnyddio'r iaith mewn ffordd naturiol a difyr. Erbyn diwedd cyfnod y dysgwyr yn yr ysgol gynradd, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando ac yn rhyngweithio'n hyderus ag oedolion a'u cyfoedion.

24 Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, yn enwedig y rhai sydd ag un neu ddim un rhiant neu ofalwr sy'n siarad Cymraeg gartref, yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau siarad Cymraeg. Mae dysgwyr yn ailadrodd seiniau a geiriau syml, ac yn



datblygu eu gallu i ynganu'r geiriau hyn a goslefu'n gynyddol gywir. Wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn siarad Cymraeg yn hyderus ac yn huawdl. Maent yn defnyddio'r iaith yn ddigymell mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol, er enghraifft wrth chwarae gemau buarth. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr amgyffrediad cadarn o'r Gymraeg, ac mae medrau siarad llawer o ddysgwyr o safon debyg i'w medrau yn yr iaith maent yn ei siarad gartref.

**25** Mewn llawer o leoliadau nas cynhelir a dosbarthiadau meithrin, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol, er enghraifft wrth ddefnyddio geirfa newydd yn fwyfwy hyderus wrth weithio'n annibynnol mewn ardaloedd dysgu gwahanol yn y cyfnod sylfaen. Gyda chefnogaeth gan oedolion, mae dysgwyr yn defnyddio'r eirfa a phatrymau cystrawennol a addysgwyd iddynt wrth iddynt ddewis eu gweithgareddau eu hunain. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cydweithio â'i gilydd ac yn trafod pa ddeunyddiau y dylent eu defnyddio i adeiladu roced. Maent yn defnyddio geirfa allweddol, fel 'hir' a 'byr', 'talach' a 'talaf' yn gywir, ac yn defnyddio eu defnydd o arddodiaid fel 'wrth', 'ochr' ac 'ar ben'. Mewn ychydig o ddarparwyr, mae dysgwyr yn cyfathrebu â'i gilydd yn Saesneg wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau yn annibynnol. O ganlyniad, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau llafar yn ddigon effeithiol ar draws y meysydd dysgu, ac mae hyn yn llesteirio eu cynnydd.

**26** Mewn lleoliadau ac ysgolion lle mae addysgu yn y cyfnod sylfaen yn gryfder, mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu eu medrau siarad yn effeithiol drwy gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau dysgu ymarferol a rhyngweithiol. Er enghraifft, drwy wrando ar ymarferwyr yn ailadrodd stori ac ailadrodd rhannau o'r stori eu hunain, daw dysgwyr yn gyfarwydd â'i geirfa a phatrymau iaith. Mae'r cynefindra hwn â'r iaith yn cynorthwyo llawer o ddysgwyr i ddatblygu eu gallu i gofnodi ac ysgrifennu eu naratifau syml eu hunain.

27 Yn yr ysgolion hynny lle mae safonau gwrando a siarad yn gryf, mae dysgwyr yn parhau i wneud cynnydd da o ran datblygu geirfa gyfoethog, eang ac amrywiol drwy gydol cyfnod allweddol 2. Cânt gyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio strwythurau brawddegau a geiriau amrywiol yn fanwl gywir yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gynnal trafodaethau mewn gwyddoniaeth, fel 'Ydy ysmygu yn cael effaith andwyol ar y corff?', mae dysgwyr yn gwrando'n ofalus ar sut mae'r ymarferydd yn trafod y testun ac yn defnyddio geirfa sy'n benodol i'r pwnc. Mae hyn yn datblygu eu hyder i ddewis a dethol geirfa briodol wrth drafod ffeithiau penodol, a defnyddio patrymau iaith cywir wrth gyflwyno gwybodaeth i'w cyfoedion. Mewn ychydig o ysgolion, mae ychydig o ddysgwyr yn dueddol o siarad Saesneg pan ddaw'r iaith yn fwy technegol, ac yn defnyddio patrymau iaith anghywir o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn datblygu eu medrau llafar yn ddigon da ar draws ystod o gyd-destunau, a'u bod yn brin o hyder wrth gyfathrebu yn y Gymraeg.

28 Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, gwna dysgwyr gynnydd yn eu medrau siarad yn llwyddiannus drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'u cyfrifoldebau fel aelodau o grwpiau disgyblion. Er enghraifft, mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o iaith ffurfiol drwy gyflwyno gwybodaeth i'w cyfoedion a'r corff llywodraethol am themâu a chyd-destunau penodol, fel rhan o'u dyletswyddau yn y cyngor ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn hynod effeithiol drwy gynrychioli'r ysgol yng ngweithgareddau a chystadlaethau lleol a chenedlaethol yr Urdd. Er enghraifft, maent yn perfformio rhan o nofel neu'n cyflwyno digwyddiad hanesyddol mewn perfformiad cerddorol byr. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at ddatblygu gafael llawer o ddysgwyr ar yr iaith, yn ogystal â dwysau eu dealltwriaeth o fanteision siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

**Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, gwna dysgwyr gynnydd yn eu medrau siarad yn llwyddiannus drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'u cyfrifoldebau fel aelodau o grwpiau disgyblion.**



29 Mae llawer o ddysgwyr sy'n fwy hyderus yn eu medrau Cymraeg yn cael dylanwad pwysig ar ddysgwyr y mae'r Gymraeg yn newydd iddynt pan maent yn dechrau yn yr ysgol. Trwy wrando ar eu cyfoedion a chymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu â nhw, mae hyn yn cynorthwyo dysgwyr sy'n newydd i'r iaith i wneud cynnydd cyflym o ran caffael y Gymraeg. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn datblygu gwybodaeth am reolau'r iaith, yn aml yn ddiarwybod. Maent yn dod yn fwyfwy hyderus yn eu gallu i gyfathrebu'n glir ac yn rhugl. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn dod o gartrefi lle mae un neu ddim un o'r rhieni'n siarad Cymraeg yn cyflawni cystal â'u cyfoedion o gartrefi Cymraeg erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Yn aml, mae gallu cynhenid a diddordeb dysgwyr mewn caffael iaith, yn ogystal â'r cymorth a roddir iddynt, yn sicrhau sylfaen gadarn i'w cyflawniad.

# Darllen

30 Ym mwyafrif y lleoliadau nas cynhelir a dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion, gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd cyson yn eu medrau 'cyn-darllen'. Maent yn dewis llyfrau'n annibynnol, yn dal llyfrau'r ffordd gywir ac yn gwneud synnwyr o'r testun a'r lluniau drwy adrodd ac ailadrodd storïau cyfarwydd yn Gymraeg. Mae llawer ohonynt yn trafod cynnwys storïau syml ac yn datblygu eu dealltwriaeth bod trefn benodol i'r geiriau mewn brawddeg.

31 Yn y rhan fwyaf o leoliadau'r cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ffonolegol yn effeithiol drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau. Maent yn clywed seiniau llythrennau'n rheolaidd ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng seiniau a llythrennau, yn aml drwy ddefnydd athrawon o raglen ffoneg. Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau o ran adnabod sain a siâp llythrennau a geiriau unigol, er enghraifft drwy gysylltu'r seiniau a'r llythrennau sy'n rhan o'u henwau wrth roi eu bagiau ar eu bachau unigol yn y gilfach gotiau. Maent yn ymestyn eu gwybodaeth ffonolegol drwy gyfuno seiniau unigol i adeiladu geiriau, er enghraifft i ddarllen dyddiau'r wythnos ar gardiau fflach, a'u segmentu i sillafu. Mae bron pob dysgwr, yn enwedig dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg, yn ymgyfarwyddo â seiniau'r llythrennau'n gyflym oherwydd orgraff dryloyw y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio symudiadau syml ac yn canu caneuon cofiadwy i'w helpu i gofio a chymhwyso'r wybodaeth hon. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn creu cysylltiad rhwng yr iaith maent yn ei chlywed a'i siarad, a'r ymadroddion a'r brawddegau syml maent yn eu gweld yn gyson yn yr amgylchedd dysgu neu mewn llyfrau.



32 Mae llawer o ddysgwyr yn y cyfnod sylfaen yn datblygu eu gwybodaeth ffonolegol a'u medrau darllen yn fwriadus drwy gymhwyso eu medrau'n annibynnol, er enghraifft drwy weithgareddau yn y ddarpariaeth barhaus ac estynedig. Yn y lleoliadau a'r ysgolion mwyaf effeithiol, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn gyson wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau iaith hyn. Er enghraifft, maent yn cystadlu mewn ras rwystrau i gasglu llythrennau penodol er mwyn eu rhoi gyda'i gilydd i sillafu lliwiau'r enfys. Wrth i ddysgwyr gymryd rhan yn y gweithgareddau rhyngweithiol hyn, cânt eu cefnogi gan oedolyn, yn aml, sy'n rhoi cymorth cynnil iddynt sy'n cyfateb i'r cam yn eu datblygiad darllen.

33 Mewn llawer o ysgolion effeithiol, gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 gynnydd cryf yn eu medrau darllen. Yn aml, maent yn gwneud hynny â chymorth gan ymarferwyr, sy'n gwrando arnynt yn darllen ac yn eu hannog i ddefnyddio strategaethau darllen i fynd i'r afael â thestunau anghyfarwydd neu heriol. Yn aml, mae dysgwyr yn cyd-ddarllen testun ehangach ac yn mwynhau ei drafod gyda'i gilydd. Mae'r gweithgarwch dysgu ar y cyd hwn yn helpu atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr o'r strategaethau y gallant eu defnyddio i wella eu medrau datgodio a'u rhuglder wrth ddarllen. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau darllen dan arweiniad bwriadus gydag ymarferwyr. Pan gânt eu cynllunio'n dda, mae'r sesiynau hyn yn helpu dysgwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r testun. Er enghraifft, maent yn dysgu ystyr geiriau anghyfarwydd ac yn dwysau eu dealltwriaeth o nodweddion testunau ffuglen a ffeithiol.

34 Wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn datblygu'r hyder i ddarllen testunau sy'n addas ar gyfer eu cyfnod datblygu yn fwyfwy annibynnol. Maent yn dewis testunau'n ofalus ac yn mwynhau darllen mewn ardaloedd penodol o'r ddarpariaeth, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn fedrus drwy ddarllen amrywiaeth o destunau, er enghraifft nofelau syml, testunau ffeithiol, e-gylchgronau ac e-lyfrau, a storïau a ysgrifennwyd gan ddisgyblion hŷn yr ysgol. Trwy wneud hynny, mae llawer o ddysgwyr yn cael pleser o ddarllen. Yn ddiweddar,

mae'r dewis ehangach o destunau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr wedi helpu i fodloni eu diddordebau a'u cynnydd yn eu medrau darllen. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y dysgwyr yn enwi awduron a beirdd o Gymru nac yn trafod llyfrau a blodeugerddi a ysgrifennwyd yn y Gymraeg yn wreiddiol yn ddigon hyderus.

35 Ym mwyafrif yr ysgolion, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn fuddiol. Mae'r dysgwyr ieuengaf yn darllen testun dan arweiniad ymarferwyr, ac yn cipddarllen y testun er mwyn ymateb iddo ar lafar neu gofnodi atebion syml, er enghraifft am Santes Dwynwen. Mae dysgwyr hŷn yn datblygu eu medrau drwy ddarllen testunau mwy heriol ac ymateb i gwestiynau sy'n datblygu eu medrau casglu, diddwytho, gwerthuso a gwerthfawrogi, er enghraifft drwy ddarllen a dehongli testun am y tannau mawr yn Awstralia.

36 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, yng nghyfnod allweddol 2 fel arfer, yn darllen testun mewn un iaith ac yn cywain a choladu gwybodaeth berthnasol mewn iaith arall yn hyderus. Mae llawer yn datblygu'r medr trawsieithu hwn yn effeithiol wrth gwblhau tasgau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cywain a choladu gwybodaeth am gestyll yng Nghymru yn Saesneg er mwyn cynnal trafodaeth a chofnodi'r canfyddiadau yn Gymraeg. Mae'r medrau hyn yn rhan bwysig o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac maent yn paratoi dysgwyr i ddefnyddio'r ddwy iaith yn effeithiol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

**Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, yng nghyfnod allweddol 2 fel arfer, yn darllen testun mewn un iaith ac yn cywain a choladu gwybodaeth berthnasol mewn iaith arall yn hyderus.**

# Ysgrifennu

37 Ym mwyafrif y lleoliadau meithrin a derbyn, mae medrau gwrando a siarad y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae'r cysylltiad hwn rhwng medrau iaith fynegiannol, sef rhwng iaith lafar ac ysgrifenedig, yn allweddol i ddatblygu ysgrifennu dysgwyr. Mae llawer ohonynt yn dechrau cofnodi eu syniadau drwy wneud marciau mawr gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau fel sialc, ewyn eillio a phaent. Mae'r ysgrifennu cychwynnol a digymell hwn yn rhoi'r hyder i ddysgwyr ifanc ddatblygu eu medrau cofnodi mewn gwahanol ardaloedd o'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae dysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth ffonolegol wrth greu rhestr o ffrwythau i'w prynu yn siop y dosbarth. Yn aml, mae llawer o ddysgwyr yn ffurfio llythrennau'n gywir drwy ddilyn cyfarwyddiadau gan oedolion fel rhan naturiol o ddatblygu eu hysgrifennu.

38 Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus drwy ddilyn strwythur penodol. Mae athrawon yn modelu ac yn cynnig fframweithiau fel canllaw i ddysgwyr eu defnyddio fel rhan o'r broses ysgrifennu, er enghraifft drwy ddatblygu map stori gweledol i gefnogi dysgwyr wrth iddynt ysgrifennu stori syml am deithio i Wlad y Teganau. Fodd bynnag, mae datblygiad ysgrifennu lleiafrif o ddisgyblion yn cael ei lesteirio wrth i ymarferwyr ddarparu fframweithiau cyfyngedig sy'n effeithio ar lif a chreadigrwydd ysgrifennu'r dysgwyr.



39 Wrth iddynt wneud cynnydd yn eu medrau ysgrifennu cynnar, mae llawer o ddysgwyr yn deall bod ystyr i ysgrifennu ac maent yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o 'gynulleidfa' ar gyfer eu hysgrifennu. Er enghraifft, maent yn cofnodi newyddion a storïau

cyfarwydd ar wahanol fathau o bapur yn y 'stondin ddarllen' i blant eraill eu darllen. Maent yn copïo llythrennau a geiriau, ac yn cofnodi'r rhain yn annibynnol yn fwyfwy hyderus. Maent yn galw eu gwybodaeth ffonolegol i gof wrth sillafu geiriau cyffredin. Wrth iddynt symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn deall bod strwythur i frawddeg, ac yn dechrau llunio brawddegau syml sy'n cynnwys ymadroddion a berfau yn amser y gorffennol, fel 'Es i', 'Gwelais', 'rhedais fel y gwynt'. Wrth i ymarferwyr gefnogi eu hymdrechion, mae dysgwyr yn datblygu'r hyder i wneud dewisiadau iaith mwy creadigol ac uchelgeisiol, er enghraifft drwy ysgrifennu 'gwlad mud ble clywir y clychau'n atsain hanes y chwedl hynafol', wrth ddisgrifio Cantre'r Gwaelod.

**40** Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus. Maent yn cyfoethogi eu gwaith trwy ddefnyddio ansoddeiriau fel 'gwefreiddiol' a 'hynaws', cymariaethau fel 'yn ddu fel y gigfran' a 'chwyrlio fel chwyrligwgan'. Yn ogystal, maent yn amrywio dechrau brawddegau ac yn defnyddio cysyllteiriau i ddatblygu a gwella eu hysgrifennu eu hunain. Trwy ddilyn strwythur i gyfansoddi math penodol o destun, mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio mathau gwahanol o frawddegau mwyfwy cymhleth ac yn trefnu eu gwaith yn baragraffau ystyrlon.

**41** Mewn llawer o leoliadau lle ceir arfer effeithiol, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau ysgrifennu creadigol hyfedr. Maent yn galw profiadau cyfarwydd i gof ac yn eu defnyddio i gyflwyno darnau estynedig, er enghraifft wrth ysgrifennu chwedl Gymraeg newydd. Maent hefyd yn cofnodi gwybodaeth mewn ystod eang o ddulliau ac yn dod yn gyfarwydd â ffurfiau gwahanol i gyflwyno'r wybodaeth honno. Er enghraifft, maent yn drafftio ffeil ffeithiau wrth restru gwybodaeth ddiddorol am Japan fel rhan o'u gwaith ar thema Cwpan Rygbi'r Byd. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau ar draws meysydd dysgu yn ddigon cadarn, nac i'r un safon ag yn eu gwersi iaith.

42 Mewn darparwyr sy'n datblygu medrau ysgrifennu dysgwyr yn hynod effeithiol, mae dysgwyr yn myfyrio ar eu gwaith i'w ddatblygu a gwella ei ansawdd. Wrth ymateb i adborth cefnogol gan athrawon, mae dysgwyr yn addasu rhannau penodol o'u gwaith er mwyn ei wella, yn hytrach nag ailddrafftio'r gwaith yn ei gyfanrwydd. Er enghraifft, yn aml maent yn defnyddio geiriadur a thesawrws i gyfoethogi eu gwaith ag ansoddeiriau ac adferfau detholedig ac yn creu idiomau gwreiddiol.

43 Yn yr arfer orau, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth ieithyddol, fel eu gwybodaeth am sillafu, yn fedrus mewn gweithgareddau gwerth chweil. Er enghraifft, mae dysgwyr yn chwilio am y patrwm 'wy' mewn geiriau syml drwy gymryd rhan mewn helfa geiriau ar y buarth neu drwy adrodd pennill wrth ddysgu sut i dreiglo'n feddal. Fodd bynnag, nid yw gallu ychydig o ddysgwyr i ysgrifennu'n gywir yn y Gymraeg yn ddigon cadarn. Mae gwallau elfennol, fel defnyddio geirfa Saesneg a phatrymau cystrawennol anghywir, yn britho'u gwaith drwyddi draw ac, o ganlyniad, mae hyn yn llesteirio safon a llif eu gwaith ysgrifenedig.



# Cymhwyso medrau ar draws y cwricwlwm

44 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus drwy amrywiaeth o weithgareddau dysgu ysgogol a chyfoethog, sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu medrau iaith dysgwyr ar draws y cwricwlwm. Trwy wneud hynny, mae dysgwyr yn caffael iaith yn llwyddiannus ac yn ei chymhwyso ymhellach mewn cyd-destunau ehangach.

45 Yn y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dysgu medrau iaith yn llwyddiannus drwy wrando ar eirfa a phatrymau cystrawennol syml a ddarperir gan yr ymarferydd, sydd yn aml o fewn eu profiad. Er enghraifft, mae athrawes Blwyddyn 1 yn cyflwyno ac yn atgyfnerthu ansoddeiriau fel 'waliau trwchus' a 'pont fwaog', ac arddodiaid fel 'ar ben', 'wrth ochr' a 'tu fewn' er mwyn cynorthwyo dysgwyr wrth iddynt ddefnyddio adnoddau mawr i adeiladu castell. At ei gilydd, mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn cael eu meithrin yn fuddiol er mwyn hybu medrau llafar a llythrennedd, ac mae ymarferwyr yn parhau i gyflwyno'r iaith a throchi dysgwyr yn y Gymraeg yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn caffael y Gymraeg yn gyson ac yn cysylltu iaith lafar â chysyniadau a gwrthrychau penodol mewn gweithgareddau cyfannol.

46 Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd yn fedrus mewn gweithgareddau pwrpasol sydd fel arfer yn gysylltiedig â thema'r dosbarth, er enghraifft wrth astudio'r streic yn Chwarel y Penrhyn. Mae ymarferwyr yn ailedrych ar eirfa a phatrymau cystrawennol ac yn eu hatgyfnerthu'n fedrus, wrth i ddysgwyr gywain a choladu gwybodaeth i ddrafftio sgript ar gyfer eu sioe diwedd blwyddyn. Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn gyson



wrth ddysgu a pherfformio'r sgript i gymuned yr ysgol. Mae hyn yn datblygu medrau llafar a llythrennedd dysgwyr yn hynod lwyddiannus wrth iddynt gaffael y Gymraeg mewn cyd-destun ystyrlon.

**47** Mewn ysgolion lle mae dysgwyr yn dangos safonau iaith a llythrennedd gyson uchel, mae dysgwyr yn defnyddio ac yn cymhwyso eu medrau'n hyderus i gefnogi eu dysgu ym mhob pwnc. Er enghraifft, mae dysgwyr Blwyddyn 5 yn cywain a choladu gwybodaeth am foddi Tryweryn drwy ddewis ffurf ysgrifennu yn annibynnol i gyflwyno gwybodaeth, er enghraifft ar ffurf sgript, erthygl papur newydd neu ddyddiadur. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn ddigon da ar draws y meysydd dysgu. Yn yr achosion hyn, nid yw dysgwyr yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu'r medrau hyn, neu nid ydynt wedi'u cysylltu'n ddigon agos â thema'r dosbarth. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn creu cysylltiad rhwng y gweithgareddau ynysig hyn a datblygiad cynyddol eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn datblygu eu medrau cystal ag y gallant bob tro.

**48** Mae ychydig o ddysgwyr yn dysgu am elfennau iaith yn benodol yn eu sesiynau iaith dyddiol. Maent yn dysgu geirfa newydd, amser gorffennol, presennol a dyfodol y ferf, a rheolau treiglo, er enghraifft drwy weithgareddau iaith sy'n ymateb i wallau cyffredin y mae athrawon yn eu nodi drwy adolygu gwaith y dosbarth.

**49** Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol mewn tasgau llythrennedd, ac yn ymestyn eu profiad o gaffael iaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio sgrin werdd wrth gyflwyno araith am amddiffyn y coedwigoedd glaw, neu'n defnyddio geirfa sy'n benodol i'r pwnc fel 'llyfn', 'garw' a 'rhychiog' wrth gyflwyno gwybodaeth am gasgliad arbrawf ffrithiant mewn gwyddoniaeth.

# Agweddau at ddysgu

50 Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr llwyddiannus, mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddatblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn falch o fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg ac yn cydnabod manteision bod yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er enghraifft, mae un ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn llwyddiannus wrth i ddysgwyr lafarganu 'Cymraeg yn y dosbarth, Cymraeg ar yr iard, Cymraeg yn y dre, Cymraeg ar hyd y lle'. O ganlyniad, yn yr arfer orau, mae lleoliadau ac ysgolion yn gymunedau sy'n ymgorffori'r Gymraeg ac yn hyrwyddo Cymreictod ymhlith dysgwyr yn hynod lwyddiannus.

51 Yn y cyfnod sylfaen, mae gan bron pob un o'r dysgwyr agweddau cadarnhaol dros ben tuag at amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae llawer ohonynt yn dechrau yn y lleoliad neu'r ysgol heb unrhyw amgyffrediad neu ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Maent yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'i gilydd ac oedolion, ac yn dysgu'r iaith drwy ryngweithiadau a chyfarwyddiadau dyddiol. Yn aml, mae hyn mewn amgylchedd dysgu sy'n gyfoeth o iaith o ran hyrwyddo medrau Cymraeg dysgwyr. Lle mae'r arfer yn fwyaf effeithiol, mae dysgwyr yn awyddus i wrando ar yr iaith yn cael ei siarad sydd, yn ei dro, yn helpu i ddatblygu eu gwybodaeth ffonolegol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder llawer o ddisgyblion i ddechrau cyfathrebu gan ddefnyddio geiriau a brawddegau byr, ac yn cynorthwyo i ddatblygu eu darllen.



52 Wrth i ddysgwyr symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu ac yn cymhwyso eu medrau mewn amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau, er enghraifft wrth chwarae gemau buarth fel rhan o weithgareddau Siarter yr Iaith Gymraeg. O ganlyniad,

maent yn magu'r hyder i gymhwyso eu medrau llafar ymhellach drwy ehangu eu geirfa a'u patrymau cystrawennol yn fuddiol mewn gweithgareddau ffurfiol.

53 Wrth i ddysgwyr symud i gyfnod allweddol 2, mae agweddau'r rhan fwyaf ohonynt at ddysgu Cymraeg yn parhau i fod yn gadarn. Maent yn aml yn achub ar gyfleoedd yn yr ystafell ddosbarth a'r ysgol yn ehangach i ddatblygu eu medrau iaith, er enghraifft drwy ddwysau eu dealltwriaeth o hanes a threftadaeth Cymru wrth ddysgu am dywysogion Cymru, neu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn manteisio ar y profiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer i ddatblygu eu medrau, ac yn dod yn fwyfwy hyfedr a hyderus yn y Gymraeg.

54 Mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n hynod effeithiol o ran hybu medrau ieithyddol dysgwyr, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dwysau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ieithoedd eraill yn llwyddiannus hefyd. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gwersi Ffrangeg wythnosol fel rhan o ddarpariaeth bontio â'r ysgol uwchradd. Mewn ychydig o ysgolion, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau Cymraeg llafar yn fuddiol, er enghraifft drwy gynnal sesiynau ar-lein â dinasyddion o Japan sydd wedi dysgu Cymraeg mewn prifysgol yng Nghymru. Trwy wneud hynny, maent yn creu cysylltiad gwerthfawr rhwng agweddau gwahanol ar ieithoedd i gefnogi eu medrau wrth gaffael rhagor o ieithoedd.

55 Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, mae bron pob un o'r dysgwyr yn cyfranogi'n frwd mewn amrywiaeth o ddiwrnodau ac wythnosau Cymreig, er enghraifft Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Shwmae Su'mae a Dydd Gŵyl Dewi. O oedran cynnar iawn, mae hyn yn ymestyn dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddysgwyr o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, a bod gwerth a statws i'r iaith wrth iddynt dyfu'n oedolion. Mae gweithgareddau mynych y Siarter Iaith drwy gydol y flwyddyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu gwerthfawrogiad dysgwyr o'r diwylliant bywiog ac amrywiol sy'n berthnasol i'w bywydau bob dydd. Yn y lleiafrif o ysgolion, caiff siaradwyr Cymraeg enwog o fyd y celfyddydau perfformio a chwaraeon eu gwahodd i rannu eu profiadau ac ysbrydoli a meithrin dealltwriaeth dysgwyr o werth y Gymraeg fel rhan o'u bywydau bob

dydd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at gaffael y Gymraeg ac ieithoedd tramor modern eraill.

**56** Mae llawer o ddysgwyr yn siarad Cymraeg yn wirfoddol drwy gydol y dydd ac yn dangos balchder yn eu gallu i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol. Mewn llawer o ysgolion, mae ymarferwyr yn addysgu terminoleg gwahanol gampau, er enghraifft pêl-rwyd a phêl-droed, er mwyn arfogi dysgwyr i'w defnyddio fel rhan o'u gweithgareddau chwaraeon. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddysgwyr yn anfodlon siarad Cymraeg o'u gwirfodd, yn enwedig mewn gweithgareddau llai ffurfiol. Yn aml, nid yw'r dysgwyr hyn yn siarad Cymraeg yn hyderus oherwydd gwybodaeth wannach am eirfa. Maent yn dueddol o gyfieithu patrymau cystrawennol Saesneg wrth siarad, ac felly mae eu defnydd o'r Gymraeg yn llai rhugl.

**57** Mewn ychydig o ddarparwyr, gall dysgwyr ddewis lleoliadau i ymweld â nhw i gyfoethogi eu profiadau o'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae dysgwyr yn dewis ymweld â Chastell Caerdydd a Pharc Treftadaeth y Rhondda fel rhan o'u thema 'Y Glo Aur'. Maent yn cywain a choladu gwybodaeth berthnasol i gymharu gwybodaeth am effaith gyferbyniol y diwydiant glo ar drigolion cymoedd de Cymru a Chaerdydd. Maent yn cyfweld â glowyr gan ddefnyddio technoleg amlgyfrwng, yn craffu ar ffeithiau o'r cyfrifiad, yn darllen dyddiadur mam i chwech o blant ac yn cyfweld â thywysydd castell Caerdydd. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu clipiau ffilm i gystadlu ac ennill gwobr mewn cystadleuaeth genedlaethol. Trwy wneud hynny, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd ac yn gwella eu hagweddau a'u gwerthfawrogiad o'r Gymraeg a hanes ac etifeddiaeth Cymru yn llwyddiannus.

**Mewn ychydig o ddarparwyr, gall dysgwyr ddewis lleoliadau i ymweld â nhw i gyfoethogi eu profiadau o'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae dysgwyr yn dewis ymweld â Chastell Caerdydd a Pharc Treftadaeth y Rhondda fel rhan o'u thema 'Y Glo Aur'.**



# Cefnogi dysgwyr

**58** At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr y nodir eu bod yn ddifreintiedig yn caffael y Gymraeg yn fuddiol. Yn yr arfer orau, maent yn datblygu eu medrau'n gyson drwy gael cymorth gan ymarferwyr medrus. Yn aml, maent yn datblygu eu medrau ieithyddol ochr yn ochr â'u lles emosiynol drwy ddilyn rhaglenni cymorth yn llwyddiannus.

**59** Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag AAA gynnydd cadarn o'u mannau cychwyn, wrth i ymarferwyr nodi eu hanghenion yn gynnar. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio'n agos â darparwyr cyn-meithrin ac yn sicrhau bod darpariaeth yn addas ar gyfer anghenion ieithyddol pob plentyn. Er enghraifft, yn ystod eu cyfnod yn y ddarpariaeth, mae dysgwyr ag anghenion iaith dwys yn cael cymorth ychwanegol dan arweiniad byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Mae rhaglenni cymorth penodol yn cael eu cynllunio ac mae staff darparwyr yn eu cefnogi'n gyson. O ganlyniad, mae dysgwyr ag anghenion ieithyddol penodol yn gwneud cynnydd sy'n addas i'w hoed a'u gallu. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth ar gyfer ychydig iawn o ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ieithyddol penodol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg bob tro, er enghraifft cymorth iaith a lleferydd arbenigol.

**60** Mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n hynod effeithiol o ran datblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr, gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd cryf wrth gael cymorth effeithiol gan ymarferwyr arbenigol, wrth iddynt ddyrannu rhaglenni cymorth penodol sy'n cyfateb i anghenion dysgu penodol dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn arwain y rhaglenni cymorth hyn yn effeithiol, ac mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn cyfrannu'n helaeth at gefnogi'r gweithgareddau hyn. Yn dilyn



dysgu proffesiynol perthnasol, mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn arwain rhaglenni yn hyderus. Nid yw adnoddau ar gael yn y Gymraeg bob tro i hwyluso dysgu wrth gyflwyno medrau penodol. Yn yr arfer orau, caiff syniadau a gweithgareddau ymarferol eu rhannu â rhieni a gofalwyr i'w helpu i gefnogi eu plant gartref. Trwy annog cydweithrediad cyson â rhieni a gofalwyr, caiff dysgwyr gymorth effeithiol i wneud cynnydd pellach yn eu medrau iaith.



# Darpariaeth



# Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu

61 Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, mae ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd dysgu i hyrwyddo a throchi dysgwyr yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio arddangosfeydd ac ardaloedd dysgu deniadol yn dda i gynorthwyo dysgwyr o ran datblygu iaith.

62 Mae llawer o leoliadau nas cynhelir ac ysgolion yn cynllunio gweithgareddau sy'n datblygu medrau dysgwyr yn adeiladol, er enghraifft drwy ddefnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (Llywodraeth Cymru, 2013). Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i ddarparu gweithgareddau sy'n cyfateb i allu ieithyddol y rhan fwyaf o ddysgwyr. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo iaith lafar dysgwyr sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau darllen ac ysgrifennu. Mae hyn yn rhan greiddiol o waith lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r rhan fwyaf o ddysgwyr i gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus.

63 Yn yr arfer orau, mae ychydig o leoliadau ac ysgolion yn cydweithio'n agos â phartneriaid i gynllunio a sicrhau dilyniant a pharhad mewn medrau iaith a llythrennedd wrth i ddysgwyr symud o leoliad i'r ysgol, neu o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Wrth i ddysgwyr symud o un cyfnod i'r llall, maent yn parhau i ddatblygu ac ehangu eu geirfa a'u defnydd o batrymau cystrawennol. Yn y lleiafrif o leoliadau ac ysgolion, nid yw darpariaeth yn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd digonol o ran parhau i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg dros amser. Nid yw cynllunio i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd dysgwyr o'r naill ddosbarth a chyfnod oed i'r llall yn ddigon effeithiol, yn enwedig i'r dysgwyr hynny sy'n dod o gartrefi Cymraeg a dysgwyr y nodir eu bod yn fwy abl.



64 Yn y mwyafrif o'r lleoliadau ac ysgolion mwyaf effeithiol, mae ymarferwyr yn datblygu medrau gwrando a siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr yn effeithiol wrth addysgu themâu penodol, sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn y thema 'Arwyr Anhygoel', mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd difyr i ddysgwyr ddatblygu eu medrau darllen a chyflwyno ar lafar. Mae dysgwyr yn ysgrifennu sgript ac yn cyflwyno gwybodaeth am eu hoff arwyr gan ddefnyddio dyfeisiau electronig a 'sgrin werdd'.

65 Mae llawer o leoliadau ac ysgolion yn defnyddio ystod gyfoethog o adnoddau er mwyn hyrwyddo addysgu a dysgu yn llwyddiannus. Fel arfer, mae ymarferwyr yn datblygu eu hadnoddau defnyddiol eu hunain, oherwydd prinder cyffredinol adnoddau cyfrwng Cymraeg addas, i gefnogi anghenion ieithyddol disgyblion, er enghraifft i hyrwyddo gweithgareddau gwrando a darllen a darparu adnoddau digidol rhyngweithiol ysgogol.

**Nodweddion cyffredin mewn darpariaeth ragorol**

- Amgylchedd dysgu sy'n hyrwyddo medrau Cymraeg dysgwyr yn gyson ac yn effeithiol
- Darpariaeth sy'n cyfateb i fedrau dysgwyr ac yn eu herio, yn unol â'u hoed a'u gallu
- Addysgu a dysgu sy'n ymgorffori egwyddorion y cyfnod sylfaen yn effeithiol fel rhan annatod o ddysgwyr yn caffael ac yn datblygu eu medrau iaith a llythrennedd
- Cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n cynorthwyo ymarferwyr i fod yn hyderus yn y fethodoleg ar gyfer addysgu iaith i blant, er mwyn mireinio eu haddysgu i fodloni anghenion dysgwyr o bob cefndir ieithyddol
- Cynllun iaith sy'n datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu pob grŵp o ddysgwyr yn gynyddol

- Arweinwyr ac arbenigwyr iaith yn cynnal sesiynau ag ymarferwyr i fapio gweithgareddau dysgu sy'n datblygu geirfa a phatrymau cystrawennol dysgwyr dros amser, o'r lleoliad nas cynhelir i'r ysgol gynradd, ac o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
- Ymarferwyr yn dechrau ymgorffori egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn addysgeg y lleoliad a'r ysgol
- Dwysau dealltwriaeth ymarferwyr o'r continwwm cynnydd ar gyfer dysgu iaith yn y Cwricwlwm i Gymru



## Cameo 1

**Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd dysgu cyfoethog ar gyfer iaith a llythrennedd i hybu a datblygu medrau Cymraeg dysgwyr, er enghraifft llythrennau'r wyddor, geiriau aml eu defnydd, labeli, cyfarwyddiadau a phatrymau cystrawennol syml.**

Mae dysgwyr yn y cyfnod sylfaen yn cyfeirio at y testun, fel arddodiaid, yn yr ardal adeiladu, ac mae dysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio geirfa yn seiliedig ar y pwnc wrth ddylunio ac adeiladu roced fel rhan o'u prosiect gwyddoniaeth. Mae pob un o'r dysgwyr yn ehangu eu geirfa a'u patrymau cystrawennol yn llwyddiannus, ac yn manteisio ar yr amgylchedd i'w cynorthwyo i ddatblygu eu medrau Cymraeg ymhellach.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 2

**Mewn un lleoliad nas cynhelir ac un ysgol gynradd ble trosglwyddir y dysgwyr iddi, mae ymarferwyr yn cyfarfod bob tymor i drafod datblygiad medrau gwrando a siarad dysgwyr.**

Trwy'r cyfarfodydd hyn, mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau dysgu o gwmpas yr iaith a gyflwynwyd yn y lleoliad, fel geirfa a phatrymau cystrawennol syml a ddefnyddiwyd wrth adeiladu gwesty trychfilod. O ganlyniad, mae dysgwyr yn defnyddio ac yn datblygu geirfa benodol, fel ansoddeiriau, yn llwyddiannus. Mae'r cydweithrediad rheolaidd rhwng ymarferwyr yn arwain at gynllunio gweithgareddau ieithyddol yn bwrpasol, sy'n sicrhau bod dysgwyr yn caffael yr iaith yn gynyddol dros amser.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 3

**Wrth gynllunio dysgu, mae ymarferwyr yn dilyn diddordebau a thrywyddau ymholi dysgwyr drwy gynllunio ac ymateb i weithgareddau sy'n datblygu medrau ieithyddol bron pob un o'r dysgwyr yn llwyddiannus.**

Daw dysgwyr â gwrthrychau gwahanol i'r ysgol, fel tegan dinosor, sy'n sbarduno eu chwilfrydedd. Mae ymarferwyr yn manteisio ar y cyfle i ddarparu ystod o weithgareddau dysgu i ddatblygu medrau iaith dysgwyr, fel datblygu geirfa yn ymwneud ag ymddangosiad a chynefin y dinosor, a thrwy gyflwyno patrymau iaith syml. Maent yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith sydd newydd ei chaffael mewn gweithgareddau gwahanol i gefnogi datblygiad ieithyddol dysgwyr mewn gweithgareddau iaith a llythrennedd dilynol.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 4

**Mewn un ysgol, mae'r ymarferydd yn cynllunio ac yn addysgu darllen drwy gyflwyno a thrafod nodweddion llyfrau ffeithiol.**

Fel rhan o'r gweithgaredd hwn, mae'n cyflwyno terminoleg berthnasol, fel 'cynnwys' a 'mynegai' fel gweithgaredd i gymharu a chyferbynnu llyfrau ffuglen a ffeithiol am eliffantod. Mae ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau llythrennedd i ddatblygu medrau darllen dysgwyr yn effeithiol, wrth adeiladu ar eu dealltwriaeth flaenorol o lyfrau ffeithiol, fel chwilio a defnyddio ansoddeiriau a chyffelybiaethau sydd wedi'u rhestr yn y dudalen 'geirfa'. Mae dysgwyr yn cywain a choladu gwybodaeth syml o lyfrau ffeithiol eraill i greu eu llyfr eu hunain o ffeithiau am anifail o'u dewis.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 5

**Mewn dosbarth Blwyddyn 4, mae'r ymarferydd yn cynllunio i ddatblygu medrau ysgrifennu dysgwyr drwy ddilyn map cwricwlwm yr ysgol, sy'n sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu dysgwyr o ysgrifennu ar gyfer dibenion a chynulleidfaoedd gwahanol.**

Mae dysgwyr yn dewis y ffurf briodol i gyflwyno gwybodaeth, fel ymson neu ddyddiadur gofodwr fel rhan o'u dysgu am y gofod a'r bydysawd. Mae ymarferwyr yn cefnogi dysgwyr drwy fodelu'r iaith yn effeithiol, fel defnyddio berfau gorchmynnol ac ansoddeiriau diddorol.

Darllenwch fwy yma

# Trochi

**66** Daw mwyafrif y dysgwyr sy'n mynychu lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, a ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, o gartrefi lle mae ychydig iawn o'r Gymraeg yn cael ei siarad, os o gwbl. Mae llawer o ymarferwyr yn trochi dysgwyr yn y Gymraeg drwy fodelu iaith a'i defnyddio i gyfathrebu'n effeithiol. Dros amser, mae ymarferwyr yn ehangu ac yn ymateb ystod geirfa a phatrymau cystrawennol dysgwyr yn llwyddiannus, ac yn darparu amgylchedd dysgu sy'n gyfoeth o eirfa a llythrennedd Cymraeg. Fodd bynnag, yn y lleiafrif o ddarparwyr, nid yw ymarferwyr yn hyderus o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r camau perthnasol sydd eu hangen ar ddysgwyr i gaffael iaith yn llwyddiannus. O ganlyniad, nid ydynt yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr adeiladu eu medrau iaith yn gyson dros amser.

**67** Yn yr arfer orau mewn lleoliadau ac ysgolion effeithiol, mae ymarferwyr yn ehangu medrau iaith y rhan fwyaf o ddysgwyr yn llwyddiannus gan ddefnyddio methodoleg trochi fuddiol. Mae'r dull trochi yn ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio'r Gymraeg fel yr unig gyfrwng addysgu a dysgu, gan ddefnyddio technegau ymarferol a gweledol i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu geirfa a chystrawen. Mae cyflwyno, modelu ac atgyfnerthu iaith gywir yn greiddiol i lwyddiant y dull hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn golygu nad yw Saesneg yn cael ei chyflwyno hyd nes gyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol yn gwneud cynnydd cyson o ran caffael y Gymraeg, yn ogystal â Saesneg, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.



**68** Mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n darparu arfer effeithiol, mae ymarferwyr yn cynorthwyo dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn rheolaidd, llawer neu o gwbl, i glywed y Gymraeg a gwrando arni'n cael ei

siarad yn gyson. Dros amser, mae ymarferwyr yn cynyddu'r eirfa maent yn ei chyflwyno i ddysgwyr ac yn modelu patrymau iaith syml iddynt yn gyson. Maent yn annog dysgwyr i ailadrodd geirfa a phatrymau wrth iddynt ddod yn fwy hyfedr a hyderus wrth siarad Cymraeg. Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn efelychu geirfa a phatrymau cystrawennol yn llwyddiannus.

**69** Mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n rhagori, mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o ran sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn wrth gaffael y Gymraeg. Maent yn annog dysgwyr, yn eu cefnogi'n effeithiol ac yn eu cywiro mewn modd cefnogol. Yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn cywiro camgymeriadau diangen yn dda, er enghraifft 'Fi dim yn cael/Does gen i ddim', 'bag fi/fy mag'. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ieithyddol y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y Gymraeg. Yn y lleiafrif o achosion, nid yw ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau llafar yn ddefnyddiol ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. O ganlyniad, mae ychydig o ddysgwyr yn siarad gan ddefnyddio iaith wallus, sy'n cynnwys geirfa a phatrymau cystrawennol Saesneg. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar fedrau llafar ychydig o ddysgwyr sydd, yn ei dro, yn llesteirio cynnydd yn eu medrau ysgrifennu.

**70** Mae llawer o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau Cymraeg o'u mannau cychwyn. Maent yn defnyddio iaith anffurfiol ac yn arddel iaith y cartref yn llwyddiannus. Ar adegau, mae ychydig o ddysgwyr yn defnyddio tafodiaith a phatrymau cystrawennol sy'n lleol i ardal benodol fel rhan naturiol o'u sgwrs. Er y dylid cymeradwyo hyn o ran datblygu medrau gwrando a siarad anffurfiol dysgwyr, mae ymarferwyr yn cynorthwyo dysgwyr i gyfathrebu gan ddefnyddio Cymraeg cynyddol gywir mewn gweithgareddau ffurfiol a llai ffurfiol. Trwy wneud hynny, mae dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn elwa cystal â'u cyfoedion o gartrefi di-Gymraeg, wrth i ymarferwyr fwydo a modelu defnydd cywir o'r iaith. Nid yw ychydig o ddysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n hyfedr ac yn hyderus yn eu medrau Cymraeg wrth ddechrau yn y lleoliad neu'r ysgol, a'r rhai y nodwyd eu bod yn fwy abl, yn cyflawni hyd eithaf eu gallu bob tro.

71 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae ymarferwyr arbenigol mewn lleoliadau penodol, fel canolfannau trochi iaith, yn cefnogi hwyrddyfodiaid, sef dysgwyr sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn hwyrach yn eu gyrfa ysgol, yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn caffael y Gymraeg yn gyflym ar ôl cyfnod dwys o gael eu trochi yn yr iaith. Ar ddechrau cyfnod dysgwyr yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn aml yn cyflwyno geirfa Gymraeg, yna'i ei chyfieithu i'r Saesneg a'i hailadrodd yn Gymraeg, er mwyn cyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol yn gyflym iddynt. Trwy wneud hynny, mae dysgwyr yn caffael yr iaith yn gyflym ac, yn fuan iawn, mae ymarferwyr yn cyfathrebu â nhw yn Gymraeg yn unig. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr o'r canolfannau trochi iaith yn cefnogi dysgwyr am gyfnod byr wrth iddynt fynychu ysgol cyfrwng Cymraeg am y tro cyntaf. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ieithyddol dysgwyr, yn ogystal â'u hyder a'u hyfedredd yn y Gymraeg.

**Nodweddion cyffredin mewn darpariaeth ragorol**

- Mae arweinwyr yn hyrwyddo gweledigaeth o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn effeithiol dros amser
- Mae gan bob ymarferydd hyder yn y dulliau trochi iaith
- Mae gan bob ymarferydd ddisgwyliadau uchel a chyson
- Mae safon iaith a medrau ymarferwyr yn gadarn
- Mae cymorth i hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn gefnogol ac yn gyson
- Mae ymarferwyr yn amrywio eu strategaethau addysgu a'u hadnoddau yn gyson er mwyn ymateb i anghenion ieithyddol amrywiol dysgwyr

## Cameo 1

**Mae dysgwyr y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn newydd iddynt, sy'n cael eu galw'n hwyrddyfodiaid, yn cael eu cyflwyno i eirfa a phatrymau cystrawennol Cymraeg fel rhan o'r broses drochi.**

Mae ymarferwyr yn cynllunio i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ailedrych ar yr iaith darged mewn cyd-destunau dysgu dilynol, fel wrth ymchwilio i anifeiliaid. Yn y gweithgareddau hyn, mae ymarferwyr yn sicrhau bod cysylltiad clir rhwng medrau gwrando a siarad, a darllen ac ysgrifennu, sy'n darparu sylfaen gadarn i ddysgwyr fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus a hyfedr erbyn diwedd y cyfnod cynradd.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 2

**Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ymarferydd yn darparu gweithgareddau buddiol i drochi dysgwyr mewn elfennau gwahanol o ddysgu iaith, fel rhestru arddodiaid.**

Mae dysgwyr yn rhestru'r arddodiaid yn ôl alaw rhaglen deledu gyfarwydd ac yn defnyddio symudiadau'r corff, fel clicio'u bysedd a chlapio eu dwylo, i ennyn eu diddordeb. Mae'r dull hwn o ddysgu yn cynorthwyo dysgwyr i gofio trefn yr arddodiaid mewn ffordd hwyliog a chofiadwy, er mwyn iddynt gymhwyso hyn yn gywir mewn gweithgareddau ysgrifennu, fel wrth gofnodi cyfarwyddiadau.

Darllenwch fwy yma

# Cynllunio i ddatblygu medrau dysgwyr

72 Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, mae ymarferwyr yn cynllunio ystod briodol o weithgareddau i ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr. Maent yn manteisio ar gyfleoedd amrywiol i fwydo iaith i ddysgwyr, ac yn darparu gweithgareddau buddiol i ddysgwyr eu defnyddio a chymhwyso geirfa a phatrymau cystrawennol cyfarwydd ac anghyfarwydd yn fwyfwy medrus. Mae dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg yn amsugno geirfa'n llwyddiannus, yn aml yn ddiarwybod, o ganlyniad i addysgu medrus ymarferwyr. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn i ddysgwyr adeiladu arni wrth iddynt gaffael y Gymraeg dros amser. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau bwriadus sy'n datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn ddigon da bob tro. O ganlyniad, nid yw mwyafrif y dysgwyr yn yr ysgolion hyn yn datblygu geirfa ddigon cadarn nac yn defnyddio patrymau cystrawennol estynedig wrth siarad neu ysgrifennu.

73 Lle mae darpariaeth meithrin yn gryf mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion, mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau ymarferol sy'n ymgorffori ystumiau neu symudiadau, i gefnogi dysgwyr i glywed a chopïo geiriau aml eu defnydd. Trwy symudiadau corfforol ac ailadrodd yn barhaus, gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd cyflym a chyson wrth ddechrau defnyddio geirfa mewn amrywiaeth o weithgareddau dysgu. Mae dysgwyr yn cysylltu iaith lafar â geirfa newydd yn llwyddiannus. Dros amser, maent yn magu'r hyder i ymestyn eu geirfa drwy ei chymhwyso mewn brawddegau syml. Wrth i ddysgwyr ddatblygu eu geirfa ymhellach, maent yn magu'r hyder i ddefnyddio geirfa fwyfwy eang mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd, er enghraifft wrth ddarllen llyfrau mawr gyda'i gilydd a thrafod y testun yn gynyddol hyderus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn arddel geirfa



Gymraeg gyfarwydd ac anghyfarwydd yn gyflym. Gwna'r rhan fwyaf ohonynt gynnydd cadarn mewn cyfnod byr.

74 Mewn llawer o ysgolion lle mae arfer dda o ran datblygu geirfa dysgwyr yn effeithiol yng nghyfnod allweddol 2, mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth mewn gwersi Cymraeg ac yn eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae ymarferwyr yn dilyn cynllun pwrpasol sydd wedi'i strwythuro'n ofalus gan arbenigwyr iaith yn y lleoliad i gyflwyno, datblygu, ymarfer a defnyddio geirfa a therminoleg benodol sy'n gysylltiedig â maes neu bwnc penodol, er enghraifft gwyddoniaeth a daearyddiaeth. Mae ymarferwyr yn cyflwyno geirfa'n fwriadus mewn gweithgareddau penodol yn y meysydd hyn, er enghraifft 'ymlosgi' a 'daeargryn', ac yna'n sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddysgwyr ddefnyddio a chymhwyso'r geiriau hyn yn annibynnol yn y thema 'Rhyfeddodau'r Byd'. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol yn defnyddio geirfa a therminoleg newydd yn llwyddiannus yn eu gwaith.

75 Mewn llawer o ysgolion lle mae arfer effeithiol, mae ymarferwyr yn cyfoethogi geirfa dysgwyr yn effeithiol drwy ddefnyddio technegau defnyddiol fel cymhorthion cof i ddysgwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr yn drafftio storïau gyda'i gilydd, ac mae ymarferwyr yn cyflwyno ac yn atgyfnerthu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd i ddysgwyr i'w helpu i gryfhau eu dewisiadau creadigol, fel 'chwarddodd yn uchel' a 'crwydro'n ddigyfeiriad'. Mae dysgwyr yn ailadrodd y storïau ar lafar yn rheolaidd. Mae hyn yn eu helpu i gofio'r eirfa newydd wrth iddynt ddatblygu eu siarad ac ysgrifennu at ddibenion gwahanol.

76 Mae lleoliadau ac ysgolion effeithiol yn cynllunio'n dda ar gyfer dilyniant yn natblygiad darllen dysgwyr ar draws yr ysgol. Mae gan ymarferwyr wybodaeth drylwyr am fedrau iaith dderbyngar a mynegiannol dysgwyr unigol. Mae hyn yn eu helpu i farnu'r adeg orau i gyflwyno ac esbonio geirfa newydd i ddysgwyr wrth addysgu darllen. Maent yn trafod testunau'n fedrus gyda dysgwyr yn ystod gweithgareddau darllen ar y cyd neu ddarllen dan arweiniad. Er enghraifft, maent yn tynnu sylw dysgwyr at eiriau heriol, fel wrth i'r awdur ddisgrifio cymeriad fel 'cawr o ddyn yn brasgamu'n wyllt i wynebu'r gelyn ffyrnig'.

**77** Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae ymarferwyr yn addysgu agweddau penodol ar iaith mewn gweithgareddau pwrpasol, sydd wedi'u cynllunio'n ofalus fel rhan o ddarpariaeth ysgol gyfan. Er enghraifft, maent yn addysgu elfennau sylfaenol o sillafu a rheolau gramadegol syml i ddysgwyr, fel wrth iddynt redeg berfau neu arddodiaid. Mae ymarferwyr hefyd yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth gadarn am sut i ddefnyddio geiriadur yn effeithiol wrth iddynt ddysgu ystyr geiriau Cymraeg anghyfarwydd, datblygu safon eu gwaith ysgrifenedig a dysgu sut i sillafu geiriau anghyfarwydd yn gywir. Fodd bynnag, mae angen ystyried y dull hwn yn ofalus oherwydd y gallai fod yn drafferthus, yn enwedig os dyma yw'r unig ddull o ddysgu ystyr geiriau. Mae hyn oherwydd bod diffiniadau'r geiriadur yn aml yn gryno ac nid ydynt yn rhoi digon o wybodaeth, yn ei chyd-destun, i helpu dysgwyr i ddeall ystyr y geiriau'n llwyddiannus.

**78** Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion lle mae addysgu iaith yn llwyddiannus, mae ymarferwyr yn ehangu geirfa dysgwyr ac yn dwysau eu dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion drwy weithgareddau 'driliau iaith' fel rhan o gynllun gloywi iaith. Mae dysgwyr yn mwynhau adrodd elfennau ieithyddol a gramadegol syml, er enghraifft drwy rap neu gân gyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae lleiafrif o ddysgwyr yn hyderus yn eu gwybodaeth o reolau sillafu sylfaenol a phatrymau gramadegol penodol. Mewn ychydig o achosion, mae ymarferwyr yn gofyn i ddysgwyr 'waredu' defnydd anghywir, fel bratiaith neu elfennau gramadegol anghywir yn eu hysgrifennu, yn y 'Bin Bratiaith' fel delwedd weledol o iaith wallus neu iaith nad yw'n addas ar gyfer y gynulleidfa neu'r diben arfaethedig ar gyfer siarad neu ysgrifennu. Mae hyn yn cynorthwyo dysgwyr i ddeall y defnydd cywir o iaith idiomatig mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol.

**79** Yn yr arfer orau, mae athrawon yn addysgu tarddiad ac ystyr geiriau anghyfarwydd yn effeithiol, er enghraifft bôn gair, rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid, fel 'tawel', 'ymdawelu', 'tawelfan'. Mae hyn yn dwysau dealltwriaeth dysgwyr o forffoleg, geirdarddiad, strwythur iaith a'r ffordd y mae wedi esblygu dros amser.

80 Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r lleiafrif o ymarferwyr yn ymateb yn ddigon cyson i wallau llafar ac ysgrifenedig ychydig o ddysgwyr, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio geiriau a chystrawen Saesneg. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddysgwyr yn trosglwyddo ac yn cymhwyso eu gwybodaeth am iaith, er enghraifft geirfa gyfoethog a phatrymau sillafu, yn ddigon cadarn wrth siarad ac ysgrifennu'n annibynnol ar draws y cwricwlwm.

**Nodweddion cyffredin mewn darpariaeth ragorol**

- Mae ymarferywr yn cynhyrchu a gweithredu cynllun ysgol gyfan o weithgareddau cyfoethog dilynol sy'n herio ac yn datblygu medrau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu dysgwyr yn gyson dros amser
- Trefnir gweithgareddau gwrando a siarad rheolaidd
- Mae ymarferywr yn cynllunio'n gyson i ddysgwyr gymhwyso a datblygu eu sgiliau iaith a llythrennedd yn y ddarpariaeth estynedig a pharhaus yn y cyfnod sylfaen
- Cefnogir dysgwyr i siarad ac ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa gywir a phatrymau cystrawennol mewn cyd-destunau ffurfiol
- Mae genres ysgrifennu wedi'u mapio ar draws grwpiau blwyddyn er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad yn natblygiad medrau a gwybodaeth dysgwyr
- Mae ymarferywr yn cyflwyno a modelu geirfa yn benodol i ddysgwyr dros amser
- Mae ymarferywr yn datblygu geirfa a therminoleg sy'n gysylltiedig â meysydd a phynciau penodol mewn gweithgareddau ystyrlon, a darparu cyfleoedd pwrpasol i ddysgwyr ddefnyddio a chymhwyso'r rhain yn annibynnol

## Cameo 1

**Trwy ymagwedd ysgol gyfan, mae ymarferwyr yn annog dysgwyr i fod yn berchen ar eu dysgu a chymhwyso eu medrau'n annibynnol ar draws pob maes dysgu.**

Mae ymarferwyr yn annog dysgwyr i wneud awgrymiadau ynghylch yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Mae dysgwyr yn caffael iaith ac yn datblygu eu medrau o fewn y thema hon o'u dewis, fel 'Cymru Cŵl'. Mae ymarferwyr yn cydweithio â'i gilydd i gynllunio gweithgareddau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn adeiladu ar wybodaeth a medrau blaenorol wrth ddysgu iaith mewn gweithgareddau sy'n cynnig her briodol.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 2

**Mewn ysgol gynradd, dywed ymarferwyr mai 'llafaredd' yw'r sylfaen i sicrhau safonau llythrennedd wrth ddatblygu medrau caffael iaith.**

Maent yn darparu gweithgareddau creadigol i ddysgwyr efelychu a defnyddio geirfa newydd sy'n cael ei chyflwyno mewn gweithgareddau difyr, fel dychmygu teithio ar ysgub Rala Rwdins yng Ngwlad y Rwla. Mae ymarferwyr yn annog dysgwyr i ymestyn eu defnydd o ansoddeiriau a chyffelybiaethau i ddatblygu ac ymestyn eu cyfraniadau llafar. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio ac yn cymhwyso eu geirfa rang yn dda yn eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft 'Mae'r wlad yn llifeiriant o laeth a mêl'.

Darllenwch fwy yma

# Addysgu ac asesu

81 Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion, mae ymarferwyr yn egnïol ac yn frwdfrydig wrth gynorthwyo dysgwyr i gaffael y Gymraeg. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn rhannu'r un weledigaeth, ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn llwyddiannus ymhlith dysgwyr o bob cefndir ieithyddol.

82 Ym mwyafrif y lleoliadau lle mae'r addysgu'n dda neu'n well, mae ymarferwyr yn cydweithio'n agos â'i gilydd ac yn darparu gweithgareddau ystyrlon wrth i ddysgwyr ddatblygu eu medrau. Maent yn defnyddio ac yn hyrwyddo'r Gymraeg yn gyson fel cyfrwng iaith, ac yn achub ar bob cyfle posibl i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol fel rhan annatod o ddarpariaeth estynedig a pharhaus y cyfnod sylfaen.

83 Yn gyffredinol, bu gwelliant yn ansawdd yr addysgu a'r asesu wrth gyfeirio at iaith a llythrennedd mewn ysgolion a lleoliadau. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn defnyddio cynlluniau a strategaethau bwriadus i addysgu a dysgu iaith drwy ddulliau ysgol-gyfan. Maent yn darparu cydbwysedd priodol rhwng addysgu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu o fewn profiadau dysgu ystyrlon. Mewn arfer llai effeithiol, nid yw ymarferwyr yn adeiladu ar fedrau iaith blaenorol dysgwyr yn ddigon da. Mae hyn yn cyfyngu ar allu ychydig o ddysgwyr i wneud cynnydd cyson dros amser.

84 Yn y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir ac ysgolion lle mae'r addysgu'n dda neu'n well, mae gan bob ymarferydd ddisgwyliadau uchel o ran trochi dysgwyr o bob cefndir ieithyddol er mwyn iddynt fod yn hyderus ac yn hyfedr yn y Gymraeg, a bod yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd y cyfnod cynradd. Mae ymarferwyr yn holi dysgwyr yn fedrus ac yn datblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-



destunau dysgu diddorol. Maent yn siarad â nhw mewn gweithgareddau ffurfiol a llai ffurfiol, yn modelu iaith a phatrymau cystrawennol yn hynod lwyddiannus, ac yn annog defnydd digymell o'r Gymraeg.

**85** Trwy holi medrus ac arsylwi dysgwyr yn ystod eu gweithgareddau, mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd dysgwyr wrth gaffael y Gymraeg. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn trafod y cynnydd a wna dysgwyr i gynllunio a chynnig gweithgareddau sy'n eu hannog i gaffael a chymhwyso geirfa a phatrymau cystrawennol yn fwyfwy annibynnol yn yr ystafell ddosbarth a'r amgylchedd dysgu ehangach. Mae mwyafrif yr ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth asesu hon yn effeithiol i gynllunio gweithgareddau sy'n sicrhau bod dysgwyr o bob gallu yn datblygu eu cymhwysedd iaith.

**86** Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig i ddysgwyr yn rheolaidd wrth ryngweithio â nhw yn eu gweithgareddau dysgu. Mae ymarferwyr yn rhoi adborth mewn modd cefnogol ac adeiladol, er mwyn annog dysgwyr i ddeall eu cryfderau a gwybod sut i wella a datblygu eu medrau iaith a llythrennedd. Maent yn atgyfnerthu geirfa a phatrymau cystrawennol dysgwyr, ac yn dwysau eu dealltwriaeth o nodweddion y Gymraeg yn llwyddiannus, er enghraifft drwy ddatblygu ffurfiau cryno amser gorffennol y ferf wrth iddynt ysgrifennu ymson gan filwr yn ystod y rhyfel. Lle mae arfer yn llai effeithiol, nid yw'r cyfleoedd hyn wedi'u strwythuro'n ddigon effeithiol i sicrhau bod lleiafrif o ddysgwyr yn dysgu o'u camgymeriadau ieithyddol yn amserol. Nid yw ymarferwyr yn rhoi digon o arweiniad adeiladol ac amser pwrpasol i ddysgwyr ymateb, addasu a gwella eu gwaith yn effeithiol, gan fod yr un camgymeriadau i'w gweld yn eu gwaith yn fynych.

**87** Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion lle mae asesu yn effeithiol, mae ymarferwyr yn gwerthuso medrau ieithyddol dysgwyr yn ofalus ac yn olrhain eu cynnydd yn effeithiol. Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i fwyafrif yr ymarferwyr, gan ei bod yn cael ei defnyddio'n briodol i ddarparu gweithgareddau sy'n arwain dysgwyr i wneud rhagor o gynnydd yn eu medrau iaith a llythrennedd.

**88** Yn gyffredinol, mae deunyddiau allanol i asesu medrau caffael iaith dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn brin. Felly, nid yw deilliannau asesu o'r deunyddiau sydd ar gael ar hyn o bryd yn arwain at wybodaeth ddefnyddiol wrth fesur cynnydd dysgwyr, yn enwedig wrth ystyried y cynnydd a wnânt o'u mannau cychwyn amrywiol. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ac ymarferwyr amgyffrediad digon cadarn o'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr, er enghraifft hwyrddyfodiaid a dysgwyr o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

**89** Wrth i athrawon asesu dysgwyr yn y blynyddoedd cynnar a'r cyfnod sylfaen, mae prinder asesiadau cyfrwng Cymraeg i asesu amgyffrediad dysgwyr o'r Gymraeg. Mewn ychydig iawn o leoliadau nas cynhelir, nid yw dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn cael eu hasesu mewn asesiadau anstatudol cyfrwng Saesneg. O ganlyniad, nid oes gan athrawon wybodaeth ddigon cadarn am hyfedredd dysgwyr mewn dysgu iaith neu am anawsterau penodol dysgwyr unigol wrth ddysgu iaith.

**90** Ym mron pob lleoliad ac ysgol sy'n defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn y lleoliad meithrin neu'r dosbarth derbyn, caiff yr asesiad ei weinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg. Mae dysgwyr sy'n dod o gartrefi lle mae un rhiant neu ddim un ohonynt yn siarad Cymraeg yn cyflawni canlyniadau is na'u gallu cynhenid yn yr iaith gyntaf sy'n cael ei siarad gartref. O ganlyniad, mae gallu'r dysgwyr hyn yn ymddangos yn is nag ydyw yn yr iaith maent yn ei siarad gartref, ac mae hyn yn adlewyrchiad anghywir o allu ieithyddol cynhenid y dysgwyr hyn. Wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol, gwna'r rhan fwyaf ohonynt gynnydd effeithiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng safonau ieithyddol dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd a'r rhai sydd ag un rhiant neu ddim un rhiant sy'n siarad Cymraeg.

91 Mewn lleiafrif o ddarparwyr, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn datblygu ac yn defnyddio gweithdrefnau olrhain effeithiol sy'n esgor ar wybodaeth fanwl am y ffordd y mae pob dysgwr unigol o bob cefndir ieithyddol a grŵp yn caffael y Gymraeg. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn addas i sicrhau dilyniant a pharhad wrth ddatblygu medrau'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o arweinwyr ac ymarferwyr yn olrhain cynnydd unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr yn ddigon da o ystyried eu mannau cychwyn, er enghraifft dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd a'r rhai sydd wedi'u nodi'n ddysgwyr mwy abl.

**Nodweddion cyffredin mewn darpariaeth ragorol**

- Mae gan bob ymarferydd ddealltwriaeth gadarn o'r ffordd y mae dysgwyr yn caffael iaith, ac mae cyfleoedd cyson iddynt dderbyn dysgu proffesiynol cyfredol
- Mae gan bob ymarferydd ddisgwyliadau uchel o safonau dysgwyr, ac maent yn cefnogi a herio dysgwyr o bob cefndir ieithyddol i wneud cynnydd dros amser
- Mae strategaethau addysgu amrywiol yn ymateb i anghenion dysgu pob grŵp o ddysgwyr
- Ceir defnydd effeithiol o asesu ffurfiannol ar draws yr ysgol
- Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn craffu ar wybodaeth olrhain yn drylwyr ac yn ei defnyddio i fodloni anghenion ieithyddol dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd a'r rhai sy'n fwy abl



## Cameo 1

**Mae ymarferwyr mewn lleoliad nas cynhelir yn cynllunio cyfleoedd i gynorthwyo dysgwyr i gaffael a defnyddio geiriau newydd fel rhan o'u harferion dyddiol.**

Maent yn cyflwyno ac yn atgyfnerthu geirfa a phatrymau cystrawennol newydd yn rheolaidd, ac yn eu hatgyfnerthu'n gyson yn ystod y diwrnod ysgol, er enghraifft yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mae ymarferwyr yn modelu'r iaith yn effeithiol ac yn cynorthwyo dysgwyr i ymarfer ac ymestyn y defnydd o arferion cyfarwydd, fel 'Afal llawn neu hanner afal', 'Hanner afal os gweli di'n dda'. Mae ailadrodd yn gyson yn helpu i ddatblygu dysgwyr wrth iddynt wneud cynnydd mewn caffael iaith dros amser.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 2

**Mewn un darparwr y cyfnod sylfaen, mae ymarferwyr yn cyflwyno amrywiaeth o rigymau, hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd ac anghyfarwydd i ddysgwyr, er enghraifft 'Lawr ar lan y môr', 'Migldi Magldi' ac 'Mae gen i het dri chornel' i ddatblygu geirfa a phatrymau iaith dysgwyr.**

Mae ymarferwyr yn ailadrodd y rhigymau a'r caneuon hyn i drochi dysgwyr yn yr iaith. Dros amser, mae dysgwyr yn defnyddio'r iaith yn annibynnol mewn ystod o weithgareddau yn fwyfwy hyderus a chywir. Daw'n rhan o gyfathrebu digymell drwy gyfrwng y Gymraeg mewn gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 3

**Mewn dosbarth ar frig cyfnod allweddol 2, mae'r ymarferydd yn darparu delweddau a ffotograffau er mwyn i ddysgwyr ddatblygu eu hiaith lafar mewn cyd-destunau gwahanol.**

Er enghraifft, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau gwrando a siarad wrth drafod 'Effaith chwaraeon ar y byd', fel rhan o weithgaredd athroniaeth. Wrth i ddysgwyr gyfrannu syniadau a safbwyntiau ar y thema, mae'r ymarferydd yn helpu i gyfoethogi geirfa dysgwyr yn effeithiol i ddatblygu eu hyder i ymestyn eu defnydd o eirfa yn annibynnol. Wrth i'r drafodaeth ddatblygu, mae dysgwyr yn cymhwyso geirfa newydd yn annibynnol i greu adroddiadau llafar ac ysgrifenedig diddorol.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 4

**Yn yr ysgol hon, mae'r ymarferydd yn darparu gweithgareddau iaith a llythrennedd cyfoethog sy'n ymestyn dysgwyr mwy abl, gan gynnwys y rhai o gartrefi lle'r Gymraeg yw prif iaith yr aelwyd.**

Mae'r ymarferydd yn defnyddio amrywiaeth o destunau Cymraeg traddodiadol a chyfoes, er enghraifft fersiwn wedi'i haddasu o 'Pedair Cainc y Mabinogi' i ysgogi dysgwyr i gydweithio â'i gilydd i ysgrifennu 'cainc' gyfoes. Mae dysgwyr yn cyfranogi'n frwdfrydig ac yn ysgrifennu 'cainc' greadigol i drafod testunau moesol â'u cyfoedion mewn sesiwn celfyddydau mynegiannol, er enghraifft 'Pwy ydy Bendigeidfran yr unfed ganrif ar hugain?' ac 'Ydy anghydraddoldeb dal i fodoli mewn gwledydd Celtaidd?' O ganlyniad, mae pob un o'r dysgwyr yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn hyderus drwy ddatblygu iaith gyfoethog a soffistigedig.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 5

**Mewn lleoliad nas cynhelir, mae'r ymarferydd yn defnyddio arsylwadau i gyflwyno geirfa newydd i ddysgwyr oed meithrin.**

Wrth arsylwi dysgwyr yn adeiladu tŷ i'r tri mochyn bach yn yr ardal adeiladu, mae ymarferwyr yn holi sut gallant wneud i'r tŷ sefyll yn gryf. Mae ymarferwyr yn cyflwyno geirfa newydd ac yn annog dysgwyr i'w defnyddio wrth barhau i chwarae.

Darllenwch fwy yma



## Cameo 6

**Mewn dosbarth Blwyddyn 1, mae ymarferwyr yn annog dysgwyr i ddefnyddio geirfa newydd, er enghraifft wrth arsylwi blodau gwahanol wrth fynd am daith natur o gwmpas yr ysgol.**

Ar ôl mynd am dro, mae'r dysgwyr yn peintio blodyn haul ac yn trafod nodweddion y blodyn â'r cynorthwywydd cymorth dysgu drwy ddefnyddio geirfa fel 'coes', 'petal', 'tal' a 'byr'. Mae ymarferwyr yn arsylwi defnydd y dysgwyr o eirfa yn ystod y sesiwn drafod ac yn defnyddio eu harsylwadau i ymestyn dealltwriaeth y dysgwyr. Gwnânt ddefnydd gwerthfawr o'r wybodaeth asesu hon i fodloni anghenion dysgwyr drwy gynllunio gweithgareddau cysylltiedig sydd wedi'u seilio ar yr arsylwadau o ddatblygiad iaith y dysgwyr, fel eu gwybodaeth am iaith cymharu.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 7

**Mae ymarferydd Blwyddyn 6 yn cefnogi dysgwyr yn llwyddiannus i godi safonau a gwella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig.**

Mae'r ymarferydd yn rhoi adborth effeithiol i dynnu sylw dysgwyr at wallau iaith penodol, yn eu harwain tuag at wella safonau eu gwaith ac i ymfalchïo yn eu hymdrechion hefyd. Mae dysgwyr yn gwrando ar, ac yn gweithredu ar, adborth ymarferwyr yn effeithiol, ac yn mireinio eu gwaith i'w wella, er enghraifft wrth ddefnyddio thesawrws i ymestyn eu defnydd o ansoddeiriau a disgrifio cymeriadau mewn chwedlau Cymreig. Mae'r berthynas gadarnhaol a chefnogol hon yn rhoi'r hyder i ddysgwyr wneud camgymeriadau, rhoi cynnig ar syniadau newydd a mireinio eu gwaith fel rhan o'r broses wella.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 8

**Mewn un ysgol, mae ymarferwyr yn cynllunio ac yn asesu datblygiad ffonolegol a geirfa dysgwyr yn ofalus.**

Maent yn addysgu gweithgareddau ffoneg a geirfa benodol, er enghraifft y llythyren 'p' yn y cyfnod sylfaen a berfau gorchmynnol yng nghyfnod allweddol 2, ac yn asesu dealltwriaeth dysgwyr a'u defnydd o'r rhain mewn cyd-destunau gwahanol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth asesu hon i gynllunio gweithgareddau sy'n cyfateb i wybodaeth a dealltwriaeth ieithyddol dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr, a'u datblygu. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ac ymarferwyr amgyffrediad a dealltwriaeth gadarn o gynnydd dysgwyr o ran caffael iaith a'r camau nesaf sydd eu hangen yn eu dysgu.

Darllenwch fwy yma

# Gwrando a siarad

92 Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion lle mae arfer effeithiol, mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith gyfathrebu drwy gydol y dydd. Maent yn trochi dysgwyr yn yr iaith ac yn cefnogi eu dealltwriaeth drwy fodelu a dangos ystum neu symudiad sy'n cyfleu ystyr y geiriau, er enghraifft wrth i ddysgwyr ofyn a dweud diolch am eu byrbryd amser egwyl: 'Ga i oren os gwelwch yn dda?', 'Cei wrth gwrs – mwynha!' O ganlyniad, mae dysgwyr yn mewnoli ac yn efelychu'r iaith yn llwyddiannus.

93 Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion sy'n darparu arfer effeithiol, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr wrando a magu hyder wrth ymateb ar lafar, er enghraifft wrth i ddysgwyr y cyfnod sylfaen wrando ar gyfarwyddiadau wrth chwarae gêm fwrdd gyda'u cyfoedion. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod dysgwyr yn efelychu'r iaith yn gywir drwy ynganu geiriau'n glir a defnyddio goslef briodol. Wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol, maent yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn effeithiol mewn amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft drwy wrando ar filfeddygon yn cyflwyno gwybodaeth am anifeiliaid anwes cyn gofyn cwestiynau perthnasol iddynt am eu gyrfa. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn darparu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol gwerthfawr i ddysgwyr fagu hyder i gyfathrebu'n gywir ac yn effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

94 Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn lleoliadau'r cyfnod sylfaen yn rhoi blaenoriaeth i fedrau siarad dysgwyr ac yn datblygu eu medrau mynegiannol yn dda. Mae ymarferwyr yn defnyddio ystumiau a symudiadau wrth gyflwyno geirfa newydd i gefnogi dealltwriaeth dysgwyr. Maent yn modelu patrymau cystrawennol yn eglur i ddysgwyr fel eu bod yn ailadrodd yr iaith yn gywir. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu iaith



lafar y rhan fwyaf o ddysgwyr. Wrth i ddysgwyr fewnoli'r iaith a magu hyder, mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n ddigymell yn y Gymraeg ag oedolion a'u cyfoedion.

**95** Yn y rhan fwyaf o leoliadau a dosbarthiadau'r cyfnod sylfaen lle mae ymarferwyr yn datblygu medrau siarad dysgwyr yn effeithiol, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd iddynt ddefnyddio a chymhwyso eu medrau siarad Cymraeg yn rheolaidd fel rhan o addysgeg y cyfnod sylfaen. Defnyddiant ganeuon, cerddi a rhigymau Cymraeg yn fuddiol er mwyn i ddysgwyr glywed mydr, odl a llif yr iaith. Wrth i ddysgwyr wrando ar 'rhythm' yr iaith a'u hailadrodd mewn gweithgareddau difyr, mae hyn yn eu harwain i ddefnyddio'r iaith yn gywir, yn aml yn ddiarwybod, mewn cyd-destunau eraill. Mae ymarferwyr hefyd yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ymarfer patrymau iaith drwy chwarae gemau buarth, fel 'Faint o'r gloch, Mr Blaidd?', ac mae dysgwyr hŷn yn aml yn eu cefnogi drwy arwain y chwarae. Mae hyn yn ffordd effeithiol i ddysgwyr gaffael a defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol.

**96** Ym mwyafrif yr ysgolion sy'n blaenoriaethu medrau siarad a mynegiannol dysgwyr fel sylfaen ar gyfer pob profiad dysgu, mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau cyfoethog i gefnogi gwaith ysgrifenedig dysgwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr yn trafod bandiau Cymraeg poblogaidd fel rhan o weithgareddau'r Siarter Iaith, cyn ysgrifennu llythyr yn gwahodd y bandiau hyn i berfformio yn yr ysgol ar Ddydd Miwsig Cymru. Mae'r profiadau go iawn hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu gallu i siarad ar gyfer dibenion a chynulleidfaoedd gwahanol. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gweld gwerth ymarferol i'w gwaith llafar ac ysgrifenedig, ac mae'n fodd effeithiol o ddatblygu eu medrau ieithyddol.

**97** Mewn lleiafrif o leoliadau ac ysgolion, nid yw ymarferwyr yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r iaith yn fanwl gywir wrth siarad. Nid ydynt yn cywiro dysgwyr yn ddigon aml nac yn rhoi cyfleoedd iddynt gymhwyso iaith a gywirwyd mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae iaith wallus lleiafrif o ddysgwyr, fel ateb cwestiynau'n anghywir, negyddu brawddegau a defnyddio modd ac amser anghywir y ferf, yn cyfyngu ar eu gallu i wneud cynnydd yn eu medrau siarad ac yn cael effaith niweidiol ar eu medrau ysgrifennu dros amser.

**98** Mewn llawer o ysgolion, mae ymarferwyr yn trefnu gweithgareddau allgyrsiol er mwyn cynnig cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr siarad a defnyddio'r Gymraeg. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cyd-ysgrifennu sgript i'w gyflwyno mewn gwasanaeth dosbarth, neu'n cyfrannu at sioe ysgol i'w pherfformio i'w cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn elwa ar y profiadau gwerthfawr hyn, gan eu bod yn cael cyfle i ddysgu geirfa a phatrymau cystrawennol cywir ar y cof, a'u cymhwyso wrth berfformio i gynulleidfa. Gwna llawer o ysgolion ddefnydd gwerthfawr o'r cyfleoedd amryfal y mae'r Urdd yn eu cynnig, er enghraifft drwy gystadlaethau llwyfan a thwrnameintiau chwaraeon. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr siarad Cymraeg â'i gilydd a chyfoedion o ysgolion eraill, yn lleol ac yn genedlaethol. Dyma un o gryfderau darpariaeth Gymraeg, ac mae'n hyrwyddo medrau dysgwyr o ran caffael yr iaith yn llwyddiannus.

**99** Mewn lleiafrif o leoliadau ac ysgolion, prin yw'r cyfleoedd i ddysgwyr siarad Cymraeg yn eu cymuned leol. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn ceisio darparu cyfleoedd diddorol ac ystyrlon i ddysgwyr gyfathrebu â thrigolion sy'n siarad Cymraeg yn y gymuned, er enghraifft drwy gefnogi grŵp o oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith at ddiben go iawn mewn sefyllfa ymarferol, ac yn eu helpu i gydnabod pam y mae'n bwysig iddynt siarad yr iaith yn gywir. Mewn ychydig o ysgolion, caiff dysgwyr docynnau penodol sy'n eu galluogi i fynd i leoliadau lleol gwahanol neu brynu adnoddau penodol am siarad Cymraeg yn y gymuned.

100 Mewn ysgolion llai effeithiol, mae medrau gwrando a siarad yn cael eu hystyried yn fedrau sy'n cefnogi darllen ac ysgrifennu, yn hytrach na medrau y mae angen eu datblygu yn eu rhinwedd eu hunain. O ganlyniad, yn yr ysgolion hyn, nid yw ymarferwyr yn cynllunio ac yn darparu digon o gyfleoedd bwriadus i ddatblygu medrau siarad a gwrando dysgwyr, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

**Nodweddion cyffredin mewn darpariaeth ragorol**

- Mae ymarferwyr yn cydweithio â'i gilydd i ddatblygu cynllun ar gyfer gwrando a siarad sy'n mapio geirfa a phatrymau cystrawennol Cymraeg mewn themâu cyfannol, ac sy'n sicrhau dilyniant a pharhad wrth ddatblygu medrau dysgwyr o bob cefndir ieithyddol
- Caiff amser penodol ei glustnodi mewn amserlenni addysgu i ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr
- Mae ymarferwyr yn modelu geirfa a phatrymau cystrawennol yn gywir ac yn annog dysgwyr i efelychu a defnyddio'r Gymraeg yn gywir mewn sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol
- Caiff cynnydd mewn medrau gwrando a siarad dysgwyr ei fonitro a'i olrhain er mwyn sicrhau bod pob grŵp o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn gyson



## Cameo 1

**Mae ymarferwyr yn cynorthwyo dysgwyr i alw geirfa syml a phatrymau cystrawennol cyfarwydd i gof er mwyn perfformio ar lwyfan, er enghraifft 'Mae gen i dipyn o dŷ bach twt' ac 'Mi welais Jac y Do' ar y 'Llwyfan Llafar'.**

Wrth i ddysgwyr berfformio, mae ymarferwyr yn eu hannog i ynganu geiriau'n glir a defnyddio goslef briodol er mwyn sicrhau mynegiant ystyrlon yn y rhannau maent yn eu perfformio. Mae rhythm y llinellau, cysondeb yr odl ac ailadrodd yn cael eu hatgyfnerthu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dysgu pwysigrwydd gwrando ar eu cyfoedion yn cyflwyno caneuon cyfarwydd sy'n gyfoeth o iaith sy'n addas ar gyfer ystod oed a gallu ieithyddol y dysgwyr. Maent yn magu hyder drwy berfformio ar lwyfan ac yn cymhwyso eu defnydd o'r Gymraeg yn llwyddiannus fel rhan o baratoadau ar gyfer cystadleuaeth yr eisteddfod leol.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 2

**Yn y cyfnod sylfaen, mewn ysgol sy'n datblygu medrau siarad dysgwyr yn effeithiol, mae ymarferwyr yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn amgylchedd sy'n gyfoeth o iaith.**

Maent yn cyflwyno ac yn atgyfnerthu geirfa a phatrymau cystrawennol fel rhan o'u dulliau addysgu yn y dosbarth, ac yn cynorthwyo dysgwyr i chwarae gemau buarth, er enghraifft 'Mae'r ffermwr eisiau gwraig'. Mae dysgwyr hŷn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn llwyddiannus ymhlith dysgwyr iau drwy arwain gemau buarth â nhw drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dysgwyr yn caffael yr iaith mewn cyd-destunau llai ffurfiol ac yn ymestyn eu geirfa a phatrymau cystrawennol yn llwyddiannus mewn gweithgareddau mwy ffurfiol.

Darllenwch fwy yma



## Cameo 3

**Mae'r ymarferydd yn cyflwyno gwybodaeth hanesyddol am 'Ferched Beca', er enghraifft tystiolaeth o'r rhesymau o blaid ac yn erbyn y terfysgoedd, ac yn cefnogi barnau dysgwyr â rhesymau dilys wrth benderfynu ar dynged Twm Carnabwth yn y llys barn.**

Mae'r ymarferydd yn datblygu gallu dysgwyr i ofyn ac ateb cwestiynau'n gywir, er enghraifft 'Ydy Twm Carnabwth yn euog neu'n ddieuog?', gyda'r dysgwyr yn ateb drwy ddweud 'Ydy' neu 'Nac ydy' yn gywir, ac 'Oes digon o dystiolaeth i'w ddedfrydu?', gyda'r dysgwyr yn ymateb 'Oes' neu 'Nac oes'. Mae'r dysgwyr yn ategu eu barn â rhesymau a thystiolaeth ddilys. Mae'r ymarferydd yn datblygu dealltwriaeth dysgwyr o ofyn ac ateb cwestiynau sy'n ramadegol gywir.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 4

**Fel rhan o thema dysgwyr ffordd iach o fyw, mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol a dilys, fel gweithgareddau entrepreneuraidd.**

Mae dysgwyr yn creu sgriptiau â chyfarwyddiadau i greu cryno ddisg gan ddefnyddio terminoleg ac ymadroddion penodol, a berfau gorchmynnol fel 'Lledwch eich coesau ac ymestynnwch eich breichiau yn uchel at y nenfwd er mwyn gwneud siâp seren'. Mae eu cyfoedion yn yr ysgol a'r gymuned yn defnyddio'r cryno ddisg i gymryd rhan mewn sesiynau ymarfer corff gartref. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safon iaith lafar dysgwyr, yn ogystal â'u hiechyd a lles. Maent hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn llwyddiannus yn yr ysgol a'r gymuned leol.

Darllenwch fwy yma




## Cameo 5

**Mewn un dosbarth cyfnod allweddol 2, mae'r ymarferydd yn cynorthwyo dysgwyr i wneud cyfres o ystumiau a symudiadau corfforol fel cymorth cof ar gyfer agweddau gwahanol ar iaith, er enghraifft drwy glicio'u bysedd wrth ddefnyddio agoriadau gwahanol i naratif, a chlapio ddwywaith i gyfeirio at ddefnyddio ansoddair.**

Wrth i'r dysgwyr gydweithio â'i gilydd i greu eu stori lafar eu hunain, maent yn dilyn y strwythur cyfarwydd hwn fel canllaw ac yn datblygu eu defnydd o iaith yn effeithiol, er enghraifft wrth ddweud 'Ymlwybrodd yr anghenfil blin yn chwim fel bollt o wn'. Wrth i'r dysgwyr ailadrodd y strwythurau iaith ynghyd â'r ystumiau a'r symudiadau, maent yn mewnoli ac ymadroddion newydd, ac yn eu cynnwys yn yn eu gwaith ysgrifenedig.

Darllenwch fwy yma



# Darllen

101 Mewn llawer o leoliadau, mae gan ymarferwyr amgyffrediad a dealltwriaeth gadarn o'r ffordd y mae dysgwyr yn caffael iaith ac yn datblygu eu medrau ffonolegol a'u medrau darllen ehangach yn llwyddiannus. Maent yn darparu gweithgareddau diddorol sy'n datblygu medrau cyn-darllen dysgwyr yn dda.

102 Mae llawer o ymarferwyr y cyfnod sylfaen yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol a ffonemig dysgwyr drwy gyflwyno seiniau a llythrennau'r wyddor mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon. Mae hyn yn cynorthwyo dysgwyr o bob cefndir ieithyddol i ynganu llythrennau'n gywir, ac mae'n darparu sylfaen gadarn iddynt ddysgu am ffoneg mewn ffordd systematig a chyson. Trwy wneud hynny, maent yn cynorthwyo dysgwyr i nodi sain a siâp llythrennau drwy eu cysylltu â geiriau aml eu defnydd. Mae ymarferwyr yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr drwy sicrhau dealltwriaeth gadarn o orgraff dryloyw yr wyddor Gymraeg a'u gallu i segmentu a chyfuno geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd syml. Yn aml, caiff hyn ei wneud drwy gyflwyno geiriau aml eu defnydd yn fedrus er mwyn datblygu strategaethau darllen dysgwyr yn gyson.

103 Mewn llawer o ddosbarthiadau effeithiol yn y cyfnod sylfaen, mae ymarferwyr yn darllen storïau cyfarwydd i ddysgwyr yn rheolaidd. Maent yn eu cyflwyno'n frwdfrydig drwy newid eu goslef a defnyddio ystumiau'n effeithiol i gynorthwyo dysgwyr i gael ystyr o'r testun. Maent yn achub ar bob cyfle i gyfeirio at drefn a dilyniant storïau, ac yn trafod nodweddion llyfrau fel y clawr a'r broliant. Maent yn darparu ystod o adnoddau, fel pypedau, i gynorthwyo dysgwyr i ailadrodd storïau ar lafar eu hunain, ac yn eu haddysgu sut i drin llyfrau a dilyn y testun o'r chwith i'r dde. Mae



hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth a gallu dysgwyr i greu cysylltiad rhwng sain a ffurf llythrennau.

**104** Yn y rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion sy'n cynnig darpariaeth effeithiol yn y cyfnod sylfaen, mae ymarferwyr yn datblygu medrau darllen cynnar dysgwyr yn effeithiol. Maent yn addysgu'r medrau hyn yn gyson ar draws dosbarthiadau, yn aml drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o destunau difyr a thrwy ddilyn cynllun ffoneg penodol sy'n briodol ar gyfer cyfnod caffael iaith y dysgwyr. Wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol, mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau cyfoethog sy'n rhoi cyfleoedd pwrpasol i ddysgwyr gymhwyso eu medrau darllen ar draws y meysydd dysgu.

**105** Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr cyfnod allweddol 2 yn cefnogi datblygiad darllen dysgwyr yn effeithiol drwy alluogi i ddysgwyr fanteisio ar ddeunyddiau darllen sy'n cyfateb yn agos i'w gallu darllen. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo darllen yn effeithiol drwy annog dysgwyr i ddarllen ystod o destunau a thrwy gynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddarllen er pleser. Trwy wneud hynny, maent yn dwysau eu dealltwriaeth o lyfrau parthed arddulliau a ffurfiau gwahanol, yn ogystal â'u cyflwyno i ystod eang o awduron a beirdd. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ddarllenwyr hyderus ac yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn dda. Fodd bynnag, yn y lleiafrif o ysgolion lle nad yw dysgwyr yn gwella eu medrau darllen yn ddigon da o un flwyddyn i'r llall, mae ymarferwyr yn glynu'n rhy dynn at gynllun darllen, sy'n llesteirio diddordeb a mwynhad y lleiafrif o ddysgwyr mewn darllen. Yn ei dro, mae hyn yn cyfyngu ar eu cynnydd wrth ddarllen.

**106** Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae ymarferwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o destun yn effeithiol, yn ogystal â'u rhuglder a'u cywirdeb. Mae ymarferwyr yn modelu strategaethau darllen i ddysgwyr. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddeall sut mae darllenydd yn mynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd a sut i ddefnyddio strategaethau i ailddarganfod ystyr pan fydd ar goll, a sut i gywain gwybodaeth yn effeithlon.



107 Mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n cydweithio'n effeithiol â rhieni a gofalwyr i ddatblygu medrau darllen, mae ymarferwyr yn anfon llyfrau darllen gartref gyda dysgwyr ac yn datblygu perthynas gynhyrchiol â rhieni a gofalwyr wrth iddynt wrando ar eu plant yn darllen, ac atgyfnerthu medrau'n llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cynnal cyflwyniadau i rieni a gofalwyr i gyflwyno gwybodaeth am y strategaethau dysgu darllen y mae'r darparwr yn eu defnyddio. Trwy wneud hynny, mae rhieni a gofalwyr wedi'u harfogi i ddefnyddio'r strategaethau hyn i gefnogi medrau darllen eu plant gartref.

108 Lle mae'r addysgu'n gyson dda neu'n well, mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar drafod testunau gyda dysgwyr yn fanwl drwy brofiadau darllen ar y cyd â llyfrau lluniau, 'llyfrau mawr' neu destun ar sgrin. Mae ymarferwyr yn yr ysgolion hyn yn datblygu medrau datgodio, dealltwriaeth lythrennol, crynhoi a dod i gasgliad, ad drefnu, gwerthuso a gwerthfawrogi o oed cynnar.

**109** Wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol, mae mwyafrif yr ymarferwyr yn datblygu medrau darllen dysgwyr yn effeithiol wrth eu haddysgu am wahanol agweddau ar ddarllen, er enghraifft cipddarllen (sganio) a llithrddarllen (sgimio) fel rhan o'r broses o ddatblygu'r medrau hyn. Mae hyn yn cynorthwyo dysgwyr i ddefnyddio medrau darllen penodol mewn amrywiaeth o gyd-destunau dysgu, er enghraifft wrth gywain a choladu gwybodaeth am goedwigoedd glaw. Mae'r ysgolion hyn yn darparu ystod addas o weithgareddau darllen sy'n cysylltu'n agos â thestun neu thema'r dosbarth. Lle mae'r addysgu'n llai llwyddiannus, nid yw ychydig o ddysgwyr yn datblygu'r ystod ddarllen ac yn ei chymhwyso'n annibynnol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

**110** Mewn llawer o ysgolion sy'n addysgu medrau darllen yn effeithiol, mae ymarferwyr yn addysgu dysgwyr i gywain gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er enghraifft, mae dysgwyr yn darllen ac yn coladu gwybodaeth yn Saesneg, ac yn crynhoi'r wybodaeth berthnasol yn y Gymraeg. Mae'r medr trawsieithu hwn yn fedr pwysig sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu medrau darllen dysgwyr yn y ddwy iaith. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog dysgwyr i ddefnyddio dyddiadur a thesawrws i ddod o hyd i ystyr geiriau anghyfarwydd a'u cyfieithu'n gywir i'r iaith maent yn ei defnyddio i gofnodi. Dyma un o gryfderau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae dysgwyr yn defnyddio eu huwch fedrau darllen mewn mwy nag un iaith sydd, yn ei dro, yn eu helpu i ddehongli testunau amrywiol yn y ddwy iaith.

# Meithrin diwylliant o ddarllen

**111** Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, mae ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu sy'n hyrwyddo medrau darllen dysgwyr yn llwyddiannus. Mae ardaloedd penodol yn yr ystafell ddosbarth ac o amgylch yr ysgol yn ennyn mwynhad dysgwyr mewn darllen amrywiaeth o destunau. Mae ymarferwyr yn nodi anghenion dysgwyr unigol yn effeithiol ac yn darparu gweithgareddau darllen bwriadus i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u hymateb i destun. Lle mae darparwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddarllen yn llwyddiannus, gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd da yn eu medrau darllen.

**112** Mae'r rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir yn canolbwyntio'n gryf ar feithrin diwylliant o ddarllen. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd ffurfiol a llai ffurfiol i ddysgwyr fwynhau gwrando ar storïau am amrywiaeth o bynciau. Er enghraifft, maent yn darllen rhannau o lyfr stori ac yn datblygu medrau siarad dysgwyr yn y gornel chwarae rôl yn effeithiol. Maent yn darparu adnoddau sy'n cynnwys amrywiaeth o wrthrychau perthnasol a phypedau mewn 'sachau stori', er enghraifft, sy'n cefnogi medrau darllen dysgwyr a'u mwynhad yn effeithiol.

**113** Mewn lleoliadau effeithiol y cyfnod sylfaen, mae ymarferwyr yn cynllunio ystod o weithgareddau iaith a llythrennedd sydd wedi'u seilio ar lyfr penodol. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddod yn gyfarwydd â geirfa a phatrymau cystrawennol newydd, a datblygu eu medrau gwrando, siarad ac ysgrifennu yn gysylltiedig â thema.



**114** Mewn lleoliadau lle mae darpariaeth ar gyfer darllen yn hynod effeithiol, mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau darllen pleserus i ddysgwyr fel rhan o'r amgylchedd dysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr yn dylunio ardaloedd yn yr ystafell ddosbarth i hyrwyddo diwylliant o ddarllen. Er

enghraifft, yn ardaloedd creadigol ac adeiladu'r ddarpariaeth barhaus neu estynedig, mae ymarferwyr yn darparu ystod o destunau i blant eu darllen yn annibynnol, sy'n ymwneud â thestun neu thema'r ardal honno. Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ardaloedd hyn sy'n eu helpu i adnabod geiriau aml eu defnydd a darllen brawddegau syml.

**115** Mewn lleoliadau ac ysgolion sy'n meithrin diwylliant o ddarllen yn llwyddiannus, mae ymarferwyr yn darparu ystod ddiddorol a deniadol o destunau i ddysgwyr, gan gynnwys llyfrau ffuglen, ffeithiol, barddoniaeth, cylchgronau a thestunau ar ddyfeisiau electronig. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr fwynhau darllen ac ymgolli yn y testun yn gwbl ddigymell. Mae hyn yn datblygu medrau darllen annibynnol dysgwyr yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn darparu cyfnodau penodol yn ystod y diwrnod ysgol i ddysgwyr ddarllen. Fodd bynnag, at ei gilydd, prin yw'r adnoddau darllen digidol cyfrwng Cymraeg addas i ddysgwyr ar draws yr ystodau oed.

**116** Yn yr arfer orau mewn lleoliadau ac ysgolion llwyddiannus, mae ymarferwyr yn darllen testunau o ansawdd uchel i ddysgwyr ac yn meithrin eu mwynhad o amrywiaeth o lenyddiaeth sydd, yn ei dro, yn ehangu geirfa'r dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2 fwynhau gwrando ar oedolyn yn darllen llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg iddynt gan awduron a beirdd o Gymru. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu eu geirfa'n ddigon da nac yn datblygu eu gwybodaeth am naratif a barddoniaeth Gymraeg yn ddigonol. Nid yw ychydig o ddysgwyr yn trafod testunau Cymraeg gan awduron o Gymru yr un mor hyderus ag y maent wrth drafod testunau Saesneg, yn enwedig y rhai sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd a'r rhai sy'n fwy abl.

**117** Mae ysgolion sy'n achub ar gyfleoedd amrywiol i hyrwyddo medrau darllen dysgwyr yn llwyddiannus yn meithrin eu hawch cynhenid i ddarllen er mwyn pleser. Er enghraifft, maent yn gwahodd pobl enwog o fyd chwaraeon a'r celfyddydau perfformio i'r ysgol i hyrwyddo mwynhad o ddarllen. Fel arfer, mae hyn yn rhan annatod o ethos yr ysgol i ddatblygu diwylliant darllen ffyniannus.

118 Mewn lleiafrif o leoliadau ac ysgolion, mae ymarferwyr yn manteisio ar wasanaethau llyfrgell ysgolion eu hawdurdodau lleol. Maent yn sicrhau y gall dysgwyr fanteisio ar ystod o destunau penodol sy'n ymwneud â thema gwricwlaidd y tymor. Mae llawer o ddysgwyr yn ymweld â llyfrgell yr ysgol hefyd wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau darllen, fel cywain a choladu gwybodaeth am hanes Cymru. Caiff testunau eu darparu ar ddyfeisiau electronig hefyd, sy'n ennyn diddordeb bechgyn a merched mewn amrywiaeth addas o ffurfiau. Mae'r adnoddau hyn yn cyfrannu at ddatblygu medrau darllen annibynnol dysgwyr.

119 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae darparwyr yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr hŷn yr ysgol fod yn awduron eu hunain drwy ysgrifennu llyfrau i ddysgwyr ieuengaf yr ysgol. Mae dysgwyr yn treulio amser yn ysgrifennu'r stori, yn darlunio lluniau ac yn creu'r nodweddion ar gyfer clawr y llyfr, er enghraifft. Mae hyn yn meithrin hyder dysgwyr mewn datblygu eu medrau ysgrifennu creadigol ac mewn rhannu eu storïau â'u cyfoedion.

**Nodweddion cyffredin mewn arfer ragorol**

- Mae'r amgylchedd dysgu yn gyfoeth o lythrennedd ac yn hyrwyddo diwylliant, awch a chariad tuag at ddarllen er mwyn annog darllen a dysgu gydol oes
- Mae addysgu medrau darllen yn cael ei wneud mewn ffordd gyfannol a phleserus, sy'n annog dysgwyr i fwynhau darllen ystod o destunau
- Addysgu strategaethau darllen sy'n ystyrlon ac yn cefnogi pob dysgwr yn fedrus
- Ar draws yr ystod oed, mae ymarferwyr yn cyflwyno, darllen a thrafod ystod ddiddorol o destunau Cymraeg gan awduron o Gymru
- Ceir defnydd cyson ac eang o destunau cyfoes a diddorol, gan gynnwys testunau electronig, i fodloni diddordebau pob dysgwr

## Cameo 1

**Mewn dosbarth yn y cyfnod sylfaen, mae'r ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau o fewn rhaglen systematig ar gyfer addysgu ffoneg i helpu dysgwyr i adnabod llythrennau'n llwyddiannus.**

Er enghraifft, maent yn addysgu ystum i ddysgwyr i gyd-fynd â phob sain fel ffordd o'u helpu i gofio'r seiniau sy'n cyfateb i lythrennau penodol. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r gweithgareddau dilynol yn y rhaglen i ddatblygu medrau dysgwyr fel sylfaen gadarn i ddysgwyr ddarllen geiriau a thestun syml. Wrth i'r dysgwyr wneud cynnydd, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn creu'r cysylltiad rhwng iaith lafar a ffurf llythrennau, ac yn cymhwyso eu gwybodaeth ymhellach mewn gweithgareddau a ddarperir yn y ddarpariaeth estynedig a pharhaus.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 2

**Yn yr ysgol hon, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ffoneg wrth gasglu llythrennau i adeiladu geiriau sy'n ymwneud â thema'r dosbarth, sef 'Ar lan y môr', wrth gymryd rhan mewn ras rwystrau.**

Maent yn datblygu eu medrau gwrando, darllen a'u medrau corfforol yn effeithiol, er enghraifft drwy wrando ar gyfarwyddiadau, neidio dros glwydi i nôl llythrennau ac adeiladu geiriau allweddol. Maent yn galw eu profiadau i gof mewn gweithgareddau ffoneg ffurfiol ac yn atgyfnerthu eu medrau darllen yn llwyddiannus.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 3

**Mewn un dosbarth Blwyddyn 3, mae'r ymarferydd yn defnyddio medrau Cymraeg dysgwyr i gyflwyno eu medrau Saesneg drwy ddarllen stori gyfarwydd i'r dysgwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.**

Mae'r ymarferydd yn trafod plot a nodweddion y stori yn Saesneg, cyn iddynt ddarllen y testun o'r 'llyfr mawr' gyda'i gilydd. Mae'r ymarferydd yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar iaith, er enghraifft patrymau sillafu anghyfarwydd mewn geiriau aml eu defnydd, a'r defnydd gwahanol o ansoddeiriau yn y ddwy iaith, fel *'red cloak'* yn lle 'clogyn coch' yn stori 'Hugan Fach Goch'. Mae dysgwyr yn mapio'r stori gyfarwydd ac mae'r ymarferydd yn darparu dechrau'r brawddegau a geirfa Saesneg syml, berthnasol fel fframwaith i'w cynorthwyo. O ganlyniad, gall dysgwyr nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng yr ieithoedd a chreu cysylltiadau rhyngddynt, enghraifft y ffaith bod yr ansoddair yn dilyn yr enw Gymraeg, yn gyffredinol.

**Darllenwch fwy yma**

## Cameo 4

**Mewn ysgol arall, mae ymarferwyr yn defnyddio ac yn atgyfnerthu strategaethau darllen, fel llithrddarllen (sgimio) a chipddarllen (sganio) wrth ddatblygu medrau darllen dysgwyr yn effeithiol.**

Mae dysgwyr yn dewis y strategaeth fwyaf addas mewn amrywiaeth o weithgareddau ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth gywain a choladu gwybodaeth am yr Ail Ryfel Byd. Dros amser, mae dysgwyr yn defnyddio'r strategaethau hyn yn fwyfwy hyderus, ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Darllenwch fwy yma



# Ysgrifennu

120 Lle mae lleoliadau nas cynhelir yn dangos arfer effeithiol o ran datblygu medrau ysgrifennu dysgwyr, mae ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau creadigol buddiol. Mae ymarferwyr yn buddsoddi amser er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn caffael Cymraeg lafar yn gywir, yn ogystal â darparu cyfleoedd rheolaidd iddynt ddechrau datblygu eu medrau gwneud marciau.

121 Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion sy'n datblygu medrau ysgrifennu cynnar dysgwyr yn llwyddiannus, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddysgwyr gofnodi eu syniadau. Mae ymarferwyr yn annog dysgwyr i ddefnyddio amrywiaeth o offer, fel sialc a phaent, i greu patrymau a siapiau, er enghraifft wrth iddynt wneud marciau mawr ar y buarth. Wrth i ddysgwyr ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach, mae ymarferwyr yn eu cynorthwyo i ffurfio llythrennau er mwyn iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o ffurfio a chyfeiriad. Mae hyn yn helpu dysgwyr i fagu hyder yn eu gallu ysgrifennu cynnar. Trwy ddarparu cyfleoedd ysgrifennu cynnar, mae dysgwyr yn trafod yr hyn y maent wedi'i gofnodi ac yn gweld gwerth a budd gwneud marciau.

122 Lle ceir arfer effeithiol o ran datblygu medrau ysgrifennu dysgwyr yn y cyfnod sylfaen, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd niferus i ddysgwyr gyflawni hyn drwy weithgareddau ystyrlon. Maent yn cynorthwyo dysgwyr i gyfateb seiniau i lythrennau, ac yn eu hannog i ffurfio llythrennau'n gywir mewn ystod gyfoethog o weithgareddau yn yr ystafell ddosbarth a'r amgylchedd dysgu ehangach yn y cyfnod sylfaen. Wrth i ymarferwyr drochi dysgwyr yn y Gymraeg, maent yn eu helpu i roi cynnig ar ysgrifennu ac yn eu hannog i 'ddarllen' eu cyflawniadau ysgrifenedig ar lafar i'w cyfoedion ac ymarferwyr eraill. Maent yn cydnabod bod ystyr i brint ac yn ymfalchïo yn eu hymdrechion yn aml.



**123** Mewn ysgolion sydd ag arfer effeithiol, mae ymarferwyr yn ailadrodd neu'n darllen storïau drosodd a throsodd yn fyrlymus, ac yn gwneud ystumiau a symudiadau penodol er mwyn cyfleu agweddau gwahanol ar iaith fel cymorth cof i ddysgwyr. Er enghraifft, wrth i ddysgwyr berfformio chwedl Rhys a Meinir i'w cyfoedion ar lafar, maent yn copïo ystumiau a symudiadau penodol yr ymarferydd. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr greu eu storïau tebyg eu hunain, ac yn rhoi cyfle iddynt eu darllen o flaen eu cyfoedion. Wedi hynny, maent yn cofnodi'r chwedl mewn gweithgaredd ysgrifennu ac yn cymhwyso'r iaith y maent wedi'i dysgu eisoes.

**124** Wrth i ddysgwyr fagu hyder yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif yr ymarferwyr yn cynorthwyo dysgwyr yn effeithiol i ysgrifennu geiriau a brawddegau diddorol, sy'n aml yn deillio o brofiadau cyfarwydd. Er enghraifft, wrth gofnodi'r profiad o gymryd rhan mewn gweithgaredd mabolgampau, maent yn ysgrifennu 'Rhedais yn gyflym fel bollt o wn at y llinell derfyn a edrychai fel gorwel diddiwedd'. Wrth i ymarferwyr fodelu ac ailadrodd geirfa a phatrymau cystrawennol, mae dysgwyr yn eu cofnodi'n fwyfwy hyderus ac yn deall bod gwerth i'r hyn y maent yn ei ysgrifennu, ynghyd â chynulleidfa a all ei werthfawrogi.

**125** Mewn llawer o ysgolion effeithiol, mae ymarferwyr yn trefnu ystod gyfoethog o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Yn yr enghreifftiau gorau o arfer, mae cynllun strwythuredig ysgol-gyfan yn sicrhau y caiff medrau ysgrifennu dysgwyr eu datblygu'n systematig drwy ymagwedd thematig tuag at addysgu. Wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol, mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu ac ymestyn eu medrau i gynhyrchu gwaith o ansawdd uchel. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd dysgu annibynnol addas i ddysgwyr. Yn aml, maent yn rhoi gormod o arweiniad, er enghraifft drwy fframweithiau ysgrifennu strwythuredig, sy'n cyfyngu ar allu creadigol dysgwyr. Mae hyn, yn ei dro, yn arwain at ddysgwyr sy'n rhy ddibynnol ar gymorth gan ymarferwyr.

**126** Mewn llawer o ysgolion sy'n addysgu ysgrifennu hyd at safon uchel, mae athrawon yn datblygu medrau ysgrifennu creadigol a ffeithiol dysgwyr yn effeithiol drwy ganolbwyntio ar nodweddion ffurfiau ysgrifennu gwahanol mewn sesiynau iaith a llythrennedd. Yna, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ysgrifennu yn y ffurfiau hyn mewn gweithgareddau thematig cyfoethog ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, mae athrawon yn datblygu gwybodaeth dysgwyr am nodweddion ymson wrth iddynt ysgrifennu ymson plentyn ar ei ddiwrnod cyntaf yn yr ysgol mewn sesiwn iaith. Wedi hynny, maent yn rhoi cyfle i ddysgwyr ysgrifennu ymson gan Owain Glyndŵr fel rhan o'u gwaith hanesyddol ar eu thema ar Gymru.

**127** Mewn ysgolion llai effeithiol, nid yw ychydig o ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon bwriadus i sicrhau datblygiad a pharhad digonol ym medrau ysgrifennu dysgwyr. Nid yw ymarferwyr yn sicrhau bod gan ddysgwyr iaith ddigon cyfoethog neu amgyffrediad digon cadarn o eirfa fwyfwy soffistigedig a phatrymau cystrawennol cywir wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae dysgwyr yn defnyddio geirfa anghywir ambell waith wrth ddefnyddio geiriau yn eu gwaith sydd â'r bwriad o ddiddori'r darllenydd. Mae hyn oherwydd nad oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o ystyr y gair neu sut y gellir ei ddefnyddio mewn cyd-destunau gwahanol. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar safon eu gwaith ac yn llesteirio llif ysgrifennu lleiafrif o ddysgwyr.

**128** Mewn mwyafrif o ysgolion llwyddiannus, mae athrawon yn darparu cyfleoedd penodol i ddysgwyr wella ansawdd a safon eu gwaith, er enghraifft drwy ganolbwyntio ar elfennau gramadegol ac atalnodi. Maent yn rhoi arweiniad i ddysgwyr i wella agweddau penodol ar iaith, yn unol â'u hoed a'u gallu. Er enghraifft, drwy awgrymu adferf well neu ansoddair mwy aeddfed wrth ddisgrifio cymeriad mewn stori, neu ailddrafftio rhannau o'u gwaith, fel defnyddio 'brasgamodd' yn hytrach na 'cerddodd'. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion, ac ymateb iddo, er mwyn gwella ei ansawdd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn arwain dysgwyr yn ddigon da bob tro wrth iddynt ailddrafftio eu

gwaith eu hunain. Yn aml, mae’r un gwallau yn cael eu hailadrodd ac yn britho’u gwaith dros amser. O ganlyniad, mae hyn yn atal y lleiafrif o ddysgwyr rhag gwneud cynnydd cadarn yn eu gwaith ysgrifenedig.

**Nodweddion cyffredin mewn darpariaeth ragorol**

- Mae addysgeg wedi’i seilio ar yr egwyddor os yw dysgwyr yn datblygu eu medrau siarad yn llwyddiannus, gall hyn gael effaith fuddiol ar eu gwaith ysgrifenedig
- Mae ymarferwyr yn darparu dull strwythuredig o addysgu agweddau ar ysgrifennu mewn gweithgareddau ystyrlon
- Mae ymarferwyr yn darparu fframwaith i gefnogi’r broses o ddysgu iaith, ac mae hyn yn cynnwys rhyddhau cyfrifoldeb yn raddol o’r ymarferydd i’r dysgwr
- Mae ymarferwyr yn ymestyn gwybodaeth dysgwyr a’u defnydd o eirfa, strwythur brawddegau ac atalnodi
- Mae ymarferwyr yn annog ymarfer ysgrifennu’n gyson
- Mae ymarferwyr yn gwella gallu dysgwyr i ysgrifennu’n greadigol ac yn estynedig yn fwyfwy annibynnol



## Cameo 1

**Mae dysgwyr yn trefnu i Theatr Mewn Addysg berfformio sioe fywgraffiadol am y bardd Hedd Wyn fel rhan o gyd-destun dysgu'r dysgwyr ar Arwyr Cymru.**

Mae'r actor yn rhyngweithio â dysgwyr drwy eu gwahodd i fod yn rhan o'r ddrama ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu geirfa drwy eu cyflwyno i iaith newydd, fel 'ffrith', 'ffosydd' ac 'awen'. Mae'n annog dysgwyr i ymateb i gwestiynau'n gywir ar ddiwedd y perfformiad drwy ailadrodd geirfa gyfoethog a phatrymau cystrawennol cywir a gyflwynwyd yn ystod y perfformiad. Mae dysgwyr yn defnyddio'r iaith newydd a gaffaelwyd wrth ysgrifennu dyddiaduron ac ymsonau am y bardd yn llwyddiannus.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 2

**Mewn ysgol yng ngorllewin Cymru, mae ymarferwyr yn cyflwyno geiriau tafodieithol i ddysgwyr, fel 'trabwr', ac yn eu hannog i gynnwys y geiriau hyn a'r dafodiaith yn eu hysgrifennu creadigol, er enghraifft wrth i ddysgwyr ysgrifennu dyddiadur plentyn o'r ganrif ddiwethaf.**

Mae defnyddio geiriau sy'n rhan annatod o'u cymuned yn cynorthwyo dysgwyr i greu darnau ysgrifenedig dychmygus, dilys. Mae'r gweithgareddau ystyrlon hyn yn ennyn ac yn cynnal diddordeb bron pob un o'r dysgwyr mewn dysgu iaith ac yn cryfhau eu balchder yn y gymuned leol. Mae dysgwyr hefyd yn dod i ddeall a gwerthfawrogi tafodiaith sy'n unigryw i'w cymuned leol, sy'n cyfoethogi eu profiad o iaith.

Darllenwch fwy yma

## Cameo 3

**Fel rhan o weithgaredd diogelwch y ffyrdd, mae'r ymarferydd yn manteisio ar y cyd-destun i ddatblygu medrau siarad, ysgrifennu a thechnoleg gwybodaeth dysgwyr.**

Wrth fyfyrio ar y gweithgaredd, mae dysgwyr yn trafod pwysigrwydd diogelwch y ffyrdd ac yn ysgrifennu sgript i gofnodi deialog rhwng llygad-dyst a'r heddlu. Maent yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth drwy ddefnyddio cyfryngau amrywiol i gofnodi eu gwaith ysgrifenedig yn cael ei ddarllen a'i berfformio ar ffurf cameo byr. Mae'r ymarferydd yn anfon y cameo at gystadleuaeth genedlaethol ar gyfer diogelwch y ffyrdd.

Darllenwch fwy yma



# Arweinyddiaeth



# Arweinyddiaeth a gweledigaeth

129 Mewn lleoliadau ac ysgolion lle mae safonau iaith a llythrennedd yn gryf, mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn sydd wedi'i seilio ar ddatblygu medrau Cymraeg pob dysgwr mewn amgylchedd dysgu cynhwysol. Maent yn gweithredu'n greadigol i wella cyfleoedd i ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol fod yn hyderus ac yn hyfedr yn eu medrau Cymraeg a Saesneg erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn cynllunio ystod eang o gyfleoedd i gefnogi dysgwyr a chryfhau eu balchder yn y Gymraeg, ynghyd â'i defnyddio fel rhan o'u haddysg a'u bywydau bob dydd.

130 Mae arweinwyr ysbrydoledig yn cipio ac ymgorffori dyheadau staff, rhieni a gofalwyr, y corff llywodraethol a'r gymuned ehangach yng ngweledigaeth yr ysgol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel. Gyda chefnogaeth gan ymarferwyr, maent yn rhoi eu gweledigaeth ar waith yn fedrus, yn hyrwyddo'r Gymraeg yn gyson ac yn gosod disgwyliadau uchel. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn glir ac yn pwysleisio mai'r Gymraeg yw sylfaen y ddarpariaeth, a bod yr ethos Cymraeg yn rhan annatod o brofiad dysgwyr yn y ddarpariaeth.

131 Mewn lleoliadau ac ysgolion cynradd ac uwchradd sydd ag arfer effeithiol, mae cydweithio rheolaidd rhwng darparwyr yn sicrhau cysondeb yn y dulliau a ddefnyddir i addysgu iaith a llythrennedd ar draws pob cyfnod. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn arsylwi ei gilydd yn addysgu ac yn rhannu adnoddau defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o leoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn cydgynllunio'n strategol i sicrhau eu bod yn datblygu medrau dysgwyr o bob cefndir ieithyddol wrth iddynt symud o un cyfnod o'u haddysg i'r nesaf.



## Cameo 1

**Yn yr ysgol hon, mae'r pennaeth yn gweithredu ei weledigaeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg o oed cynnar iawn hyd nes bydd dysgwyr yn dechrau yn yr ysgol.**

Mae arweinwyr yn cynllunio'n strategol drwy wahodd rhieni a gofalwyr i'r ysgol, a chydweithio â nhw wrth iddynt ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Mae babanod o chwe mis oed hyd at oed ysgol statudol yn cael darpariaeth gofal plant hynod effeithiol, drwy gyfrwng y Gymraeg, ar dir yr ysgol. Mae pob un o'r ymarferwyr yn cydweithio â'i gilydd yn llwyddiannus drwy sicrhau cysondeb yn y dulliau trochi i ddysgwyr o bob cefndir ieithyddol. Mae'r bartneriaeth gref rhwng ymarferwyr yn cefnogi rhieni a gofalwyr yn eu penderfyniad i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.

Darllenwch fwy yma



132 Mewn ychydig o leoliadau ac ysgolion, mae gan arweinwyr a staff weledigaeth glir ac ymagwedd strategol tuag at ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gaffael y Gymraeg, ond hefyd i gaffael ieithoedd newydd. Maent yn seilio'u darpariaeth ar gyfleoedd cynllunio i ddysgwyr gaffael y Gymraeg yn llwyddiannus, ac yna i greu cysylltiad ag ieithoedd eraill, er enghraifft Ffrangeg, Sbaeneg a Mandarin. Mae hyn yn hybu medrau dysgwyr o ran caffael iaith yn ddyfnach, er enghraifft drwy drafod tarddiad geiriau, nodweddion orgraff neu gymharu ystyr enwau cyffredin. Yn aml, caiff hyn ei wneud fel rhan o ymagwedd thematig yr ysgol tuag at y cwricwlwm. Er enghraifft, mae dysgwyr yn archwilio ieithoedd eraill wrth gymryd rhan mewn diwrnodau ac wythnosau penodol i ddathlu ieithoedd ledled y byd. Yn yr arfer orau, mae ymarferwyr yn tynnu ar brofiadau dysgwyr sy'n siarad ieithoedd eraill fel iaith y cartref i hyrwyddo bod dysgu ieithoedd yn hwyl, a chyfoethogi profiadau dysgwyr o ddysgu ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg.

## Cameo 2

**Trwy weithgareddau difyr, mae dysgwyr yn caffael y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill yn llwyddiannus, ac yn creu cysylltiadau rhwng agweddau gwahanol ar ieithoedd.**

Mae ymarferwyr yn cryfhau dealltwriaeth dysgwyr o strwythur y Gymraeg drwy fanteisio ar ddysgwyr sy'n siarad ieithoedd amrywiol fel eu hiaith gyntaf, a defnyddio asiantaethau allanol fel ysgolion uwchradd a phrifysgolion lleol i addysgu ieithoedd ychwanegol i ddysgwyr heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus ac yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gynyddol o ieithoedd ychwanegol a gyflwynwyd iddynt fel rhan o'r ddarpariaeth erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

Darllenwch fwy yma

# Gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

**133** Yn yr arfer orau, mae arweinwyr yn defnyddio gweithgareddau monitro a gwerthuso yn fwriadus i ymateb i feysydd i'w gwella, fel Cymraeg llafar ac ysgrifenedig wallus dysgwyr. Fel rhan o gynllunio ar gyfer gwelliant, maent yn blaenoriaethu agweddau penodol ar ddatblygu iaith a llythrennedd dysgwyr. Maent yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i'r holl ymarferwyr er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r modd y mae dysgwyr yn caffael iaith. Mewn ychydig o leoliadau ac ysgolion, nid oes gan ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth ddigon cadarn o'r modd y mae dysgwyr yn caffael iaith ac yn gwneud cynnydd. Yn yr ysgolion hyn, nid yw ymarferwyr yn deall y defnydd effeithiol o ddulliau trochi nac yn bodloni anghenion ieithyddol pob dysgwr o gefndiroedd ieithyddol gwahanol. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu eu medrau iaith.

**134** Yn y lleoliadau a'r ysgolion mwyaf llwyddiannus, mae arweinwyr yn datblygu partneriaeth gref â rhieni a gofalwyr sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant, sydd yn aml yn wahanol i'r iaith y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ei siarad gartref. Mae lleoliadau ac ysgolion yn cyflwyno gwybodaeth drwy gynnal cyflwyniadau perthnasol i rieni a gofalwyr, ac yn darparu adnoddau gwerthfawr i'w galluogi i gefnogi eu plant gartref wrth iddynt gaffael yr iaith a gwneud cynnydd o ran datblygu eu medrau.



## Cameo 3

**Mewn un ddarpariaeth ddwyieithog nas cynhelir ac ysgol gynradd leol, mae arweinwyr o'r ddau leoliad yn cydweithio â'i gilydd i gyfathrebu â rhieni a gofalwyr i'w hannog i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.**

Mae arweinwyr yn gwahodd rhieni a gofalwyr i gyflwyniad yn yr ysgol gynradd yn ystod tymor yr hydref pan mae'r plentyn yn mynychu'r lleoliad er mwyn rhannu gwybodaeth gynhwysfawr am gaffael iaith a sut mae ymarferwyr yn datblygu medrau Cymraeg dysgwyr. Maent yn darparu manylion am y ddarpariaeth allgyrsiol sydd ar gael i'w plant drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt fel rhieni a gofalwyr i gefnogi eu plant i gaffael y Gymraeg. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn trosglwyddo o'r lleoliad dwyieithog nas cynhelir i'r ysgol cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus.

Darllenwch fwy yma

135 Yn yr arfer orau, mae arweinwyr yn cydweithio â mentrau iaith lleol, darparwyr Dysgu Cymraeg a mudiadau cenedlaethol eraill er mwyn annog a darparu cyfleoedd i rieni a gofalwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith. Yn aml, darperir cyrsiau Cymraeg i'r teulu, sy'n helpu rhieni a gofalwyr i gyfathrebu'n syml â'u plant ar yr aelwyd. Trwy gydweithrediad a chefnogaeth rhieni a gofalwyr mewn gweithgareddau tebyg, maent yn magu hyder i gefnogi eu plant i gaffael y Gymraeg.

# Dysgu proffesiynol i ddatblygu arbenigedd ac adeiladu capasiti

**136** Yn Addysg yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Cenhadaeth ein Cenedl 2017-21 (Llywodraeth Cymru, 2017a), dywed y Gweinidog Addysg y bydd angen i'r proffesiwn addysg fod yn un sy'n llwyddo i gyflawni ei nodau ar gyfer dysgwyr:

- yn gydweithredol o ansawdd uchel ac yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth ddofn o addysgeg a gwybodaeth bynciol
- cymryd rhan mewn ymchwil, yn wybodus ac yn dysgu o ragoriaeth ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- yn cael ei gefnogi'n dda gan ystod o weithwyr proffesiynol dysgu a all ddarparu'r gallu ychwanegol sydd ei angen i ddiwallu anghenion pob plentyn
- yn cael ei arwain yn dda gan arweinwyr a fydd yn sicrhau y gall pob athro wella drwy gydweithio effeithiol, arloesi, dysgu proffesiynol a chyfleoedd i ddarparu arweinyddiaeth broffesiynol i eraill

**137** Mewn llawer o ysgolion effeithiol, mae gan arweinwyr wybodaeth gadarn am gaffaeliad iaith dysgwyr, ac maent yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol i fodloni anghenion pob grŵp o ddysgwyr. Mae gan y tîm arweinyddiaeth wybodaeth drylwyr am:

- gaffael iaith a datblygiad ieithyddol plant
- gafael gadarn ar fethodoleg trochi iaith
- cysondeb o ran datblygu geirfa a phatrymau cystrawennol
- cynnydd dysgwyr o'u mannau cychwyn a'r cerrig milltir y dylent eu cyrraedd

- pwysigrwydd sicrhau perthynas gref â rhieni a gofalwr i rannu gwybodaeth werthfawr â nhw am gynnydd ieithyddol eu plant a phontio rhwng lleoliadau a'r ysgol, fel o ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg
- hyrwyddo a datblygu medrau pob grŵp o ddysgwyr yn gyson

**138** Mewn lleoliadau ac ysgolion llai effeithiol, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o gaffaeliad iaith dysgwyr, yn enwedig dysgwyr y mae'r Gymraeg yn iaith ychwanegol iddynt wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Nid oes cysondeb yn y fethodoleg trochi iaith, yn enwedig ar gyfer hwyrddyfodiaid, ac nid ydynt yn hyrwyddo cyfrwng yr iaith fel rhan annatod o'r ddarpariaeth. Yn ogystal, nid ydynt yn annog cydweithrediad rhieni a gofalwyr di-Gymraeg yn ddigon effeithiol, er enghraifft drwy rannu gwybodaeth â nhw am y modd y mae eu plant yn caffael y Gymraeg yn yr ysgol, ynghyd â'r modd y gallant gefnogi datblygiad ieithyddol eu plant gartref.

**139** Mewn lleoliadau ac ysgolion lle mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cyflym mewn iaith a llythrennedd, mae gan ymarferwyr sy'n arweinwyr iaith a llythrennedd wybodaeth arbenigol am y Gymraeg. Maent yn cynorthwyo ymarferwyr eraill yn yr ysgol yn gyson, er enghraifft drwy ddatblygu dull newydd o addysgu darllen i ddysgwyr neu agwedd ar raglen cymorth dysgu, er mwyn datblygu medrau ffoneg grŵp penodol o ddysgwyr.

**140** Yn yr ychydig enghreifftiau o arfer orau, mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol â phartneriaid eraill, fel ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith. Maent yn rhannu arfer dda ac adnoddau defnyddiol i gefnogi hwyrddyfodiaid yn effeithiol i gaffael y Gymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wna'r dysgwyr hyn.



**141** Ym mwyafrif y lleoliadau ac ysgolion, mae medrau cyfathrebu Cymraeg ymarferwyr yn gadarn. Mae arweinwyr yn annog ymarferwyr i sgwrsio drwy ddefnyddio'r Gymraeg yn gywir er mwyn i ddysgwyr efelychu geirfa a phatrymau cystrawennol cywir. Lle y nodwyd diffygion ym medrau iaith llafar neu ysgrifenedig yr ymarferwyr eu hunain, mae lleiafrif o arweinwyr yn darparu cyfleoedd addas i ymarferwyr fynychu sesiynau gloywi iaith yn yr ysgol ac â darparwyr eraill, fel drwy bartneriaeth â phrifysgolion, mentrau a chanolfannau iaith lleol. Trwy'r sesiynau hyn, mae ymarferwyr yn datblygu eu gwybodaeth am y modd y mae dysgwyr yn caffael iaith, ac yn cael syniadau defnyddiol ar gyfer gweithgareddau i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth fel rhan o addysgu iaith.

**142** Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn rhoi cymorth priodol i leoliadau ac ysgolion i feithrin eu gallu a'u harbenigedd mewn iaith a llythrennedd. Yn yr enghreifftiau gorau, mae awdurdodau lleol yn darparu rhaglenni dysgu proffesiynol buddiol i gynorthwyo arweinwyr ac ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion i wella eu gwybodaeth am addysgeg arbenigol i fynd i'r afael ag anghenion iaith a lleferydd penodol dysgwyr. Er enghraifft, mae cyfres o gyrsiau'n helpu ymarferwyr i ddeall sut i gefnogi medrau iaith dderbyngar a mynegiannol dysgwyr, sut i ddefnyddio strategaethau gweledol i gefnogi cyfathrebu, a sut i asesu cynnydd dysgwyr yn effeithiol.

**143** Yn ddiweddar, mae consortia rhanbarthol wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i gefnogi ysgolion i ddatblygu medrau siarad a gwrando dysgwyr ar draws pob cyfnod. Er enghraifft, maent yn hyrwyddo prosiectau gwrando a siarad i wella defnydd dysgwyr o iaith at ddibenion gwahanol drwy weithgareddau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM). Ar hyn o bryd, mae consortia rhanbarthol yn dechrau ystyried sut y gallant gynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i gydweithio â'i gilydd yn fwy llwyddiannus ar draws cyfnodau oedran, er mwyn mynd i'r afael â meysydd pwysig i'w gwella o ran iaith a llythrennedd dysgwyr, er enghraifft eu medrau llafar Cymraeg. Er enghraifft, maent yn defnyddio cynadleddau a rhaglenni e-ddysgu i helpu lleoliadau ac ysgolion i archwilio ffyrdd i ddatblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr sy'n newydd i'r sector. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r gwaith hwn.


Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, mae darpariaeth i gefnogi arweinwyr ac ymarferwyr mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, a ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, o ran y Gymraeg yn anghyson.

144 Mewn llawer o leoliadau ac ysgolion, mae arweinwyr yn olrhain datblygiad iaith dysgwyr yn briodol. Lle mae adnoddau asesu cyfrwng Cymraeg ar gael, caiff asesiadau eu defnyddio gyda dysgwyr i fesur eu cynnydd wrth iddynt gaffael yr iaith. Mae mwyafrif yr arweinwyr a'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i flaenoriaethu pa agweddau ar iaith y mae angen eu gwella ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhannu gwybodaeth yn briodol â swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wrth iddynt frocera cyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus i ymarferwyr, a chynnig strategaeth ranbarthol i godi safonau. Lle ceir diffygion yn narpariaeth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, mae hyfforddiant a chymorth yn aml yn gyffredinol ac nid ydynt wedi'u personoli'n ddigonol nac yn cyfateb i anghenion ysgolion unigol bob tro. Yn ogystal, nid yw ychydig o ddarparwyr yn cael hyfforddiant a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.



## Deunydd atodol

# Enghreifftiau o ddarpariaeth effeithiol



# Yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu

## Cameo 1

### Cyd-destun

**Darparu amgylchedd dysgu cyfoethog ar gyfer iaith a llythrennedd i hybu a datblygu medrau Cymraeg dysgwyr yn gyson.**

### Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferwyr y cyfnod sylfaen yn cynllunio ac yn darparu amgylchedd dysgu bwriadus a deniadol sy'n cyfuno llythrennau'r wyddor, geiriau aml eu defnydd, labeli, cyfarwyddiadau a phatrymau cystrawennol syml. Mae hyn yn gyson yn yr holl ardaloedd dysgu dan do ac awyr agored. Mae ymarferwyr yn defnyddio geirfa, arwyddion Makaton a lluniau i labelu adnoddau yn yr ardaloedd dysgu i alluogi dysgwyr i'w hestyn a'u tacluso'n annibynnol. Mae dysgwyr yn eu defnyddio wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau, er enghraifft wrth ddefnyddio adnoddau celf a chrefft.

Mae'r amgylchedd dysgu wedi'i drefnu'n feysydd dysgu penodol â chyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau iaith a llythrennedd yn annibynnol. Er enghraifft, mae dysgwyr Blwyddyn 2 yn darllen llyfrau am blanhigion cyn dechrau tyfu eu rhai eu hunain. Maent yn defnyddio eu profiadau i ysgrifennu cyfarwyddiadau syml am sut i dyfu blodyn haul yn llwyddiannus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae ymarferwyr yn defnyddio geirfa sy'n gysylltiedig â'r pwnc a thema'r dosbarth. Maent yn darparu prociau cof i ddysgwyr fel canllaw i ddatblygu eu medrau darllen, ac yn cynnig cymhorthion cof ar gyfer ffurfiau ysgrifennu gwahanol. Er enghraifft, wrth i ddysgwyr ddylunio roced a chynnal arbrawf gwyddonol gan ddefnyddio pwmp aer i'w wthio i'r awyr, mae ymarferwyr yn cyfeirio at labeli ar arddangosiad wal, fel 'ffrithiant' a 'gwrthiant aer' i gynorthwyo dysgwyr wrth iddynt werthuso effeithiolrwydd dyluniad eu roced.

Mae dysgwyr yn cyfeirio at gardiau fflach a mat geiriau wrth gwblhau gweithgareddau ysgrifennu. Er enghraifft, wrth i ddysgwyr ysgrifennu stori greadigol am 'Yr Allweddol Hud', maent yn cyfeirio at enghreifftiau o 'agoriadau' a 'chysyllteiriau' enghreifftiol sydd wedi'u harddangos ar y wal i gyfoethogi eu gwaith ysgrifenedig.

## Beth yw'r effaith?

Daw dysgwyr yn fwyfwy hyderus a hyfedr yn y Gymraeg dros amser, drwy ei gweld a'i defnyddio yn yr amgylchedd dysgu. Maent yn cyfeirio at arddangosiadau ar y wal, ardaloedd a mannau penodol yn yr ystafell ddosbarth i gefnogi eu datblygiad iaith yn llwyddiannus.

Mae dysgwyr yn cyfeirio at adnoddau gwahanol, yn ehangu eu geirfa ac yn defnyddio'r iaith yn gywir mewn cyd-destunau dysgu gwahanol. Maent yn manteisio ar yr amgylchedd i'w cynorthwyo i ddatblygu eu medrau Cymraeg ymhellach.

< Yn ôl i'r braslun

# Cameo 2

## Cyd-destun

**Mae ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir yn cydweithio'n rheolaidd ag ymarferwyr o'r ysgol gynradd leol i gynllunio'n bwrpasol i sicrhau dilyniant a pharhad mewn medrau iaith a llythrennedd dysgwyr.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn cynllunio ac yn datblygu medrau gwrando a siarad plant yn effeithiol drwy weithgareddau ymarferol, fel adeiladu gwesty trychfilod. Maent yn cyflwyno ac yn modelu geirfa syml ar lafar a thrwy gofnodi geiriau syml ar gardiau fflach i'r dysgwyr, fel 'waliau tal' a 'gwellt sych'. Mae ymarferwyr yn dwysau dealltwriaeth dysgwyr o'r defnydd o arddodiaid, fel 'tu mewn', 'ar ben' a 'tu ôl' wrth roi gwrthrychau yn y gwesty.

Mae ymarferwyr y lleoliad a'r ysgol yn cyfarfod bob tymor ac yn trafod medrau gwrando a siarad dysgwyr yn effeithiol. Trwy'r cyfarfodydd hyn, mae ymarferwyr yn cynllunio dysgu ar sail yr iaith a gyflwynwyd yn y lleoliad. Maent yn datblygu medrau dysgwyr yn fuddiol wrth eu haddysgu am nodweddion trychfilod gwahanol, fel pryf llwyd a phryf genwair. Maent yn trafod ansoddeiriau fel 'llwyd' ac 'enfawr', ac yn datblygu gwybodaeth

ffonolegol dysgwyr yn fedrus drwy fodelu brawddegau syml iddynt eu darllen, er enghraifft: 'Mae pry llwyd yn byw yn y gwesty enfawr'. Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau siarad, yn ehangu eu geirfa ac yn dwysau eu gwybodaeth am ffoneg yn dda wrth iddynt symud o un lleoliad i'r llall.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r amgylchedd dysgu yn ennyn ac yn cynnal diddordeb dysgwyr mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y meysydd dysgu.

Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau buddiol sy'n cynorthwyo dysgwyr i feithrin a defnyddio geirfa a phatrymau syml yn gyson yn eu tasgau.

Mae cydweithrediad rheolaidd rhwng ymarferwyr yn y lleoliad a'r ysgol gynradd i gynllunio gweithgareddau ieithyddol pwrpasol yn sicrhau bod dysgwyr yn parhau i gaffael yr iaith yn gynyddol dros amser.

Mae dysgwyr yn defnyddio geirfa benodol, fel ansoddeiriau ac arddodiaid, yn llwyddiannus wrth iddynt eu cymhwyso mewn gweithgareddau llai ffurfiol, ac yn y ddarpariaeth estynedig a pharhaus.


Yn ôl i'r braslun

# Cameo 3

## Cyd-destun

**Mae ymarferwyr yn dilyn diddordebau a thrywyddau ymholi dysgwyr yn fedrus drwy gynllunio ac ymateb i weithgareddau sy'n datblygu medrau ieithyddol bron pob un o'r dysgwyr yn llwyddiannus.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?




Mae ymarferwyr yn defnyddio gwrthrychau y mae dysgwyr yn dod â nhw o adref fel sbardun i ddatblygu eu hiaith. Daw dysgwr â thegan dinosor a rhannu ffeithiau diddorol amdano â'i gyfoedion mewn sesiwn gyflwyno. Mae hyn yn ennyn chwilfrydedd gweddill y dysgwyr tuag at y dinosor, ac maent yn mynegi diddordeb gwirioneddol ynddo. Mae ymarferwyr yn achub ar y cyfle i ddarparu ystod o weithgareddau dysgu i ddatblygu medrau iaith dysgwyr, fel datblygu geirfa sy'n ymwneud ag ymddangosiad a chynefin y dinosor, a chyflwyno patrymau iaith syml fel 'Mae ganddo'. Maent yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr greu penwisgoedd dinosoriaid gwahanol i'r dysgwyr eu defnyddio wrth greu bwydlen a chwarae rôl yn y goedwig, sy'n gynefin i'r dinosoriaid hyn.

## Beth yw'r effaith?

Mae dysgwyr yn dwyn perchenogaeth ar eu dysgu eu hunain yn effeithiol, ac mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion ieithyddol dysgwyr yn llwyddiannus. Maent yn datblygu geirfa a phatrymau cystrawennol yn llwyddiannus, yn aml yn ddiarwybod, wrth i ymarferwyr eu harwain i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth ddiddorol o gyd destunau dysgu.

Mae ymarferwyr yn gweld bylchau ym medrau ieithyddol dysgwyr wrth eu hasesu'n ffurfiannol ar y continwwm datblygu iaith. Maent yn defnyddio'r asesiadau hyn i lywio eu cynlluniau dilynol ar gyfer addysgu iaith a llythrennedd.





Yn ôl i'r braslun

# Cameo 4

## Cyd-destun

**Mae ymarferydd Blwyddyn 2 yn cynllunio ac yn addysgu medrau darllen i ddysgwyr yn fedrus.**


## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae'r ymarferydd yn darparu gweithgareddau o lyfr ffeithiol am eliffantod, sy'n sbardun ar gyfer cyd-destun dysgu'r dosbarth. Mae'n cyflwyno ac yn trafod nodweddion llyfrau ffeithiol, er enghraifft y 'cynnwys' a'r 'mynegai' yn bwrpasol, ac yn ymestyn defnydd dysgwyr o ansoddeiriau a chyffelybiaethau'n effeithiol, fel 'trwnc llaes' a 'clustiau fel gwyntyll enfawr'. Mae'r ymarferydd yn defnyddio llyfrau sy'n rhan o gyfres a llyfrau go iawn fel rhan o'r ddarpariaeth darllen. Mae'n cynllunio amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau llythrennedd sy'n deillio o'r llyfrau hyn i gefnogi dysgwyr yn llwyddiannus.

## Beth yw'r effaith?

Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol wrth adeiladu ar eu dealltwriaeth flaenorol o lyfrau ffeithiol. Maent yn cywain a choladu gwybodaeth syml o lyfrau ffeithiol eraill yn effeithiol, ac yn creu eu llyfrau ffeithiol eu hunain am anifail o'u dewis.

< Yn ôl i'r braslun




# Cameo 5

## Cyd-destun

**Mae ymarferydd Blwyddyn 4 yn cynllunio i ddatblygu medrau ysgrifennu dysgwyr yn effeithiol drwy ddilyn map cwricwlwm yr ysgol, sy'n sicrhau dilyniant a pharhad mewn profiadau dysgu.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?



Mae'r ymarferydd yn cyflwyno gwybodaeth am deithio i'r gofod gan ddefnyddio adnoddau gweledol ar ddyfais electronig fel cymorth cof i ddysgwyr. Mae'n atgoffa dysgwyr am y ffurfiau ysgrifennu gwahanol a gyflwynwyd iddynt mewn gweithgareddau dysgu blaenorol, ac yn rhoi'r rhyddid iddynt ddewis un ohonynt i gyflawni'r dasg. Mae'r ymarferydd yn modelu iaith yn effeithiol ac yn atgoffa dysgwyr o'r defnydd cywir o iaith drwy ddefnyddio gwybodaeth o asesiadau ffurfiannol cyfredol, er enghraifft i ddefnyddio berfau gorchmynnol neu ansoddeiriau diddorol wrth ddisgrifio'r roced yn tanio. Wrth i ddysgwyr ddwyn mwy o berchenogaeth ar eu dysgu, maent yn dewis ffurf briodol i gyflwyno eu gwaith, er enghraifft drwy ymson neu ddyddiadur gofodwr, neu daflen wybodaeth am y bydysawd.

## Beth yw'r effaith?

Trwy gynllunio gofalus yr ymarferydd, mae dysgwyr yn datblygu ac yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferydd yn nodi anghenion iaith a llythrennedd dysgwyr yn fanwl gywir. Mae hyn yn cefnogi dysgu'n effeithiol drwy ddarparu ystod o weithgareddau sydd fwyaf addas i fodloni eu hanghenion.

Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau Argymhellion Dysgu Darpariaeth Arweinyddiaeth
Cameos Cymorth dysgu proffesiynol Atodiadau

# Trochi

## Cameo 1

### Cyd-destun

**Mae ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i barhau i drochi hwyrddyfodiaid yn y Gymraeg a dwysau eu dealltwriaeth yn fedrus.**

### Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae cynorthwyydd cymorth dysgu yn cefnogi hwyrddyfodiaid drwy ddarparu gweithgaredd am anifeiliaid. Mae'r ymarferydd yn galw gwybodaeth bwysig i gof am brofiad y dysgwyr drwy eu hatgoffa am nodweddion anifeiliaid fferm o weithgaredd blaenorol, ac yn datblygu eu geirfa yn gefnogol. Mae'n cyflwyno enwau anifeiliaid anwes ac yn ymestyn eu dealltwriaeth o ansoddeiriau drwy ddisgrifio eu nodweddion. Caiff delweddau o anifeiliaid gwahanol eu dangos ar ddyfais electronig fawr, ac mae'r dysgwyr yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn cwis i enwi'r anifeiliaid yn gywir a dysgu ansoddeiriau newydd, fel 'blewog' a 'tenau'. Mae dysgwyr yn dewis anifeiliaid gwahanol ac yn cofnodi eu henwau a'u nodweddion mewn ffeil ffeithiau. Er mwyn herio dysgwyr ymhellach, maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio a pherfformio sgript yn y 'Filfeddygfa' yn yr ardal chwarae rôl. Hefyd, mae'r ymarferydd yn datblygu gwybodaeth am y rhagenw 'fy' yn gynnil ac yn defnyddio treiglad meddal wedi hynny.



Erbyn diwedd y gweithgaredd, mae dysgwyr yn hyderus yn eu medrau wrth berfformio'r sgript i'w cyfoedion, er enghraifft:

Milfeddyg: *P'nawn da. Croeso i'r filfeddygfa! Sut ydych chi?*

Perchennog: *Da iawn diolch ond mae fy nghath yn dost?*

Milfeddyg: *Mae eich cath yn denau ac yn flewog. Beth yw ei henw?*

Perchennog: *Mursen yw enw fy nghath. Mae hi'n denau nawr ond roedd hi'n arfer bod yn dew!*

Milfeddyg: *Beth sy'n bod ar eich cath heddiw?*

Perchennog: *Mae fy nghath yn gloff ac yn methu sefyll yn iawn.*

Milfeddyg: *Druan a hi, peidiwch â phoeni.*



## Beth yw'r effaith?

Mae dysgwyr yn dysgu enwau cyffredin anifeiliaid anwes ac yn ymestyn eu gwybodaeth am ansoddeiriau wrth ddisgrifio anifeiliaid gwahanol i ddatblygu eu medrau llafar ac ysgrifennu.

Mae dysgwyr yn deall ac yn defnyddio'r rhagenw 'fy' wrth chwarae rôl.

Yn ôl i'r braslun

# Cameo 2

## Cyd-destun

**Mae ymarferydd yn trochi dysgwyr yn fedrus drwy eu haddysgu am arddodiaid mewn ffordd hwyliog.**


## Beth mae'r ymarferydd yn ei wneud?

Mae dysgwyr yn dysgu i restru arddodiaid yn gywir drwy ganu rhestr ohonynt i gerddoriaeth o raglen deledu enwog. Maent yn clicio'u bysedd, yn clapio'u dwylo ac yn gwneud symudiadau perthnasol i gyfleu'r arddodiaid yn weledol.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r dechneg hon yn gyfrwng effeithiol i ddysgwyr gofio trefn arddodiaid mewn ffordd hwyliog a chofiadwy. Maent yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn gywir i'w gwaith wrth gofnodi cyfarwyddiadau ar sut i greu gwrthrych a fydd yn hedfan am y cyfnod hiraf fel rhan o'u gwaith dylunio a thechnoleg.

< Yn ôl i'r braslun



# Cynllunio i ddatblygu medrau dysgwyr

## Cameo 1

### Cyd-destun

**Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n annog dysgwyr i gaffael iaith a datblygu eu medrau o'r naill leoliad i'r llall.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae dysgwyr yn trafod ac yn cytuno ar thema dosbarth ar gyfer y tymor, sef 'Cymru Cŵl'. Mae ymarferwyr yn cydweithio â'i gilydd i gynllunio medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu er mwyn sicrhau bod pob grŵp o ddysgwyr yn adeiladu ar eu gwybodaeth a'u medrau blaenorol i wneud cynnydd da o ran dysgu iaith. Mae ymarferwyr yn cyfeirio at gynllun iaith a llythrennedd y darparwyr, ac yn darparu gweithgareddau cyffrous sy'n herio dysgwyr o bob cefndir ieithyddol. Trwy ddefnyddio'r cynllun hwn i'w harwain i gynllunio cyfres o sesiynau, mae ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau diddorol â her briodol sy'n galluogi dysgwyr i adeiladu ar eu medrau yn effeithiol.

## Beth yw'r effaith?

Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus drwy ystod o weithgareddau diddorol sy'n briodol i'w gallu. Wrth iddynt gael eu cyflwyno i weithgareddau iaith cyfoethog drwy thema'r dosbarth, mae dysgwyr yn cymhwyso eu medrau'n annibynnol ar draws y meysydd dysgu ac yn gwneud cynnydd cryf.


< Yn ôl i'r braslun

# Cameo 2

## Cyd-destun

**Dywed ymarferwyr mai 'llafaredd yw'r gwreiddiau i sicrhau safonau llythrennedd' wrth ddatblygu medrau caffael iaith dysgwyr. Maent yn buddsoddi eu hamser i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn siarad yn glir ac yn gywir wrth fynegi eu hunain.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?



Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ryngweithio'n naturiol mewn gweithgareddau creadigol, ac yn defnyddio'r cyfleoedd hyn i gyflwyno geirfa newydd iddynt. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn gweithgaredd gwrando a siarad, lle maent yn dychmygu eu bod yn hedfan ar ysgub Rala Rwdins. Maent yn defnyddio eu dychymyg wrth esgus gweld cymeriadau fel y Llipryn Llwyd a gwrthrychau diddorol yng Ngwlad y Rwla. Mae ymarferwyr yn annog dysgwyr i ymestyn eu defnydd o ansoddeiriau a chyffelybiaethau, er enghraifft 'Mae Rala Rwdins yn hedfan fry uwchben y cymylau gwynion fel gwrach ddireidus ar noson calan gaeaf', ac 'Mae Llipryn Llwyd yn ymlwybro'n drist i'r ogof llwm fel llygoden wlyb ar noson o storm'.

## Beth yw'r effaith?

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn defnyddio eu dychymyg yn hynod effeithiol wrth gyflwyno eu brawddegau llafar i'w cyfoedion. Maent yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau ei gilydd, ac yn trafod ac ymestyn eu geirfa ymhellach o'r hyn a welsant yn y wlad hudolus hon. Mae ymarferydd yn arddangos yr ansoddeiriau a'r cyffelybiaethau yn yr ystafell ddosbarth ac yn dathlu ymdrechion y dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymhwyso'r eirfa hon yn adeiladol i'w gwaith ysgrifenedig wrth ddisgrifio Gwlad y Rwla. Er enghraifft, mae un dysgwr yn ysgrifennu 'Mae'r wlad yn llifeiriant o laeth a mêl'.

Yn ôl i'r braslun

# Addysgu ac asesu


## Cameo 1

### Cyd-destun

**Mewn lleoliad nas cynhelir lle daw ychydig iawn o ddysgwyr o gartrefi Cymraeg, mae ymarferwyr yn defnyddio cyfleoedd cynlluniedig i helpu dysgwyr i gaffael a defnyddio geiriau newydd.**

### Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n fwriadus i addysgu patrymau iaith a geirfa newydd i ddysgwyr yn ystod eu harferion dyddiol. Maent yn sicrhau bod dysgwyr yn clywed ac yn ymarfer yr un patrymau a geirfa'n rheolaidd, er enghraifft drwy ganu 'Bore da' a 'Hwyl fawr ffrindiau' ar ddechrau a diwedd y dydd. Mae trefniadau amser byrbryd ac amser cinio yn cynnig cyfleoedd dilys i gyflwyno geirfa ac ymarfer patrymau iaith gyda dysgwyr. Mae ymarferwyr yn modelu iaith iddynt ac yn eu hannog i ddefnyddio'r patrymau, er enghraifft i ofyn cwestiynau i'w gilydd: 'Pa ffrwyth wyt ti eisiau bore 'ma?', 'Afal os gweli di'n dda'. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r cyfleoedd hyn i ymestyn dealltwriaeth dysgwyr a'u hymatebion llafar drwy ofyn cwestiynau dilynol, fel 'Afal llawn neu hanner afal?, 'Hanner afal os gweli di'n dda'.



## Beth yw'r effaith?

Mae ymarferwyr yn cynorthwyo dysgwyr, nad oes ganddynt brofiad o glywed y Gymraeg gartref, yn effeithiol i ddod yn gyfarwydd ag ymadroddion cyffredin fel rhan o'u harferion dyddiol yn yr ysgol. Mae ailadrodd yn helpu i ddatblygu hyder dysgwyr a, thrwy gymorth wedi'i ystyried yn ofalus, maent yn gwneud cynnydd wrth gaffael iaith.



Yn ôl i'r braslun

# Cameo 2

## Cyd-destun

**Mae ymarferwyr y cyfnod sylfaen yn defnyddio caneuon i ddatblygu iaith dysgwyr yn llwyddiannus.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Yn ystod sesiynau addysgu dosbarth-cyfan dyddiol, mae ymarferwyr yn cyflwyno amrywiaeth o rigymau, hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd ac anghyfarwydd i ddysgwyr, er enghraifft 'Lawr ar lan y môr', 'Migldi Magldi' ac 'Aderyn Melyn'. Mae ymarferwyr hefyd yn defnyddio caneuon hwyliog eraill, er enghraifft 'Mae gen i het dri chornel' a chaneuon mathemategol amrywiol fel ffordd ddifyr o addysgu geirfa a phatrymau iaith, ynghyd â chysyniadau addysgol, ar draws y meysydd dysgu. Dros amser, mae dysgwyr yn eu canu wrth berfformio i'w cyfoedion mewn gwasanaethau a chyngherddau, ac yn gwbl ddigymell wrth chwarae ar y buarth.

## Beth yw'r effaith?

Wrth i ymarferwyr ganu gyda'r dysgwyr, mae'r dysgwyr yn clywed geirfa a phatrymau iaith cywir. Dros amser, mae dysgwyr yn defnyddio'r iaith yn annibynnol mewn ystod o weithgareddau yn fwyfwy hyderus a chywir. Maent yn dysgu geirfa ac yn ymarfer patrymau anghyfarwydd sydd, dros amser, yn dod yn rhan o gyfathrebu digymell drwy gyfrwng y Gymraeg mewn gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol.

< Yn ôl i'r braslun

# Cameo 3

## Cyd-destun

**Mae ymarferydd Blwyddyn 6 yn datblygu medrau gwrando a siarad dysgwyr yn llwyddiannus wrth ddarparu gweithgaredd athroniaeth. Mae dysgwyr yn defnyddio iaith lafar benodol yn effeithiol ac yn datblygu geirfa a phatrymau cystrawennol amrywiol wrth gymryd rhan mewn trafodaeth.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae'r ymarferydd yn darparu delweddau a ffotograffau ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol er mwyn i'r dysgwyr ddatblygu eu hiaith lafar mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft wrth ystyried 'Effaith chwaraeon ar y byd'. Maent yn dilyn strwythur cyfarwydd er mwyn sicrhau bod cyfraniadau pob aelod o'r drafodaeth yn cael eu parchu. Wrth i ddysgwyr gyfrannu syniadau a safbwyntiau ar y thema, mae'r ymarferydd yn helpu i gyfoethogi geirfa'r dysgwyr yn effeithiol, yn aml mewn modd cynnil, drwy hwyluso a chefnogi ymatebion y dysgwyr. Mae'r dysgwyr yn magu'r hyder i ymestyn eu defnydd o eirfa yn annibynnol wrth i drafodaeth ddatblygu, gan ddangos gwerthfawrogiad aeddfed o'r thema. Yn ogystal, maent yn datblygu syniadau ei gilydd yn effeithiol drwy ddefnyddio iaith gywir dadlau i gytuno neu anghytuno â chyfraniadau dysgwyr eraill yn barchus, er enghraifft 'Rwy'n anghytuno'n llwyr gyda thi oherwydd…' ac 'Mae'n bwysig defnyddio gwybodaeth ehangach er mwyn …'.

Nid yw'r ymarferydd yn arwain y drafodaeth ond, yn hytrach, yn ei hwyluso, yn herio ac yn procio fel y bo'n briodol, ac yn ymestyn amgyffrediad dysgwyr o'r Gymraeg yn effeithiol. Mae adnoddau iaith perthnasol yn gyfrwng defnyddiol i ddysgwyr ddatblygu iaith amleiriog, er enghraifft matiau trafod sy'n cynnwys terminoleg a phatrymau cystrawennol sy'n berthnasol i'r pynciau dan sylw. Ar ôl trafodaethau dosbarth, caiff dysgwyr ddewis a hoffent recordio eu cyfraniadau fel bwletin newyddion neu eu cofnodi drwy ysgrifennu adroddiad papur newydd.

## Beth yw'r effaith?

Mae dysgwyr yn magu'r hyder i drafod ystod eang o bynciau'n fwyfwy aeddfed o flaen eu cyfoedion. Maent yn gwrando'n astud ar farn eu cyfoedion ac yn ymestyn eu geirfa eu hunain mewn amgylchedd dysgu cefnogol, lle nad oes barn gywir neu anghywir. Maent yn cymhwyso geirfa newydd yn annibynnol i greu adroddiadau llafar ac ysgrifenedig.

Yn ôl i'r braslun



# Cameo 4

## Cyd-destun

**Mae ymarferydd, sy'n dra medrus yn datblygu medrau Cymraeg dysgwyr, yn darparu gweithgareddau iaith a llythrennedd cyfoethog sy'n ymestyn dysgwyr mwy abl, gan gynnwys y rhai o gartrefi lle'r Gymraeg yw prif iaith yr aelwyd.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae'r athrawes ddosbarth yn monitro cynnydd dysgwyr yn ofalus yn eu medrau iaith a llythrennedd Cymraeg. Mae'n blaenoriaethu'r camau nesaf yn eu dysgu ac yn cynllunio'n ofalus i'r cynorthwywydd cymorth dysgu weithio gyda nhw i gyflymu eu cynnydd mewn darllen ac ysgrifennu. Trwy ddefnyddio amrywiaeth o destunau Cymraeg traddodiadol a chyfoes, mae dysgwyr mwy abl yn cydweithio â'i gilydd i ysgrifennu 'cainc' gyfoes sy'n cynnwys cydweddiad modern. Er enghraifft, maent yn darllen ac yn ymateb i fersiwn wedi'i haddasu o 'Pedair Cainc y Mabinogi'. Mae' cynorthwywydd cymorth dysgu yn arwain dysgwyr i wella'r agweddau creadigol ar eu hysgrifennu, fel llunio agoriadau hudolus a golygfeydd dramatig disgrifiadol yn y 'gainc'.

## Beth yw'r effaith?

Mae dysgwyr yn cyfranogi'n frwdfrydig ac yn ysgrifennu 'cainc' creadigol dros gyfres o sesiynau. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau cyfansoddi drwy'r broses ddrafftio hyd at ddarn ysgrifenedig terfynol, coeth o safon uchel. Wedi hynny, caiff y 'gainc' ei darllen i'w cyfoedion ac mae'r athrawes yn defnyddio gwaith y dysgwyr fel ffordd ystyrlon o

drafod testunau moesol mewn sesiwn celfyddydau mynegiannol, er enghraifft 'Pwy yw Bendigeidfran yr unfed ganrif ar hugain?' ac 'Ydy anghydraddoldeb yn dal i fodoli mewn gwledydd Celtaidd?' Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llefaredd yn hyderus drwy ddatblygu iaith gyfoethog a soffistigedig.

Mae dysgwyr mwy abl yn arwain trafodaethau yn effeithiol â'u cyfoedion drwy fodelu geirfa a phatrymau brawddegau soffistigedig, fel ansoddeiriau a chyffelybiaethau a ddetholwyd yn ofalus y maent wedi'u cynnwys yn eu hysgrifennu. O ganlyniad, mae pob un o'r dysgwyr yn elwa ar y cymorth penodol a roddwyd i'r cyfoedion i ymestyn eu medrau iaith a llythrennedd.



Yn ôl i'r braslun

# Cameo 5

## Cyd-destun

**Defnyddio arsylwadau ymarferwyr i gyflwyno geirfa newydd i ddysgwyr oed meithrin.**


## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Wrth arsylwi dysgwyr yn adeiladu tŷ i'r tri mochyn bach yn yr ardal adeiladu, mae ymarferwyr yn holi'r dysgwyr sut gallant wneud i'r tŷ sefyll yn gryf. Maent yn cyflwyno geirfa newydd, fel 'briciau', 'gwellt', 'tywod', 'dŵr' ac ati, ac yn annog dysgwyr i'w defnyddio wrth barhau i chwarae.

## Beth yw'r effaith?

Mae dysgwyr yn clywed ac yn defnyddio geirfa newydd yn fwyfwy hyderus wrth gyflawni gweithgaredd ymarferol.

< Yn ôl i'r braslun



# Cameo 6

## Cyd-destun

**Mae ymarferwyr mewn lleoliad nas cynhelir yn arsylwi cynnydd dysgwyr yn y Gymraeg yn ystod gweithgareddau ymarferol.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferwyr yn annog dysgwyr i ddefnyddio geirfa newydd, er enghraifft wrth arsylwi blodau gwahanol wrth fynd ar daith natur o gwmpas yr ysgol. Ar ôl dychwelyd i'r ardal greadigol, mae'r dysgwyr yn peintio blodyn haul ac yn trafod nodweddion y blodyn â'r cynorthwyydd drwy ddefnyddio geirfa fel 'coes', 'petal', 'tal' a 'byr'. Mae ymarferwyr yn arsylwi defnydd y dysgwyr o eirfa yn ystod y sesiwn drafod ac yn defnyddio eu harsylwadau i ymestyn dealltwriaeth y dysgwyr. Maent yn eu hannog i ddefnyddio iaith cymharu, er enghraifft 'Maeblodyn haul Dafydd yn dalach na blodyn haul Efa' ac 'Mae pedwar o betalau ar flodyn haul Hari ond dim ond tri ar flodyn haul Tegwen'. Gwnânt ddefnydd gwerthfawr o'r wybodaeth asesu hon i fodloni anghenion dysgwyr drwy gynllunio rhagor o gyfleoedd iddynt ddefnyddio ffurfiau cymharol a'r radd eithaf yn ei hiaith lafar.

## Beth yw'r effaith?

Mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o eirfa benodol a'u gwybodaeth am iaith cymharu mewn amrywiaeth o gyd-destunau dilys.

Yn ôl i'r braslun

# Cameo 7

## Cyd-destun

**Defnyddio adborth adeiladol i wella safonau a gwella ansawdd gwaith ysgrifenedig dysgwyr.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferydd Blwyddyn 6 a chynorthwyydd cymorth dysgu yn trafod gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn rheolaidd mewn themâu y maent yn cyflawni gweithgareddau ynddynt ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio symbolau gwahanol i gyfeirio at yr angen i gywiro neu wella agweddau penodol ar eu hysgrifennu. Mae dysgwyr yn ymateb i'r adborth hwn yn dda, er enghraifft drwy ddefnyddio thesawrws i ymestyn eu defnydd o ansoddeiriau i ddisgrifio cymeriadau gwahanol mewn chwedlau Cymreig.

Mae deialog effeithiol rhwng yr ymarferwyr a'r dysgwyr yn tynnu sylw'r dysgwyr at wallau ieithyddol penodol, yn eu harwain tuag at wella safon eu gwaith ac i ymfalchïo yn eu hymdrechion hefyd. Mae hyn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o nodweddion ieithyddol gwahanol, er enghraifft wrth ddefnyddio cyffelybiaethau mewn paragraff disgrifiadol am gymeriad o lyfr.

Yn aml, mae ymarferwyr yn darparu cyfnodau penodol i ddysgwyr ailddrafftio rhannau penodol neu ddarnau llawn o waith ysgrifenedig er mwyn gwella ei safon, neu i ddathlu'r gwaith drwy arddangosiadau 'Gwaith Gwych' neu 'Dysgwr yr Wythnos'.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r dysgwyr yn gwrando ar, ac yn gweithredu'n effeithiol ar, adborth ymarferwyr wrth wella safon eu gwaith. Mae'r berthynas gadarnhaol a chefnogol hon yn rhoi'r hyder i ddysgwyr wneud camgymeriadau, rhoi cynnig ar syniadau newydd a mireinio eu gwaith fel rhan o'r broses wella.



Yn ôl i'r braslun

# Cameo 8

## Cyd-destun

**Defnyddio gweithdrefnau olrhain i asesu datblygiad ffonolegol a geirfa dysgwyr.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae'r ymarferwyr yn addysgu gweithgareddau ffoneg a geirfa benodol, er enghraifft y llythyren 'p' yn y cyfnod sylfaen a berfau gorchmynnol yng nghyfnod allweddol 2, ac yn asesu dealltwriaeth a defnyddio dysgwyr o'r rhain mewn cyd-destunau gwahanol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth asesu hon i gynllunio gweithgareddau sy'n cyfateb i wybodaeth a dealltwriaeth ieithyddol dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr, a'u datblygu.

## Beth yw'r effaith?

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr amgyffrediad a dealltwriaeth o gynnydd dysgwyr o ran caffael iaith a'r camau nesaf sydd eu hangen yn eu dysgu. O ganlyniad, maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n bodloni anghenion ieithyddol dysgwyr.

Yn ôl i'r braslun

# Gwrando a siarad

## Cameo 1

### Cyd-destun

**Defnyddio'r 'Llwyfan Llafar' i ddatblygu medrau gwrando a siarad wrth baratoi i gystadlu mewn eisteddfod leol.**

### Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferwyr yn cynorthwyo dysgwyr i alw geirfa syml a phatrymau cystrawennol cyfarwydd i gof er mwyn perfformio ar lwyfan, er enghraifft 'Mae gen i dipyn o dŷ bach twt' ac 'Mi welais Jac y Do'.

Wrth i ddysgwyr berfformio, mae ymarferwyr yn eu hannog i ynganu geiriau'n glir a defnyddio goslef briodol er mwyn sicrhau mynegiant ystyrlon yn y rhannau maent yn eu perfformio. Caiff rhythm y llinellau, cysondeb yr odl ac ailadrodd eu hatgyfnerthu drwy ddull effeithiol a difyr i ddysgwyr gaffael yr iaith.

### Beth yw'r effaith?

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dysgu pwysigrwydd gwrando ar eu cyfoedion yn cyflwyno caneuon cyfarwydd sy'n gyfoeth o iaith addas ar gyfer ystod oed a gallu ieithyddol y dysgwyr. Maent yn magu hyder drwy berfformio ar lwyfan ac yn cymhwyso eu defnyddio o'r Gymraeg yn llwyddiannus.

Mae ychydig o ddysgwyr llai hyderus sydd â llai o brofiad o gaffael y Gymraeg yn magu hyder hefyd. Gan amlaf, maent yn gwrando ar eu cyfoedion sy'n fwy hyderus yn y Gymraeg yn gyntaf, ac yna'n eu hefelychu. Maent yn mwynhau defnyddio a datblygu eu medrau gwrando a siarad yn yr amgylchedd creadigol hwn.



Yn ôl i'r braslun

# Cameo 2

## Cyd-destun

**Mae ymarferwyr dosbarth Blwyddyn 1 yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigymell yn yr amgylchedd dysgu sy'n gyfoeth o iaith. Daw llawer o ddysgwyr o gartrefi di-Gymraeg ac nid ydynt yn clywed yr iaith yn rheolaidd yn eu cymuned leol.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Wrth i ymarferwyr hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, mae dysgwyr yn cynnal sgyrsiau yn y Gymraeg yn ddigymell, yn yr ystafell ddosbarth ac o amgylch yr ysgol. Maent yn cyd-chwarae â'i gilydd yn hyderus ar y buarth mewn amrywiaeth o weithgareddau, ac yn annog eu cyfoedion ifanc i chwarae gemau buarth er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn naturiol, er enghraifft 'Mae'r ffermwr eisiau gwraig'. Maent yn caffael y Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol a llai ffurfiol, ac yn ymestyn eu geirfa a'u patrymau cystrawennol yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn dosbarthu tocynnau iaith i ddysgwyr sy'n awyddus i siarad Cymraeg yn ddigymell yn yr ysgol. Mae'r dysgwr â'r nifer fwyaf o docynnau yn dewis crys T Cymreig i'w brynu oddi ar wefan i'w wisgo ar ddiwrnodau penodol i ddathlu'r Gymraeg fel cydnabyddiaeth gadarnhaol o'u hymdrechion.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfathrebu'n frwdfrydig yn y Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae dysgwyr hŷn yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ymhlith dysgwyr iau yn llwyddiannus drwy arwain gemau buarth â nhw drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn gweld gwerth mewn defnyddio'r iaith ac yn gwisgo eu crysau T â balchder i ddathlu eu Cymreictod. Mae hyn yn dwysau eu balchder yn y Gymraeg ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu hagweddau tuag at ddatblygu eu medrau iaith ymhellach.

Yn ôl i'r braslun

# Cameo 3

## Cyd-destun

**Darparu cyd-destun ymarferol i ddysgwyr ddatblygu eu medrau gwrando a siarad yn effeithiol, er enghraifft drwy ofyn ac ateb cwestiynau'n gywir.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?



Mae athro sy'n addysgu dysgwyr ym Mlynyddoedd 4, 5 a 6 yn creu sefyllfa llys barn fel rhan o thema'r dosbarth ar 'Ferched Beca'. Mae'r ymarferydd yn cyflwyno gwybodaeth am y cyd-destun hanesyddol i'r dysgwyr, yn rhoi tystiolaeth i'r dysgwyr o'r rhesymau o blaid ac yn erbyn y terfysgoedd, ac yn ategu eu barnau â rhesymau dilys wrth benderfynu ar dynged Twm Carnabwth yn y llys barn. Mae'r ymarferydd yn datblygu gallu'r dysgwyr i ofyn ac ateb cwestiynau'n gywir, er enghraifft 'Ydy Twm Carnabwth yn euog neu'n ddieuog?', gyda'r dysgwyr yn ateb drwy ddweud 'Ydy' neu 'Nac ydy' yn gywir, ac 'Oes digon o dystiolaeth i'w ddedfrydu?', gyda'r dysgwyr yn ymateb 'Oes' neu 'Nac oes', ac yn ategu eu barnau â rhesymau a thystiolaeth ddilys.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r ymarferydd yn datblygu eu dealltwriaeth o ofyn ac ateb cwestiynau sy'n ramadegol gywir mewn cyd-destun hanesyddol pwysig sy'n lleol i'r ysgol.

< Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau | Argymhellion | Dysgu | Darpariaeth | Arweinyddiaeth
Cameos | Cymorth dysgu proffesiynol | Atodiadau

# Cameo 4

## Cyd-destun

**Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu'r defnydd o iaith benodol yn seiliedig ar weithgaredd, fel berfau gorchmynnol, wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd mentergarwch fel broliant gwerthu fel rhan o'u thema ar gadw'n iach.**


## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol a dilys, fel gweithgareddau mentergarwch, sy'n ennyn diddordeb dysgwyr yn effeithiol. Maent yn gosod her i ddysgwyr i greu cryno ddisg i hyrwyddo ymarferion addysg gorfforol gwahanol fel rhan o brosiect byw'n iach. Mae'r dysgwyr yn creu sgriptiau â chyfarwyddiadau ar gyfer yr ymarferion hyn ac yn eu recordio drwy ddefnyddio dyfeisiau electronig. Mae oedolion yn annog dysgwyr i ddefnyddio terminoleg ac ymadroddion penodol, ynghyd â berfau gorchmynnol fel 'Lledwch eich coesau ac ymestynnwch eich breichiau yn uchel at y nenfwd er mwyn gwneud siâp seren'. Mae dysgwyr yn gwerthu'r adnodd yn y ffair ysgol ac yn gwneud elw o'r fenter. Mae eu cyfoedion yn yr ysgol a'r gymuned yn defnyddio'r cryno ddisg i gymryd rhan yn y sesiynau ymarfer corff gartref.

## Beth yw'r effaith?

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gweld budd i'r Gymraeg drwy ei defnyddio'n ymarferol mewn gweithgaredd sydd wedi esblygu o'u syniadau nhw. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safon eu hiaith lafar, a'u hiechyd a lles. Maent hefyd yn hyrwyddo'r defnyddio o'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned leol yn llwyddiannus.

Yn ôl i'r braslun



# Cameo 5

## Cyd-destun

**Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i ddysgwyr gynllunio stori â nhw ar lafar.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae'r ymarferwyr yn adrodd stori gyfarwydd i'r dysgwyr i ddatblygu eu medrau gwrando a'u gallu i alw manylion i gof. Wrth ddarllen y stori, mae dysgwyr yn clywed ac yn ailadrodd agweddau ar iaith, er enghraifft ffurf gryno'r ferf ac adferfau: 'cerddodd yn araf' a 'brasgamodd yn hyderus'. Wrth ailadrodd y stori, maent yn gwneud cyfres o ystumiau a symudiadau corfforol fel cymorth cof ar gyfer agweddau ieithyddol gwahanol, er enghraifft drwy glicio'u bysedd wrth ddefnyddio agoriad gwahanol a chlapio ddwywaith i gyfeirio at ddefnyddio ansoddair.

Wrth i ddysgwyr gydweithio â'i gilydd i greu eu stori lafar eu hunain, maent yn dilyn y strwythur cyfarwydd hwn fel canllaw. Yn aml, maent yn cydweithio â phartner i ddatblygu ymadroddion disgrifiadol, er enghraifft drwy ddefnyddio cyffelybiaethau i greu darlun o ymlwybro drwy goedwig dywyll. Wrth drafod eu syniadau, mae dysgwyr yn 'cipio' eu syniadau ei gilydd drwy ddefnyddio awgrymiadau gorau eu cyfoedion i ddatblygu stori gyda'i gilydd ar lafar. Er enghraifft, yn hytrach na bod y dysgwr yn dweud 'Aeth yr anghenfil yn gyflym', mae'n ymestyn hyn drwy ddweud 'Ymlwybrodd yr anghenfil blin yn chwim fel bollt o wn'. Wrth i'r ymarferwyr gofnodi'r stori ar ffurf delweddau ac iaith syml, maent yn

arwain y dysgwyr i gydadrodd y stori newydd. Mae'r ymarferwyr yn eu hannog i ddefnyddio'r ystumiau maent wedi dod yn gyfarwydd â nhw fel cymorth cof.

## Beth yw'r effaith?

Maent yn datblygu eu medrau gwrando yn effeithiol drwy wrando ar storïau cyfarwydd ac efelychu ystumiau a symudiadau amrywiol i'w helpu i gofio strwythurau iaith gwahanol.

Wrth i'r dysgwyr wrando ar storïau eu cyfoedion, maent yn efelychu eu hawgrymiadau ambell waith ac yn datblygu eu medrau llefaredd yn llwyddiannus. Wrth iddynt ailadrodd y strwythurau iaith, ynghyd â'r ystumiau a'r symudiadau, maent yn mewnoli geirfa ac ymadroddion newydd.

Yn ôl i'r braslun

# Darllen a meithrin diwylliant o ddarllen

## Cameo 1

### Cyd-destun

**Mae ymarferwyr yn dilyn rhaglen systematig i gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth ffonolegol.**

### Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferwyr yn addysgu llythrennau'r wyddor i ddysgwyr wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau iaith dyddiol. Maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau, gan gynnwys ailadrodd, i helpu dysgwyr i adnabod llythrennau'n llwyddiannus fel dull systematig a chyson o addysgu ffoneg. Er enghraifft, maent yn addysgu ystum i ddysgwyr i gyd-fynd â phob sain fel ffordd i helpu dysgwyr i gofio'r seiniau sy'n cyfateb i lythrennau penodol. O fewn y dull systematig a chyson, mae dysgwyr:

- yn adnabod seiniau llythrennau unigol
- yn seinio, adnabod a ffurfio llythrennau, yn cyfuno ac yn segmentu geiriau
- yn cyfateb pob llythyren unigol o'r wyddor i'w sain unigryw, yn seinio, adnabod a ffurfio llythrennau dwbl
- yn darllen testun syml sy'n defnyddio patrwm ailadroddus
- yn adnabod, darllen a sillafu geiriau aml eu defnydd
- yn darllen geiriau cyfarwydd yn rhugl, yn trafod cyd-destun yn synhwyrol ac yn darllen â mynegiant a goslef

Yn aml, mae ystumiau penodol yn gymorth cof i ddysgwyr ifanc er mwyn iddynt gofio a chymhwyso'r wybodaeth y maent wedi'i dysgu. Caiff hyn ei chefnogi drwy recordio ac addasu'r ystumiau ar god ymateb cyflym (Quick Response) er mwyn i'r dysgwyr allu manteisio arno'n rhwydd.

Mae dysgwyr y mae angen mwy o gymorth arnynt â'u gwybodaeth a dealltwriaeth o ffoneg yn parhau â'r strategaeth gyson mewn grwpiau llai am gyfnod penodol.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth am ffoneg yn effeithiol. Maent yn creu'r cysylltiad rhwng iaith lafar a ffurf llythrennau, ac maent yn cymhwyso eu gwybodaeth yn y ddarpariaeth estynedig a pharhaus.



Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau Argymhellion Dysgu Darpariaeth Arweinyddiaeth
Cameos Cymorth dysgu proffesiynol Atodiadau

# Cameo 2

## Cyd-destun

**Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ffoneg yn effeithiol mewn gweithgareddau ymarferol yn yr awyr agored yn y cyfnod sylfaen.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferwyr yn trefnu bod dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau ac yn cymryd rhan mewn ras rwystrau wrth gasglu llythrennau i adeiladu geiriau sy'n ymwneud â thema'r dosbarth, sef 'Ar lan y môr'. Maent yn datblygu eu medrau o ran gwrando ar gyfarwyddiadau, yn aros eu tro ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y gweithgaredd. Maent hefyd yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol drwy gymryd rhan mewn ras rwystrau, er enghraifft drwy fynd ar gefn beic, ochrgamu â phêl a neidio dros glwydi i gasglu'r llythrennau. Pan fyddant yn dychwelyd i'r grŵp, maent yn adeiladu'n effeithiol ar eu medrau cyfuno drwy ddewis y llythrennau perthnasol i ffurfio geiriau cyfarwydd, er enghraifft 'rhedeg', 'cerdded', 'ymlusgo'.

## Beth yw'r effaith?

Gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd cadarn yn eu medrau darllen drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, hwyliog yn yr awyr agored. Maent yn galw eu profiadau i gof mewn gweithgareddau ffoneg ffurfiol ac yn atgyfnerthu eu medrau darllen yn llwyddiannus.



< Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau | Argymhellion | Dysgu | Darpariaeth | Arweinyddiaeth | Cameos | Cymorth dysgu proffesiynol | Atodiadau

# Cameo 3

## Cyd-destun

**Mae ymarferydd yn datblygu medrau Saesneg dysgwyr Blwyddyn 2 yn effeithiol yn ystod tymor yr haf cyn iddynt bontio i Flwyddyn 3, drwy ddefnyddio eu datblygiad yn y Gymraeg yn ystod eu hamser yn y cyfnod sylfaen.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferydd yn darllen stori gyfarwydd i ddysgwyr yn Gymraeg a Saesneg fel modd i ddatblygu medrau iaith a llythrennedd Saesneg dysgwyr, yn seiliedig ar eu medrau iaith a llythrennedd Cymraeg. Mae'n trafod plot a nodweddion y stori yn Saesneg am y tro cyntaf ym mhrofiad addysgol y dysgwyr mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ar ôl iddynt ymgyfarwyddo â'r testun drwy drafod y stori drwy gyfrwng y Saesneg, maent yn darllen y testun o'r 'llyfr mawr' gyda'i gilydd. Mae'r ymarferydd yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar iaith, er enghraifft patrymau sillafu anghyfarwydd mewn geiriau aml eu defnydd a'r defnydd gwahanol o ansoddeiriau yn y ddwy iaith hynny yw 'red cloak' yn lle 'clogyn coch' yn stori 'Hugan Fach Goch'. Mae dysgwyr yn mapio'r stori gyfarwydd ac mae'r ymarferydd yn darparu dechrau'r brawddegau a geirfa Saesneg syml, berthnasol fel fframwaith i'w cynorthwyo. Mewn grwpiau, mae'r dysgwyr yn ysgrifennu'r stori ar ddarn mawr o bapur fel canllaw iddynt ei hailadrodd i ddysgwyr Blwyddyn 1.

Wedi iddynt symud i Flwyddyn 3, mae ymarferydd yn cynllunio gweithgareddau'n ofalus ac yn darparu dull cyfannol i ddatblygu'r medrau hyn, drwy gyfeirio'n effeithiol at y broses drochi y maent wedi cael profiad ohoni fel rhan o'u proses o gaffael y Gymraeg.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r cyfnod pontio hwn o ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o Saesneg yn agwedd bwysig ar ddysgu Saesneg mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg, er ei bod yn iaith sgwrsio gyfarwydd i'r rhan fwyaf o ddysgwyr.

Mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth a'u hyder yn y Saesneg yn llwyddiannus drwy ddefnyddio stori gyfarwydd. Cânt eu cyflwyno i'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng yr ieithoedd ac maent yn creu cysylltiadau rhyngddynt, fel y ffaith bod yr ansoddair yn dilyn yr enw yn y Gymraeg, yn gyffredinol, er enghraifft 'blodau lliwgar' o gymharu â *'colourful flowers'* yn Saesneg.



Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau Argymhellion Dysgu Darpariaeth Arweinyddiaeth
Cameos Cymorth dysgu proffesiynol Atodiadau


# Cameo 4

## Cyd-destun

**Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau darllen yn effeithiol drwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau darllen.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferwyr yn defnyddio ac yn atgyfnerthu strategaethau darllen wrth ddatblygu medrau darllen dysgwyr. Mae dysgwyr yn dewis y strategaeth fwyaf addas mewn amrywiaeth o weithgareddau ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth gywain a choladu gwybodaeth am ba ddeunydd yw'r ynysydd gorau i gadw cawl yn boeth, a ffeithiau am brofiadau dysgwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Dros amser, mae dysgwyr yn defnyddio'r strategaethau hyn yn fwyfwy hyderus, ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm wrth iddynt symud drwy'r ysgol.



## Beth yw'r effaith?

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr yr hyder i ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau darllen mewn gwahanol gyd-destunau dysgu. Trwy ddefnyddio'r strategaethau hyn yn gyson dros amser, gallant fanteisio ar wybodaeth o ystod o ffynonellau at ddibenion gwahanol.

Yn ôl i'r braslun

# Ysgrifennu

## Cameo 1

### Cyd-destun

**Mae arweinydd ysgol yn gwneud trefniadau i Theatr Mewn Addysg berfformio sioe hanesyddol am yr Ail Ryfel Byd i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 2.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?



Mae dysgwyr yn gwrando ar, ac yn mwynhau, sioe hanesyddol am y bardd, Hedd Wyn. Trwy'r ddrama fywgraffiadol hon, mae'r actor yn cyfathrebu â'r gynulleidfa drwy rannu ffeithiau, storïau ac emosiynau drwy ddefnyddio iaith gywir a choeth. Mae'r actor yn rhyngweithio â'r dysgwyr drwy eu gwahodd i fod yn rhan o'r ddrama. Ar y cyd â'r ymarferydd, mae'r actor yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu geirfa drwy eu cyflwyno i iaith newydd, fel 'ffrith', 'ffosydd' ac 'awen'. Mae'n annog dysgwyr i ymateb i gwestiynau ar ddiwedd y perfformiad drwy ailadrodd geirfa a phatrymau cystrawennol a gyflwynwyd yn ystod y perfformiad. Ar ôl dychwelyd i'r ystafell ddosbarth, maent yn defnyddio'r eirfa newydd a gaffaelwyd yn llwyddiannus wrth ysgrifennu dyddiaduron ac ymsonau am y bardd.

## Beth yw'r ffaith?

Trwy'r testun Arwyr Cymru, mae dysgwyr yn cydweithio ag actor i ddatblygu eu medrau gwrando a siarad Cymraeg yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio iaith newydd a gaffaelwyd i drafod y bardd ac yn datblygu eu defnydd o batrymau cystrawennol yn eu gwaith llafar ac ysgrifennu, o'r profiad o wylio perfformiad o ddrama.

< Yn ôl i'r braslun

# Cameo 2

## Cyd-destun

**Mae ymarferwyr a dysgwyr yn cynllunio gweithgareddau diddorol ar y cyd, sy'n defnyddio'r gymuned leol fel adnodd gwerthfawr i hyrwyddo dysgu ymhellach.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o adnoddau i ddysgwyr, er enghraifft mapiau o'u hardal amaethyddol leol, ac yn gwahodd aelodau o'r gymuned i'r ysgol i drafod enwau gwahanol ffermydd a chaeau. Maent yn cyflwyno geiriau rhanbarthol i ddysgwyr, fel 'trabwr', ac yn eu hannog i ymgorffori'r geiriau hyn a'r dafodiaith yn eu hysgrifennu creadigol, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu dyddiadur plentyn o'r ganrif ddiwethaf. Mae defnyddio geiriau sydd wrth wraidd eu cymuned yn eu hysgrifennu yn helpu'r dysgwyr i greu darnau ysgrifenedig dychmygus, dilys.

## Beth yw'r effaith?

Mae'r gweithgareddau ystyrlon hyn yn ennyn a chynnal diddordeb bron pob un o'r dysgwyr mewn dysgu iaith, er enghraifft am forffoleg a geirdarddiad, ac yn cryfhau eu balchder yn y gymuned leol. Mae dysgwyr hefyd yn dod i ddeall a gwerthfawrogi tafodiaith sy'n unigryw i'w cymuned leol. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiad o iaith.

< Yn ôl i'r braslun

# Cameo 3

## Cyd-destun

**Mae dysgwyr Blwyddyn 5 a 6 yn cael hyfforddiant diogelwch y ffyrdd gan swyddogion diogelwch yr awdurdod lleol.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae'r ymarferydd yn manteisio ar weithgareddau ymarferol diogelwch y ffyrdd i ddatblygu medrau siarad, ysgrifennu a thechnoleg gwybodaeth dysgwyr. Wrth i'r dysgwyr gael hyfforddiant ar sut i feicio'n ddiogel drwy ddangos yn glir eu bod yn bwriadu newid cyfeiriad drwy ddefnyddio signalau breichiau, mae'r ymarferydd yn cynllunio gweithgareddau iaith sy'n ymwneud â'r profiad hwn. Er enghraifft, mae'r dysgwyr yn ysgrifennu sgript i gofnodi deialog rhwng llygad-dystion a'r heddlu am ddamwain rhwng beiciwr nad oedd yn gwisgo helmed, a char. Maent yn creu poster yn amlinellu cyfarwyddiadau i ddysgwyr ifanc ar sut i groesi'r ffordd yn ddiogel, ac adroddiad papur newydd am yr angen am groesfan i gerddwyr er mwyn i blant gerdded i'r ysgol yn ddiogel yn y gaeaf. Mae dysgwyr yn cymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth yn fedrus drwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau technolegol i gofnodi eu gwaith ysgrifenedig yn cael ei ddarllen a'i berfformio ar ffurf cameo byr.

## Beth yw'r effaith?

Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau siarad ac ysgrifennu, yn ogystal â'u medrau technoleg gwybodaeth, ac yn llwyddo i ennill gwobr mewn cystadleuaeth genedlaethol ar gyfer diogelwch y ffyrdd.

< Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau | Argymhellion | Dysgu | Darpariaeth | Arweinyddiaeth
Cameos | Cymorth dysgu proffesiynol | Atodiadau

# Arweinyddiaeth a gweledigaeth

## Cameo 1

### Cyd-destun

**Mae arweinwyr yn gweithredu'n fwriadus ar eu gweledigaeth drwy sicrhau darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg ar safle'r ysgol.**

### Beth mae arweinwyr yn ei wneud?

Mae'r pennaeth yn gweithredu ei weledigaeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg o oed cynnar iawn hyd nes bydd dysgwyr yn dechrau yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn cynllunio'n strategol drwy wahodd rhieni a gofalwyr i'r ysgol a chydweithio'n llwyddiannus â nhw wrth iddynt ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant, yn hytrach nag addysg cyfrwng Saesneg.

Mae babanod o chwe mis oed hyd at oed addysg statudol yn cael darpariaeth gofal plant hynod effeithiol ar safle'r ysgol. Mae dysgwyr o bob cefndir ieithyddol yn caffael y Gymraeg o oed cynnar iawn. Wrth i'r plant ddatblygu, maent yn mynychu darpariaeth meithrin yr ysgol ac yn cael eu trochi yn y Gymraeg. Mae pob ymarferydd yn cydweithio â'i gilydd yn llwyddiannus drwy ddilyn cynllun iaith. Maent yn parhau â'r dulliau addysgu a dysgu sy'n cael eu cyflwyno i'r plant yn y lleoliadau gofal plant. O ganlyniad, gwna dysgwyr gynnydd cadarnhaol yn eu medrau iaith a llythrennedd wrth fynychu'r ddarpariaeth meithrin.

## Beth yw'r effaith?

Yn dilyn profiadau cadarnhaol dysgwyr o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y lleoliad yn ystod y blynyddoedd cynnar, mae rhieni a gofalwyr yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Mae'r ddarpariaeth wedi'i threfnu a'i rheoli gan asiantaeth allanol, sy'n cael ei harwain yn annibynnol ar yr ysgol, ond mae'r pennaeth yn ymddiriedolwr o fewn strwythurau'r ddarpariaeth. Mae cysondeb rhwng y ddarpariaeth gofal plant a'r cyfnod sylfaen yn yr ysgol yn cefnogi dysgu'r plant yn dda. Mae'r bartneriaeth gref rhwng ymarferwyr yn cefnogi rhieni a gofalwyr yn eu penderfyniad i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. O ganlyniad i gynllunio a gweithredu bwriadus arweinwyr, mae llawer o rieni a gofalwyr yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.



Yn ôl i'r braslun

Canfyddiadau Argymhellion Dysgu Darpariaeth Arweinyddiaeth
Cameos Cymorth dysgu proffesiynol Atodiadau

# Cameo 2

## Cyd-destun

**Mae ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o ieithoedd ychwanegol.**

## Beth mae ymarferwyr yn ei wneud?

Mae ymarferwyr yn dwysau dealltwriaeth dysgwyr o strwythur y Gymraeg ac ieithoedd eraill, hynny yw sut mae ieithoedd yn gweithio, wrth gael eu trochi yn yr iaith ychwanegol. Maent yn manteisio ar ddysgwyr sydd ag ieithoedd amrywiol fel eu hiaith gyntaf ar yr aelwyd, ac yn defnyddio asiantaethau allanol fel ysgolion uwchradd a phrifysgolion lleol i addysgu ieithoedd ychwanegol i ddysgwyr, heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg.

## Beth yw'r effaith?

Trwy weithgareddau difyr, mae dysgwyr yn caffael y Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill yn llwyddiannus ac yn creu cysylltiadau rhwng agweddau gwahanol ar iaith, er enghraifft tarddiad geiriau a strwythur patrymau cystrawennol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus ac yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gynyddol o ieithoedd ychwanegol a gyflwynwyd iddynt fel rhan o'r ddarpariaeth erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.

< Yn ôl i'r braslun

# Gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

## Cameo 3

### Cyd-destun

**Mae arweinwyr lleoliad nas cynhelir dwyieithog a'r ysgol gynradd leol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr i'w hannog i fynychu'r ysgol cyfrwng Cymraeg leol.**

### Beth mae arweinwyr ac ymarferwyr yn ei wneud?

Yn ystod cyfnod dysgwyr yn y ddarpariaeth nas cynhelir, mae arweinwyr yr ysgol a'r cyfnod sylfaen yn cydweithio'n agos ag arweinydd y lleoliad nas cynhelir. Wrth i'r plant fynychu'r ddarpariaeth feithrin ddwyieithog, maent yn gwahodd rhieni a gofalwyr i gyflwyniad yn yr ysgol gynradd yn ystod tymor yr hydref er mwyn iddynt fynd ar daith o amgylch yr ysgol, ac i rannu gwybodaeth am gaffael iaith a sut maent yn datblygu medrau Cymraeg dysgwyr. Maent yn trafod egwyddorion y cyfnod sylfaen ac yn manylu ar y dulliau dysgu cyson yn y lleoliad a'r ysgol i ddarparu pontio esmwyth i ddysgwyr, er enghraifft datblygu eu medrau siarad wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad corfforol. Maent yn cadarnhau bod gwybodaeth yn cael ei hanfon adref yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob gweithgaredd yn y dosbarth meithrin, fel canllaw i rieni a gofalwyr gefnogi eu plant gartref wrth iddynt gaffael y Gymraeg.

Yn ogystal, maent yn trefnu i gynrychiolwyr o'r Fenter Iaith leol, yr Urdd a darparwyr Dysgu Cymraeg ddod i annerch rhieni a gofalwyr yn ystod y cyflwyniad. Maent yn ymhelaethu ar y ddarpariaeth allgyrsiol sydd ar gael i'w plant drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt fel rhieni a gofalwyr i gefnogi eu plant wrth iddynt gaffael y Gymraeg.

## Beth yw'r effaith?

Mae rhieni a gofalwyr yn cael gwybodaeth gynhwysfawr gan ymarferwyr yn y lleoliad a'r ysgol wrth iddynt ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Cânt wybodaeth uniongyrchol mewn da bryd i wneud penderfyniad bwriadus, ac i gadarnhau bod cefnogaeth ar gael i'r teulu cyfan yn ystod cyfnod eu plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn trosglwyddo o'r ddarpariaeth nas cynhelir i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus.

< Yn ôl i'r braslun



# Cymorth dysgu proffesiynol



# Meddwl am eich arfer eich hun wrth gynllunio ar gyfer dysgu

**Gallwch ddarllen am yr arfer effeithiol sy'n cefnogi'r bennod hon ar yr amgylchedd dysgu a chynllunio ar gyfer dysgu ar dudalennau 57 i 62.**

## Cwricwlwm i Gymru

Ym maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu ystyriaethau allweddol ar gyfer ysgolion wrth gynllunio darpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn yr holl ieithoedd y byddant yn eu cynnig i'w dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2020b, tt.159-160).

### Darpariaeth a phrofiadau

- Sut byddwch chi'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn siarad cynlluniedig mewn cyd-destunau amrywiol gydag ystod eang o gyfoedion ac oedolion, yn ogystal â siarad digymell?
- Sut byddwch chi'n creu amgylchedd sy'n annog dysgwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth am nifer o ieithoedd, yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaethau iaith (acen, tafodiaith, cwmpas, jargon, ac idiolect) i hwyluso dealltwriaeth a gwella cyfathrebu wrth ryngweithio â phobl eraill?
- Sut byddwch chi'n darparu ystod eang o lenyddiaeth ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys testunau aml-ddull a heriol mewn ffurf bapur, ddigidol, electronig a byw, gan feithrin eu mwynhad o ddarllen a gwylio pwrpasol a'u hannog i archwilio llyfrau a thechnolegau newydd?

Mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, efallai y byddwch yn dymuno ystyried y canlynol hefyd:

- sut byddwch chi'n sicrhau amgylcheddau cyfoethog o ran iaith ar gyfer yr holl ddysgwyr a fydd yn eu cynorthwyo i gaffael a gwella eu medrau Cymraeg?
- sut byddwch chi'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr wrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad fel rhan o'r broses drochi?
- sut byddwch chi'n darparu amrywiaeth o weithgareddau ffurfiol a llai ffurfiol ar gyfer dysgwyr er mwyn iddynt siarad Cymraeg yn hyfedr ac yn hyderus dros gyfnod?

## Datblygiad iaith

- Sut byddwch chi'n sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn parhau i wneud cynnydd ym mhob un o'u hieithoedd o'u gwahanol fannau cychwyn?
- Sut byddwch chi'n sicrhau amgylcheddau cyfoethog o ran iaith ar gyfer yr holl ddysgwyr, yn cynnwys amgylcheddau amlieithog, wyneb yn wyneb trwy iaith ddigidol / ieithoedd digidol neu ysgrifenedig, fel model ar gyfer gwella eu medrau iaith eu hunain?
- Sut byddwch chi'n cefnogi darllen ar gyfer yr holl ddysgwyr?
- Pa symbyliadau perthnasol, difyr, dilys a heriol allwch chi eu darparu i ysbrydoli a chynorthwyo paratoi ar gyfer siarad ac ysgrifennu pwrpasol (dan do, yn yr awyr agored, trwy ymweliadau, ac ati)?
- Sut byddwch chi'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr wneud cynnydd mewn dysgu i siarad a dysgu trwy siarad?

- Sut byddwch chi'n sicrhau bod gwybodaeth a medrau mewn un iaith yn trosglwyddo i ieithoedd eraill, a'u datblygu ynddynt?

Mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, efallai y byddwch yn dymuno ystyried y canlynol hefyd:

- sut byddwch chi'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr wneud cynnydd wrth ddatblygu eu medrau gwrando a siarad?
- sut byddwch chi'n datblygu medrau trawsieithu dysgwyr i gefnogi eu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm?
- sut byddwch chi'n defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n briodol i oedran a gallu dysgwyr fel eu bod yn gallu dehongli a deall ystyr geiriau anghyfarwydd, a ph'un a allant gyfleu'r prif bwyntiau neu themâu o ieithoedd eraill yn llwyddiannus?

## Ystyriaethau wrth ddewis llenyddiaeth

**Dylai ysgolion:**

- greu diwylliant darllen cadarnhaol sy'n trochi dysgwyr mewn llenyddiaeth sy'n adlewyrchu eu diddordebau ac yn tanio eu brwdfrydedd
- dewis llenyddiaeth sy'n ddigon cyfoethog a sylweddol i ennyn diddordeb dysgwyr yn ddeallusol ac yn emosiynol, ac sy'n gallu eu hannog i gael eu hysbrydoli, eu cyffwrdd a'u newid
- sicrhau bod dysgwyr yn profi ystod o lenyddiaeth gyfoes, a llenyddiaeth o gyfnodau yn y gorffennol

Mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, efallai y byddwch yn dymuno ystyried y canlynol hefyd:

- sut rydych chi'n sicrhau bod dysgwyr yn gallu elwa ar ystod eang o lenyddiaeth draddodiadol a chyfoes sy'n unigryw i'r Gymraeg, er mwyn cyfoethogi eu gwybodaeth am forffoleg, orgraff ac etymoleg, a'u dealltwriaeth ohonynt, a gwerthfawrogi tafodiaith ac idiomau unigryw gwahanol ardaloedd o Gymru, yn ogystal

**Dylai dysgwyr:**

- brofi cyfoeth o lenyddiaeth sy'n darparu cyfleoedd i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm
- cael eu hamlygu i ystod amrywiol o brofiadau llenyddol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth
- cael eu cyflwyno i lenyddiaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth a diwylliannau yn yr ardal, Cymru a'r byd ehangach
- cael cyfle i brofi a dysgu am lenyddiaeth a chrewyr llenyddiaeth sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol, boed hynny yng Nghymru, mewn gwledydd eraill yn y DU, a/neu'r byd ehangach

Mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog, efallai y byddwch yn dymuno ystyried y canlynol:

- sut mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i wrando ar lenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg gan awduron Cymraeg, a'u gwerthfawrogi, ac nid addasiadau o ieithoedd eraill yn unig

## Eich arfer

Ar ôl darllen y bennod hon o'r adroddiad, efallai yr hoffech fyfyrio ar eich arfer bresennol o ran datblygu dulliau trochi a medrau iaith a llythrennedd dysgwyr. Ystyriwch y cwestiynau o ganllawiau'r *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b) a'r cwestiynau isod. Gallai'r cwestiynau hyn helpu llywio'ch meddwl wrth i chi gynllunio eich cwricwlwm ar gyfer y maes dysgu a phrofiad hwn:

- Beth yw cryfderau'r dulliau trochi a ddefnyddir fel rhan o'r broses i ddysgwyr gaffael y Gymraeg?
- Beth yw'r cryfderau mewn addysgu a dysgu profiadau dysgu iaith a llythrennedd yn eich dosbarth, ac yn eich ysgol?
- Pa feysydd yw'r rhai nad ydynt mor gryf? Beth yw'r rhesymau am hyn?

Nawr, meddyliwch am sut byddwch chi'n adeiladu ar y cryfderau presennol ar gyfer datblygu medrau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu dysgwyr:

- Beth sydd angen ei wella?
- Beth sydd angen ei newid yn sgil canllawiau Llywodraeth Cymru?
- Beth sy'n newydd?
- Sut gallech chi fynd i'r afael â'r meysydd nad ydynt yn ddigon cryf, pan fyddwch yn cynllunio eich cwricwlwm Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu?

# Meddwl am eich arfer eich hun o ran datblygu medrau iaith dysgwyr trwy drochi

**Gallwch chi ddarllen mwy am arfer effeithiol o ran datblygu medrau iaith dysgwyr trwy ddulliau trochi ar dudalennau 63 i 66.**

Mae arferion trochi yn nodweddu darpariaeth mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, a ffrydiau cyfrwng Cymraeg mewn darparwyr dwyieithog. Maent yn cyfrannu'n llwyddiannus o ran datblygu dysgwyr sy'n hyderus yn eu medrau Cymraeg a Saesneg, fel ei gilydd.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau iaith dysgwyr trwy ddulliau trochi fel rhan annatod o'r broses addysgu a dysgu. Caiff dysgwyr sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg gartref, neu ddim Cymraeg o gwbl, eu cyflwyno i eirfa a phatrymau cystrawen newydd, er mwyn iddynt allu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn hyfedr erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

## Eich arfer

Efallai y byddwch yn dymuno defnyddio'r cwestiynau hyn fel man cychwyn i'ch helpu i fyfyrio ar eich arfer a'ch darpariaeth eich hun ar gyfer trochi disgyblion yn y Gymraeg:

- Pa mor dda y mae'r amgylchedd dysgu yn cefnogi ac yn hyrwyddo trochi yn y Gymraeg?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod ymarferwyr yn deall y modd mae dysgwyr yn caffael y Gymraeg, a methodoleg trochi iaith, i bob pwrpas?

- A oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr wrando ar y Gymraeg, a siarad Cymraeg, mewn amrywiaeth o weithgareddau ffurfiol ac anffurfiol?
- Sut ydych chi'n cynorthwyo dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi manteision gallu sgwrsio yn Gymraeg, ac yn Saesneg?

**Cynllunio**

- Sut ydych chi'n sicrhau bod eich cynllunio yn diwallu anghenion dysgwyr mewn perthynas â'u gwahanol fannau cychwyn a'u cynnydd o ran caffael iaith?
- Beth sydd angen ei wella pan fyddwch chi'n cynllunio gweithgareddau dilynol sy'n cefnogi dysgwyr i ddatblygu eu geirfa a'u patrymau cystrawennol ar draws y cwricwlwm?
- Pa feysydd cynllunio ar gyfer trochi yw'r rhai nad ydynt mor gryf? Beth yw'r rhesymau am hyn?

**Addysgu ac asesu**

- Sut ydych chi'n addasu eich addysgu i sicrhau bod dysgwyr o wahanol gefndiroedd ieithyddol yn gwneud cynnydd addas o ran caffael y Gymraeg?
- Pa ddulliau ydych chi'n eu defnyddio i gefnogi dysgwyr i gaffael yr iaith?
- Pa mor effeithiol y mae pob un o'r ymarferwyr yn modelu iaith?
- Sut ydych chi'n cyflwyno ac atgyfnerthu geirfa a phatrymau cystrawennol newydd i ddysgwyr?

- Sut ydych chi'n cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau gwrando a siarad mewn gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol, fel ei gilydd?
- Pa mor dda ydych chi'n cefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o orgraff fel rhan o'r ddarpariaeth ddarllen?
- Pa strategaethau a ddefnyddir i ddatblygu medrau gwrando, siarad ac ysgrifennu dysgwyr ar draws pob maes dysgu? Pa mor effeithiol ydyn nhw'n cefnogi dysgwyr i wneud cynnydd yn yr holl fedrau dros gyfnod?
- Pa mor dda ydych chi'n defnyddio adnoddau, gan gynnwys rhai amlgyfrwng, i ddatblygu medrau dysgwyr o ran caffael iaith?
- Sut ydych chi'n annog dysgwyr i gymryd perchnogaeth o'u datblygiad iaith eu hunain?

# Meddwl am eich arfer eich hun mewn darllen a meithrin diwylliant darllen

**Gallwch chi ddarllen mwy am arfer effeithiol o ran datblygu medrau darllen dysgwyr a manteision meithrin diwylliant darllen ar gyfer dysgwyr ar dudalennau 90 i 99.**

## Eich arfer

**1. Meddwl am yr hyn y mae dysgwyr yn ei ddarllen**

Efallai yr hoffech chi edrych ar y canllawiau Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b) a chysylltu'r arfer rydym ni wedi'i disgrifio am ddatblygu medrau darllen dysgwyr â'r adrannau canlynol:

**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig**

'Dylid eu hannog [dysgwyr) i brofi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n cynnig mewnwelediad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach. Trwy hyn, wrth i'w dealltwriaeth o'u credoau, diwylliannau a'u profiadau eu hunain a phobl eraill gynyddu, gall dysgwyr ddatblygu eu gallu i ddangos empathi. Yn ei dro, gall hyn gyfrannu at eu lles emosiynol a meddyliol. Gyda'i gilydd, nod y profiadau llenyddol hyn yw tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr a bod o gymorth i feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth'. (Llywodraeth Cymru, 2020b, tud. 128)

O ganlyniad, mae angen i ddysgwyr elwa ar lawer o lenyddiaeth amrywiol a chyfoethog wedi'i hysgrifennu gan awduron a beirdd yn Gymraeg i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o forffoleg, orgraff ac etymoleg dros gyfnod.

A yw'n bwysig i ddysgwyr ddarllen llenyddiaeth a barddoniaeth gan awduron a beirdd Cymraeg?

**Blog Bethan Gwanas:** Pwysigrwydd darllen a syniadau sut i annog plant i siarad am lyfrau (Wordpress, 2019) [Cymraeg yn unig]

**2. A oes ots p'un a yw dysgwyr yn darllen deunydd ffuglen neu ffeithiol?**

Mae ymchwil yn awgrymu bod ots. Efallai yr hoffech chi ddarllen yr erthyglau canlynol ar-lein i archwilio'r cyswllt ymhellach rhwng darllen deunydd ffuglen er mwynhad, a chyrhaeddiad darllen:

- **Book Trust Cymru: Ail-feddwl Darllen er Mwynhad yn y Cwricwlwm Newydd** (Llywodraeth Cymru, 2020d)
- **Fact or fiction? Novels come top for reading skills** (University College London, Institute of Education, 2018) [Saesneg yn unig]
- **Are all types of reading equal, or are some more equal than others?** (Jerrim, 2019) [Saesneg yn unig]

**3. Meddwl am yr hyn y mae athrawon yn ei ddarllen**

Mae tystiolaeth o'n gwaith arolygu mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a Saesneg, fel ei gilydd yn awgrymu nad yw llawer o athrawon efallai'n ddigon cyfarwydd ag ystod amrywiol o awduron a beirdd plant i'w galluogi i feithrin arferion darllen dysgwyr

cystal ag y gallent. Yn gyffredinol, gwelwn fod llawer o athrawon cynradd yn dibynnu ar garfan gyfyngedig o awduron plant, a beirdd, i raddau llai. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i wneud argymhellion priodol am lyfrau, sy'n diwallu anghenion a diddordebau amrywiol dysgwyr, ac yn hyrwyddo darllen annibynnol er pleser. Mae hefyd yn cyfyngu ar y cyfle i ymestyn dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dysgwyr o lenyddiaeth a ysgrifennwyd gan awduron a beirdd Cymraeg.

# Meddwl am eich arfer eich hun o ran datblygu ysgrifennu dysgwyr

**Gallwch chi ddarllen mwy am arfer effeithiol o ran datblygu ysgrifennu dysgwyr ar dudalennau 100 i 105.**

Dyma'r nodweddion cyffredin sydd gan yr adnoddau y mae ysgolion yng Nghymru yn eu defnyddio amlaf i gefnogi eu cynllunio ar gyfer datblygu ysgrifennu dysgwyr:

- Maent yn darparu dull systematig a strwythuredig o addysgu agweddau ar ysgrifennu
- Mae'r adnoddau, y gweithgareddau, y dulliau a'r strategaethau wedi eu cynllunio i gael eu defnyddio ar draws dosbarthiadau mewn dull 'ysgol gyfan'
- Maent wedi eu seilio ar yr egwyddor fod dysgwyr yn dysgu ysgrifennu'n well trwy siarad ac ymarfer syniadau ar lafar cyn ysgrifennu
- Mae pwyslais ar gynllunio ar gyfer ysgrifennu a strwythuro ysgrifennu
- Mae sgaffaldio yn cefnogi'r broses dysgu iaith, ac mae hyn yn cynnwys rhyddhau cyfrifoldeb yn raddol oddi wrth yr athro i'r dysgwr
- Eu nod yw ymestyn gwybodaeth dysgwyr am eirfa, patrymau cystrawen, gramadeg, strwythur brawddeg ac atalnodi, a'u defnydd o'r rhain
- Maent yn darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o forffoleg, etymoleg ac orgraff sy'n unigryw i'r Gymraeg
- Maent yn annog ymarfer ysgrifennu bob dydd
- Eu nod yw gwella gallu dysgwyr i ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig

## Eich arfer

Efallai yr hoffech ystyried y cwestiynau canlynol fel tîm staff. Gallent eich helpu i:

- fyfyrio ynghylch pam rydych chi'n defnyddio'r adnoddau sydd gennych
- ystyried p'un a ydynt yn cefnogi eich cynllunio a'ch addysgu i ddatblygu ysgrifennu dysgwyr yn ddigon da
- meddwl am sut rydych chi'n defnyddio ymchwil a thystiolaeth i lywio eich dewisiadau proffesiynol

**1. Sut ydych chi'n cyflawni disgwyliadau ar y cyd, cyson ac sy'n briodol uchel ar gyfer datblygu ysgrifennu dysgwyr?**

**2. A ddylai pob un o'r athrawon ddefnyddio'r un adnoddau, gyda dulliau a strategaethau cyffredin, i ddatblygu medrau ysgrifennu dysgwyr?**

- Beth yw'r rhesymau dros wneud hyn?
- A oes manteision i fabwysiadu dulliau teilwredig ar gyfer cyfnodau oedran neu grwpiau oedran penodol o ddysgwyr?
- A oes rhai dulliau a strategaethau yn fwy addas i gam penodol o ddysgu iaith, er enghraifft pan fydd dysgwyr yn ysgrifennu yn Gymraeg fel rhan o weithgaredd trawsieithu?
- Sut ydych chi'n sicrhau eich bod yn diwallu anghenion datblygiadol dysgwyr wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r ysgol?
- Sut ydych chi'n sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu ar gyfer ysgrifennu?

**3. Pa mor dda y mae'r adnoddau a'r dulliau yn eich helpu i gynllunio her ddigonol i ddysgwyr mwy abl ddatblygu eu medrau ysgrifennu i safon uchel?**

- A ydynt yn cefnogi disgyblion hŷn a mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 i arbrofi â chyfuniadau o fathau o destun ac arddulliau i weddu i wahanol ddibenion?
- A ydynt yn helpu i ddatblygu ysgrifenwyr hyderus ac aeddfed sy'n gallu defnyddio nodweddion gwahanol ffurfiau?
- Sut ydych chi'n sicrhau nad yw sgaffaldio yn cyfyngu ar ysgrifennu dysgwyr?

**4. A yw'r adnoddau a'r dulliau rydych chi'n eu defnyddio i gynllunio ac addysgu ysgrifennu yn cysylltu'n ddigon agos â darllen dysgwyr, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2?**

# Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

- **Ymweliadau â 15 o ddarparwyr, gan gynnwys lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion cynradd**
- **Adroddiadau arolygu er 2016**

## Yn ystod yr ymweliadau:

- cynhaliwyd cyfweliadau â dysgwyr, ymarferwyr ac arweinwyr
- arsylwyd gwersi i werthuso safonau ac ansawdd yr addysgu
- craffwyd ar ddogfennau, gan gynnwys polisïau iaith a llythrennedd, cynlluniau gwaith, llyfrau dysgwyr, murluniau
- craffwyd ar dystiolaeth arolygu, fel y rhai sy'n hynod lwyddiannus am ddatblygu iaith a llythrennedd dysgwyr
- cynhaliwyd cyfweliadau â swyddogion consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol
- casglwyd tystiolaeth o astudiaethau achos arfer orau Estyn

## Hoffai Estyn ddiolch i'r lleoliadau a'r ysgolion canlynol a gefnogodd yr adolygiad thematig hwn:

Meithrinfa Miri Mawr, Caerdydd

Meithrinfa Seren Fach, Gwynedd

Ysgol Beca, Sir Gâr

Ysgol Bro Teifi, Ceredigion

Ysgol Garth Olwg, Rhondda Cynon Taf

Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon, Casnewydd

Ysgol Gymraeg Dafydd Llwyd, Powys

Ysgol Gymraeg Pen Barras, Sir Ddinbych

Ysgol Gynradd Cae Top, Gwynedd

Ysgol Gynradd Dyffryn Cledlyn, Ceredigion

Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili, Caerffili

Ysgol Gynradd Gymraeg Gwenffrwd, Sir y Fflint

Ysgol Gynradd Rhydypennau, Ceredigion

Ysgol Llanhari, Rhondda Cynon Taf

Ysgol Morfa Nefyn, Gwynedd

# Atodiad 2: Gwybodaeth gefndir am leoliadau ac ysgolion[1]

[1] Daw'r holl wybodaeth gyd-destunol (oni nodir yn wahanol) o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae'r wybodaeth am ddysgwyr ar y gofrestr yn cynnwys dysgwyr o bob oed, ond caiff y canrannau sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, AAA, ethnigrwydd a'r rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol eu cyfrifo ar gyfer dysgwyr o oed ystod statudol yn unig (5 i 15 oed).

Mae **Meithrinfa Miri Mawr** yn feithrinfa cyfrwng Cymraeg nas cynhelir yng Ngogledd Llandaf yng Nghaerdydd.

Mae **Meithrinfa Seren Fach** yn feithrinfa cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ym Mrithdir, ger Dolgellau, yn awdurdod lleol Gwynedd.

Ysgol gynradd Gymraeg yw **Ysgol Beca** sydd wedi'i lleoli ym mhentref Efailwen, yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin. Ym mis Ionawr 2020, roedd 64 o ddysgwyr ar y gofrestr. Cyfartaledd treigl 3 blynedd y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 6%, sy'n is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Mae'r ysgol yn nodi bod gan 23% o'i disgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n unol â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae llawer o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig ac mae tua hanner yn siarad Cymraeg gartref. Daw rhai disgyblion o gefndiroedd lleiafrif ethnig (10%), sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 13%. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae **Ysgol Bro Teifi** yn ysgol ddwyieithog bob oed a gynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion. Ar hyn o bryd, mae 924 o ddisgyblion rhwng 3 a 19 oed ar y gofrestr, ac mae 377 ohonynt yn y cyfnod cynradd. Dros y tair blynedd diwethaf, bu 13% o ddisgyblion y cyfnod cynradd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar gyfartaledd, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 29% o'i disgyblion cynradd anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw bron pob disgybl cynradd o gefndir gwyn Prydeinig. Mae dros hanner y disgyblion cynradd yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae **Ysgol Garth Olwg** yn ysgol cyfrwng Cymraeg bob oed yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae 1,180 o ddisgyblion rhwng 3 a 18 oed ar y gofrestr. Mae 347 o'r disgyblion hynny yn y cyfnod cynradd. Dros y tair blynedd diwethaf, bu tua 7% o ddisgyblion y cyfnod cynradd i gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar gyfartaledd, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 19% o'i disgyblion cynradd anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Mae gan ychydig iawn o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua hanner y disgyblion yn y cyfnod cynradd yn siarad Cymraeg gartref. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrif ethnig, ac nid oes yr un ohonynt yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae **Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon** yn ysgol gynradd Gymraeg sydd wedi'i lleoli yng ngogledd Casnewydd. Mae 200 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys disgyblion meithrin rhan-amser. Dros y tair blynedd diwethaf, bu tua 12% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar gyfartaledd, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tuag 21% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Ychydig o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd lleiafrif ethnig, er nad oes yr un ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Mae **Ysgol Gymraeg Dafydd Llwyd** wedi'i lleoli yn Y Drenewydd yn awdurdod lleol Powys. Ar hyn o bryd, mae 154 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Dros y tair blynedd diwethaf, bu tua 6% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar gyfartaledd, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 19% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndiroedd gwyn Prydeinig. Ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg gartref.

Ysgol gynradd Gymraeg yw **Ysgol Gymraeg Pen Barras**, sydd wedi'i lleoli yn Rhuthun, Sir Ddinbych. Mae 278 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae hyn yn cynnwys disgyblion rhan-amser yn nosbarth meithrin yr ysgol. Dros y tair blynedd diwethaf, bu tua 4% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar gyfartaledd, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae bron pob un o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig, ac mae llawer yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 7% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (22%). Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ysgol gynradd wirfoddol a reolir yw **Ysgol Gynradd Cae Top**, sydd dan reolaeth yr Eglwys yng Nghymru. Fe'i lleolir ym Mangor, Gwynedd. Mae 236 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys disgyblion meithrin rhan-amser. Dros y tair blynedd diwethaf, bu tua 12% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar gyfartaledd, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Daw ychydig o ddisgyblion gefndiroedd ethnig gwahanol (17%) ac maent yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 18% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (22%). Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae **Ysgol Gynradd Dyffryn Cledlyn** yn ysgol gynradd Gymraeg ym mhentref Drefach, ger Llanybydder yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae gan yr ysgol 123 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys disgyblion meithrin rhan amser. Cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 5%. Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndiroedd gwyn Prydeinig, ac mae llawer ohonynt yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 32% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ysgol gynradd Gymraeg yw **Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili**, sydd wedi'i lleoli ar gyrion gogleddol Caerffili. Mae 456 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys disgyblion meithrin rhan-amser. Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd diwethaf yw tua 11%. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae bron pob disgybl o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tuag 16% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (22%).

Mae **Ysgol Gynradd Gymraeg Gwenffrwd** wedi'i lleoli yn Nhreffynnon, Sir y Fflint. Mae 177 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys disgyblion meithrin rhan-amser. Cyfartaledd treigl 3 blynedd y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 15%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol (19%). Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd lleiafrif ethnig ac yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 49% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (22%). Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae **Ysgol Gynradd Rhydypennau** yn ysgol gynradd Gymraeg sydd wedi'i lleoli ym mhentref Bow Street, sydd ychydig filltiroedd i'r gogledd o dref Aberystwyth yng Ngheredigion. Mae 193 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys disgyblion meithrin rhan-amser ac amser llawn. Cyfartaledd treigl 3 blynedd y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 9%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tuag 21% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd lleiafrif ethnig, ac nid oes yr un ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Daw'r lleiafrif o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

Ysgol cyfrwng Cymraeg bob oed yw **Ysgol Llanhari**, sydd wedi'i lleoli ym mhentref Llanhari yn Rhondda Cynon Taf. Ar hyn o bryd, mae 713 o ddisgyblion rhwng 3 ac 18 oed ar y gofrestr, ac mae 199 ohonynt yn y cyfnod cynradd. Dros y tair blynedd diwethaf, bu 3% o'r disgyblion yn y cyfnod cynradd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar gyfartaledd, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 22% o'i disgyblion cynradd anghenion dysgu ychwanegol, sy'n gyfwerth â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y cyfnod cynradd. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion cynradd o gefndiroedd gwyn Prydeinig. Mae llawer o'r disgyblion cynradd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

Ysgol gynradd Gymraeg yw **Ysgol Morfa Nefyn**, sydd wedi'i lleoli ym mhentref Morfa Nefyn ger Pwllheli, Gwynedd. Mae 42 o ddisgyblion hyd at Flwyddyn 3 ar y gofrestr, gan gynnwys disgyblion meithrin rhan-amser. Dros y tair blynedd diwethaf, bu 27% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar gyfartaledd, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tua 15% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22%. Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndiroedd gwyn Prydeinig. Mae llawer o'r disgyblion yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Amgylchedd dysgu** | Ble mae'r addysgu a'r dysgu yn digwydd yn y dosbarth ac o amgylch lleoliad neu ysgol. |
| **Anghenion dysgu ychwanegol** | Mae gan ddysgwr anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo / ganddi anhawster neu anabledd dysgu sy'n galw am ddarpariaeth ychwanegol. |
| **Cyfuno** | Cyfuno ffonemau unigol â'i gilydd i gynhyrchu graffem neu air. |
| **Cipddarllen (sganio)** | Chwilio am wybodaeth drwy nodi geiriau allweddol a lleoli gwybodaeth o'u cwmpas. |
| **Darllen neu ysgrifennu dan arweiniad** | Mewn darllen neu ysgrifennu dan arweiniad, mae'r ymarferydd yn dysgu darllen neu ysgrifennu gyda grŵp bach o ddysgwyr, sydd fel arfer ar lefelau cyrhaeddiad tebyg. Trwy gydweithio, gall dysgwyr hefyd ddysgu ar y cyd â'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd, a thrafod testunau a sut maen nhw wedi'u strwythuro. Nod dulliau dysgu dan arweiniad yw helpu dysgwyr i symud tuag at annibyniaeth. |
| **Datblygiad a gwybodaeth am eirfa** | Dysgu geiriau yw datblygu geirfa. Gwybodaeth am eirfa yw gwybod ystyr geiriau. |

| | |
|---|---|
| **Darpariaeth barhaus ac estynedig** | Mae darpariaeth barhaus yn cyfeirio at ddefnyddio adnoddau sydd ar gael yn barhaus yn yr ystafell ddosbarth dan do neu yn yr awyr agored i ddysgwyr eu defnyddio'n annibynnol. Mae darpariaeth estynedig yn cyfeirio at heriau neu dasgau ychwanegol sy'n cyd-fynd â phwnc neu ddiddordebau dysgwyr. Bydd y dysgwyr yn defnyddio'r adnoddau hyn yn ogystal â'r adnoddau arferol mewn darpariaeth barhaus. |
| **Dysgwyr dan anfantais** | Dysgwyr dan anfantais yw dysgwyr a allai wynebu rhwystrau rhag llwyddo yn yr ysgol oherwydd amgylchiadau niweidiol y tu hwnt i'w rheolaeth. Gall y rhain gynnwys caledi ariannol a chymdeithasol o fewn teuluoedd disgyblion, gan gynnwys dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (cPYDd) a dysgwyr o deuluoedd incwm isel. |
| **Etymoleg** | Tarddiad a hanes gair neu eiriau. |
| **Ffonem** | Sŵn a wneir gan lythyren neu grŵp/cyfuniad o lythrennau. Mae ffonemau yn cael eu cynrychioli gan graffemau. |
| **Geiriau aml eu defnydd** | Geiriau sy'n cael eu siarad neu eu darllen yn fwy aml na geiriau eraill. Mae llawer ohonynt yn gyffredin iawn (er enghraifft, 'mae', 'dyma', 'yw'), a gellir eu hadnabod i helpu'r darllenydd i fagu hyder. |
| **Gwefr-air** | Gair sy'n cael ei ddewis yn arbennig er mwyn creu effaith penodol. |
| **Gweithgareddau ffurfiol a llai ffurfiol** | Gweithgareddau ffurfiol yw rhai sydd yn cael eu harwain gan ymarferydd. Mae gweithgareddau llai ffurfiol yn rhai lle mae disgyblion yn dysgu'n fwyfwy annibynnol yn yr amgylchedd dysgu. |

| | |
|---|---|
| **Iaith dderbyngar a mynegiannol** | Mae iaith dderbyngar yn cyfeirio at y gallu i ddeall iaith lafar, geiriau ysgrifenedig ac ystumiau. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth o eirfa a gramadeg. Iaith fynegiannol yw defnyddio geiriau, brawddegau, ystumiau ac ysgrifennu i gyfleu ystyr a negeseuon i bobl eraill. |
| **Llefaredd** | Defnyddio iaith i gyfathrebu drwy wrando, siarad ac ystumiau, mewn ystod o gyd destunau ffurfiol ac anffurfiol. |
| **Llithrddarllen (sgimio)** | Darllen i gael trosolwg cychwynnol o'r pwnc a phrif syniadau'r testun, efallai drwy dechnegau fel darllen dechrau a diwedd paragraffau neu ddarllen i lawr canol y dudalen. |
| **Makaton** | Rhaglen iaith yw Makaton sy'n defnyddio symbolau, arwyddion a lleferydd i alluogi pobl i gyfathrebu. |
| **Medrau darllen uwch** | Medrau sy'n galluogi dysgwyr i ddarllen ystod o ddeunyddiau, gan gynnwys testunau llenyddol ac anllenyddol cymhleth â hyder a dealltwriaeth, a gallu ymateb yn dda iddynt, ar lafar neu'n ysgrifenedig. |
| **Morffoleg** | Astudiaeth o rannau o eiriau yw hyn: gwreiddiau, rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid. Mae hyn yn cynnwys newidiadau bach i eiriau, fel ychwanegu 'au' i wneud ffurf luosog. |
| **Ôl-ddodiad** | Ychwanegu grŵp o lythrennau at ddiwedd gair i newid ei ystyr e.e. 'meddylgar'. |
| **Orgraff** | Dull sillafu, fel drwy ddefnyddio llythrennau'r wyddor neu system arall o symbolau. |

| | |
|---|---|
| **Patrymau cystrawennol** | Strwythur brawddeg sy'n cynnwys geiriau mewn trefn benodol. |
| **Rhagddodiad** | Ychwanegu grŵp o lythrennau at ddechrau gair i newid ei ystyr e.e. 'aneglur'. |
| **Segmentu** | Ffonemau unigol o fewn geiriau ble gellir eu cynrychioli â graffemau. |
| **Trawsieithu** | Arfer addysgeg yw trawsieithu sy'n golygu symud rhwng dwy iaith ar gyfer mewnbwn ac allbwn yn yr un gweithgaredd. Mae dysgwyr yn derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yn gweithio gyda'r wybodaeth honno mewn iaith arall. |
| **Trochi** | Term sy'n cwmpasu gwahanol ddulliau addysgol i annog datblygiad iaith. |
| **Uwch-fedrau darllen** | Mae'r rhain fel arfer yn cynnwys lleoli, ad-drefnu, dod i gasgliad, gwerthuso a gwerthfawrogi. Dylid ystyried cyd-destun a lefel soffistigeiddrwydd defnyddio'r medrau hyn wrth gynllunio addysgu a dysgu. Dylid addysgu'r medrau hyn i ddysgwyr o ddechrau eu taith ddarllen. Maent yn berthnasol i destunau llenyddol ac anllenyddol. |
| **Ymarferydd** | Term cyffredinol i ddisgrifio oedolion sy'n gweithio gyda dysgwyr, er enghraifft athrawon, cynorthwywyr ac arweinwyr cylchoedd meithrin. |

| | |
|---|---|
| **Ymwybyddiaeth ffonolegol ac ymwybyddiaeth ffonemig** | Fel arfer, caiff ymwybyddiaeth ffonolegol ei deall fel y gallu i wahaniaethu rhwng nodweddion lleferydd, fel sillafau a ffonemau, a gallu rhannu dechrau a diwedd gair. Is-set o ymwybyddiaeth ffonemig sy'n ymwneud â gallu'r gwrandäwr i wahaniaethu a thrin yr elfennau lleiaf, ystyrlon o sain mewn geiriau (h.y. ffonemau). |
| **Ysgrifennu cynnar** | Camau cynnar ysgrifennu. Mae plant yn arbrofi ag ysgrifennu, efallai drwy roi cynnig ar ffurfio llythrennau, dangos dealltwriaeth o gyfeiriad Cymraeg/Saesneg ysgrifenedig, a siarad am yr hyn y maent wedi'i ysgrifennu. |

## Rhifau – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron bob un = | gydag ychydig o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | o dan 40% |
| ychydig = | o dan 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Bahrick, H. P., Hall, L. K., Goggin, J. P., Bahrick, L. E., and Berger, S. A. (1994) Fifty years of language maintenance and language dominance in bilingual Hispanic immigrants. *Journal of Experimental Psychology: General*, **123** (3), 264-283.

Baker, C. R. (2000) *The care and education of Young bilinguals: An introduction for professionals*. Clevedon: Multilingual Matters.

Binks, H. L. and Thomas, E. M. (2019) Long-term outcomes for bilinguals in minority language contexts: Welsh-English teenagers' performance on measures of grammatical gender and plural morphology in Welsh. *Applied Psycholinguistics*, **40** (4), 1019-1049.

Cenoz, J., and Genesee, F. (ed.) (2001) *Trends in bilingual acquisition*. Amsterdam: John Benjamins.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Llundain: Y Llyfrfa. [Ar lein]. Ar gael o: **https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh** [Cyrchwyd ar 9 Mawrth 2020]

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf** [Cyrchwyd ar 21 Awst 2020]

Estyn (2020) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: **https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/2020-07/Annual_Report_2018_2019_cy%20%281%29.pdf** [Accessed 21 August 2020]

Gathercole, V. C. M., Thomas, E. M., Guasch, N. V., Kennedy, I., Prys, C., Young, N., Roberts, E. J., Hughes, E. K and Jones, L. (2016) Teasing apart factors influencing executive function performance in bilinguals and monolinguals at different ages. *Linguistic approaches to bilingualism*, **6** (5), 605-647

Gathercole, V. C. M., Thomas, E. M., Jones, L., Guasch, N. V., Young, N. and Hughes, E. K. (2010) Cognitive effects of bilingualism: digging deeper for the contributions of language dominance, linguistic knowledge, socio-economic status and cognitive abilities. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism,* **13** (5), 617-664

Gathercole, V. C. Mueller and Thomas, E. M. (2009) Bilingual first language development: Dominant language takeover, threatened minority language take-up. *Bilingualism: Language and Cognition*, **12** (2) 213-237.

Genesee, F. (1989). Early bilingual development: One language or two? *Journal of Child Language*, **16**, 161-79.

Genesee, F. (2001). Bilingual first language acquisition: Exploring the limits of the language faculty. *Annual Review of Applied Linguistics*, **21**, 153-68.

Genesee, F. and Nicoladis, E. (2009). Bilingual acquisition. In: E. Hoff and M. Shatz (eds.), *Bilingual first language acquisition*,. Rhydychen: Blackwell, 324-42

Jerrim, J. (2019) *Are all types of reading equal, or are some more equal than others?* [Ar lein]. Ar gael o: **https://ffteducationdatalab.org.uk/2019/10/are-all-types-of-reading-equal-or-are-some-more-equal-than-others/** [Cyrchwyd ar 2 Ebrill 2020] [Saesneg yn unig]

Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: Cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.* [Ar-lein]. Ar gael o: **https://hwb.gov.wales/api/storage/c163e330-a978-4523-8ce6-b659af27a51f/cynorthwyo-ysgolion-i-gyflwynor-fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol.pdf** [Cyrchwyd ar 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2015) *Cymwys am Oes: Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/cwricwlwm-i-gymru-cwricwlwm-am-oes.pdf** [Cyrchwyd ar 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2017a) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl – Cynllun gweithredu 2017-21*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf** [Cyrchwyd ar 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2017b) *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017-21*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/y-gymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017%E2%80%9321.pdf** [Cyrchwyd ar 05 Mawrth 2020]

Llywodraeth Cymru (2020a) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: **https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf** [Cyrchwyd ar 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020b) *Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein cenedl: diweddariad Hydref 2020*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: **https://llyw.cymru/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl-diweddariad-hydref-2020-html** [Cyrchwyd ar 13 Ionawr 2021]

Llywodraeth Cymru (2020c) *Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: ym mis Ionawr 2020* [Ar lein]. Ar gael o: **https://llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ym-mis-ionawr-2020** [Cyrchwyd ar 23 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020d) *Book Trust Cymru: Ail feddwl darllen er mwynhad ar gyfer cwricwlwm newydd* [Ar lein]. Ar gael o: **https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/2020/02/14/booktrust-cymru-ail-feddwl-darllen-er-mwynhad-ar-gyfer-cwricwlwm-newydd/** [Cyrchwyd 3 Ebrill 2020]

Pearson, B. Z., Fernández, S., and Oller, D. K. (1993). Lexical development in simultaneous bilingual infants: Comparison to monolinguals. *Language Learning* **43**, 93-120.

Rhys, M. and Thomas, E. M. (2013) Bilingual Welsh-English children's acquisition of vocabulary and reading: implications for bilingual education. [Online]. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* **15** (6), 633-656. Ar gael o: **https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/13670050.2012.706248** [Cyrchwyd ar 31 Mawrth 2020]

Thomas, E, M., Apolloni, D. and Lewis, G. L. (2014) The learners' voice: exploring bilingual children's selective language use and perceptions of minority language competence. [Ar-lein]. *Language and Education* **28** (4), 340-361. Ar gael o: **https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/09500782.2013.870195** [Cyrchwyd ar 31 March 2020]

Thomas, E. M., Apolloni, D. a Parry, N. M. (2018) *Dulliau Addysgu Dwyieithog*. Bangor: Prifysgol Bangor. [Ar-lein]. Ar gael o: **https://www.bangor.ac.uk/education-and-human-development/educational-resources.php.cy** [Cyrchwyd ar 31 Mawrth 2020]

United Nations (2020) *Policy Brief: The Impact of COVID-19 on children. United Nations*. [Ar-lein]. Ar gael o: **https://unsdg.un.org/resources/policy-brief-impact-covid-19-children** [Cyrchwyd ar 5 Mai 2020] [Saesneg yn unig]

University College London, Institute of Education (2018) *Fact or fiction? Novels come top for reading skills* [Ar-lein]. Ar gael o: **https://www.ucl.ac.uk/ioe/news/2018/oct/fact-or-fiction-novels-come-top-reading-skills** [Cyrchwyd 3 Ebrill 2020] [Saeseng yn unig]

Volterra, V. and Taeschner, T (1978) The acquisition and development of language by bilingual children. *Journal of Child Language* **5**, 311-26.

Williams, C. (2003) *Dysgu mewn Dwy Iaith: Datblygiad Proffesiynol ar gyfer Darpariaeth Ddwyieithog mewn Addysg Gofal Iechyd*. Bangor: Ysgol Nyrsio, Bydwreigiaeth ac Astudiaethau Iechyd, Prifysgol Bangor

Young, N. E., Rhys, M., Kennedy, I. A., and Thomas, E. M. (2017) The linguistic, cognitive and emotional advantages of minority language bilingualism. In: F. Lauchlan, F. and M. des Carmen Parafita Couto (eds.) *Bilingualism and minority Languages in Europe*. Newcastle upon Tyne: Cambridge Scholars Publishing, 120-140.